# Ein Hadroddiad Blynyddol a Chyfrifon 2024/25



Ni yw Action for Children

Gweithredu dros Blant

**Cariad sydd yn ein hysgogi yn Gweithredu dros Blant.** Rydym ni'n gweithredu fel nad yw plant yn colli eu plentyndod hapus a diogel. Ac rydyn ni wedi gwneud hynny ers dros 150 o flynyddoedd.

Mae plentyndod yn werthfawr. Mae'r amser i lwyddo yn brin.

Dylai pob plentyn gael cartref diogel a chariadus, bwyd, cynhesrwydd, y cyfle i dyfu a dysgu - y gefnogaeth i ymdopi â heriau bywyd. Ond mae gormod o blant ddim yn cael hynny.

Dyna pam mae gennym filoedd o bobl ymroddedig ar lawr gwlad sy'n rhoi'r cymorth ymarferol a'r warchodaeth sydd eu hangen ar fyrder ar blant a phobl ifanc. Ac rydym ni'n ymgyrchu'n ddiflino dros newid parhaol.

**Bob dydd, ledled y DU, rydyn ni'n**

Action for Children

**Gweithredu dros Blant**





**Sut i lywio'r adroddiad hwn**

Cliciwch y penawdau sydd wedi'u rhestru ar y dudalen gynnwys hon. Ar waelod pob tudalen gallwch ddefnyddio'r bar llywio neu glicio'r botwm hafan i ddychwelyd i'r dudalen hon.

# Cynnwys


**Cyflwyniad** 04
- Croeso gan ein Cadeirydd ... 04
- Helo gan ein Prif Swyddog Gweithredol ... 05
- Uchafbwyntiau ein blwyddyn ... 06
- Perfformiad ariannol ... 08

**Adroddiad Ymddiriedolwyr** 09
- Ein strategaeth ... 09
- Ein gwasanaethau ... 10
- Tyfu ein gwasanaethau a chynyddu ein heffaith ... 11
  - Cefnogaeth i deuluoedd 11
  - Camfanteisio troseddol ar blant 14
  - Gofal plant 15
  - Plant mewn gofal 16
  - Iechyd meddwl a lles 20
  - Plant anabl 22
  - Diogelu 23
  - Cyfranogiad 24
- Dylanwadu ar benderfyniadau ... 25
- Codi arian ac ymwybyddiaeth ... 28
- Galluogi ein gwaith ... 33
  - Pobl 33
  - Gwella effeithlonrwydd 36
  - Cynaliadwyedd 36
- Ffocws ar y dyfodol ... 38
- Adolygiad ariannol ... 39
- Rheoli risg ... 43
- Llywodraethu ... 47
  - Strwythur Cyfreithiol a Llywodraethu 47
  - Dyletswyddau ymddiriedolwyr 48
- Datganiad cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr ... 51

**Adroddiad yr archwilydd annibynnol** 52

**Datganiadau ariannol** 55

**Gwybodaeth ychwanegol** 80
- Manylion cyfreithiol a gweinyddol 80
- Bwrdd yr Ymddiriedolwyr ... 81

**Diolch i chi** 83



# Croeso gan Gadeirydd ein Hymddiriedolwyr, Sarika

**Y llynedd, fe wnaethom gefnogi 551,400 o blant, pobl ifanc a theuluoedd ledled y DU gyda'n gofal cariadus.**

Rydw i'n teimlo mor falch o'r hyn rydyn ni wedi'i gyflawni ond, fel bob amser, mae gennym ni fwy i'w wneud. Mae'r heriau sy'n wynebu plant a theuluoedd yn sylweddol gyda chostau byw yn parhau i roi pwysau ar eu bywydau. Gyda chyllidebau awdurdodau lleol dan bwysau, mae rhai o'r gwasanaethau a ddarparwn ar eu cyfer wedi cael eu cwtogi o ran cwmpas a'u cymryd yn ôl yn fewnol. Oherwydd yr heriau hyn rydyn ni bob amser yn addasu, er mwyn i ni allu diwallu anghenion teuluoedd yn yr hinsawdd economaidd anodd hon.

Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae'r Bwrdd a'r tîm arwain wedi bod yn ailedrych ar y strategaeth a ddatblygwyd gennym yn 2022, ac yn ystod y misoedd nesaf byddwn yn lansio ein strategaeth ddiwygiedig, gan adeiladu ar y datblygiadau cadarn a wnaed dros y blynyddoedd diwethaf. Nod ein strategaeth bresennol oedd cynyddu ein heffaith drwy dwf yn ein gwasanaethau a'n gwaith dylanwadu; ac i gryfhau ein cynaliadwyedd yn y dyfodol drwy gynyddu'r cyfraniad o godi arian a gofal plant, gwella effeithlonrwydd ein swyddogaethau canolog, a chanolbwyntio ar ein staff a'n gwirfoddolwyr. Rydym wedi strwythuro ein hadroddiad blynyddol o amgylch y nodau hyn i ddangos y cynnydd rydym wedi'i wneud. Rhan ganolog o'n twf o hyd yw ein rhaglen breswyl uchelgeisiol. O ganlyniad i'r buddsoddiad hwn, erbyn diwedd y flwyddyn ariannol nesaf (2026/27) rydym yn bwriadu rhedeg 15 o gartrefi diogel a chariadus newydd ar gyfer y plant a'r bobl ifanc sydd wir eu hangen. Byddwn hefyd yn parhau i flaenoriaethu gofalwyr maeth cariadus ac ymyrraeth gynnar sy'n seiliedig ar ymchwil. Mae'r angen yn enfawr, ac rydym yn canolbwyntio ar gynyddu'r ddarpariaeth, gan ddefnyddio ein hadnoddau ariannol ein hunain, yn ogystal â meithrin partneriaethau â sefydliadau sy'n rhannu ein huchelgeisiau.

Mae'r newid strategol hwn i wasanaethau mwy dwys sydd wedi'u hanelu at y plant a'r bobl ifanc mwyaf agored i niwed yn debygol o effeithio ar nifer y rhai rydym yn eu cyrraedd. Fodd bynnag, nid yw'n effeithio ar yr effaith hirdymor rydyn ni'n parhau i'w chael ar fywydau'r rheini rydyn ni'n eu cefnogi. Rydym hefyd yn parhau i ymgysylltu â llunwyr polisïau - gan eiriol dros newid boed hynny wrth fynd i'r afael â thlodi plant neu gamfanteisio'n droseddol ar blant. Rydym yn cydnabod bod newid cadarnhaol i bolisi'r llywodraeth yn bellgyrhaeddol ac yn effeithio ar bob plentyn yn y wlad.

Yn 2024/25, rydym wedi sicrhau perfformiad ariannol sefydlog, sy'n heriol o ystyried y pwysau ar y system gofal cymdeithasol. Unwaith eto, rydym wedi cynyddu cyfanswm ein hincwm, gyda chefnogaeth twf yn ein gwasanaethau ac yn sgil codi arian. Er bod ein cronfeydd wrth gefn yn dal ychydig yn is na'n lefel darged, mae hyn yn adlewyrchu ein buddsoddiad arfaethedig mewn cartrefi preswyl (gweler tudalen 16).

Un uchafbwynt eleni oedd pan ymwelodd ein noddwr, Ei Huchelder Brenhinol Tywysoges Cymru, â'n Huned Mam a'i Babi (MBU) yng Ngharchar a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Styal. Fel rhan o'i hymrwymiad i gefnogi'r blynyddoedd cynnar, ymunodd y Dywysoges â staff i drafod a chynnal y cwlwm hanfodol rhwng mamau a'u babanod yn ystod eu cyfnod yn y ddalfa.

Mae ein hymrwymiad i amrywiaeth a chynhwysiant yn dal yn ganolog. Rydym wedi rhannu ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant ddiwygiedig a chyn bo hir byddwn yn lansio hyfforddiant gwrth-hiliaeth gorfodol ar gyfer staff ac arweinwyr newydd.

Yn olaf, rwy'n ddiolchgar iawn i'r ymddiriedolwr Markus Ruetimann am ei ymrwymiad a'i ymroddiad i Gweithredu dros Blant. Rhoddodd y gorau iddi eleni ar ôl gwasanaethu am ddau dymor ar y Bwrdd, a'r ail dymor fel Dirprwy Gadeirydd. Fel bob amser, diolch i Fwrdd yr Ymddiriedolwyr, cydweithwyr cyfetholedig, ein holl staff a'n gwirfoddolwyr a phob un o'n cefnogwyr anhygoel am weithredu dros blant mewn cymaint o ffyrdd anhygoel.

Sarika Patel, Cadeirydd, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr.



**Sarika Patel,**
Cadeirydd, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr



# **Helo** gan ein Prif Weithredwr, Paul

**Rwy'n dal i gael fy synnu gan bopeth y mae Gweithredu dros Blant yn ei gyflawni.**

Yng nghyd-destun cyfnod anoddach fyth yn y sectorau gofal cymdeithasol ac elusennol, mae ein staff, ein gwirfoddolwyr a'n cefnogwyr anhygoel wedi dangos eu bod wir yn cael eu sbarduno gan gariad i weithredu dros blant.

Fel y byddwch yn darllen ar y tudalennau canlynol, yn unol â'n strategaeth bresennol, rydym wedi parhau i ennill contractau newydd a chreu effaith ledled y DU. Yn 2024/25, mae hyn wedi cynnwys sicrhau contract pedair blynedd o £7.6 miliwn i gefnogi 600 o deuluoedd ledled Glasgow bob blwyddyn. Rydyn ni'n falch iawn o allu gwneud hyd yn oed mwy o wahaniaeth i'r teuluoedd sy'n wynebu tlodi, trawma ac anfantais rhwng cenedlaethau yn y gymuned hon.

Ar sail ein cenhadaeth i gefnogi'r plant a'r bobl ifanc fwyaf agored i niwed, rydyn ni hefyd yn gwneud gwaith eithriadol yn brwydro dros newid o ran camfanteisio troseddol ar blant, yn enwedig ers cyhoeddi Adolygiad Jay y llynedd. Fe wnaethom lansio ymchwil dilynol “Dydw i ddim eisiau dilyn y trywydd hwnnw” a oedd yn edrych ar y niwed go iawn sy'n cael ei achosi gan gamfanteisio troseddol ar blant. Mae hynny ochr yn ochr â'n gwasanaethau cymorth sy'n newid bywydau ac sy'n helpu pobl ifanc a theuluoedd sy'n wynebu'r hunllef hon bob dydd. Rydw i'n bersonol mor falch ein bod wedi ymestyn i'r maes hwn ac yn obeithiol am yr hyn y byddwn yn ei gyflawni nesaf.

Rhan fawr o fy swydd yw ein helpu i addasu'n gyson a sicrhau bod y sefydliad yn parhau i fod yn gynaliadwy ar gyfer y dyfodol. Eleni, mae hynny'n cynnwys gweithredu ein rhaglen Sefydliad Optimaidd - sicrhau bod gennym y bobl iawn yn y llefydd iawn a gwneud ein sylfaen costau'n fforddiadwy. Mae newid bob amser yn anodd, ac rydw i wedi cael fy mhlesio gan sut rydyn ni wedi delio â hyn fel sefydliad (gweler tudalen 36).

Wrth edrych i'r dyfodol, rydym yn parhau i gynllunio ar gyfer twf ac yn croesawu cyhoeddiad diweddar y llywodraeth am ei chynlluniau Dechrau Gorau mewn Bywyd a'r cyllid ychwanegol cysylltiedig ar gyfer gwasanaethau cymorth cynnar. Fodd bynnag, mae'r amgylchedd allanol yn dal yn heriol gyda chyllid ar gyfer gwasanaethau plant dan bwysau, a phwysau ariannol cynyddol ar elusennau; yn fwyaf arbennig drwy'r newidiadau i gyfraniadau Yswiriant Gwladol (YG) ar gyfer cyflogwyr. Er ein bod yn croesawu'n llwyr unrhyw gam i leihau'r pwysau ariannol ar unigolion sydd eisoes yn gweithio'n galed ac yn dal i gael trafferth, y realiti yw bod y newid hwn wedi cyflwyno her sylweddol a chostau annisgwyl i elusennau. Byddwn yn parhau i addasu, gwella ein ffyrdd o weithio a gwneud yn siŵr bod arian yn cael ei wario yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl.

Hoffwn orffen drwy ddathlu dau lwyddiant ysgubol yn ystod y flwyddyn ddiwethaf hon. Yn gyntaf, fe wnaethom groesawu Cymdeithas Adeiladu Nationwide fel partner corfforaethol newydd. Nod y bartneriaeth aml-flwyddyn sy'n werth miliynau o bunnoedd yw cefnogi dros 100,000 o blant, pobl ifanc a theuluoedd sy'n byw mewn tlodi neu'n profi caledi ariannol, drwy'r Gronfa Teuluoedd a Chlybiau Teuluoedd (gweler tudalen 13). Buom hefyd yn gweithio mewn partneriaeth i gynhyrchu'r adroddiad “Talu'r Pris” - cynllun i ddylanwadu ar strategaeth Tlodi Plant y llywodraeth, codi miliynau o blant allan o dlodi i drawsnewid eu cyfleoedd mewn bywyd, a rhoi hwb i'r economi. Gallwch ddarllen mwy am hyn ar dudalen 27.

Ymunodd Nationwide â ni fel noddwr ein hymgyrch Siôn Corn Cudd, gan godi ymwybyddiaeth o sut gall ein cefnogwyr anhygoel helpu plant agored i niwed i deimlo swyn y Nadolig. Rydw i wrth fy modd bod Siôn Corn Cudd wedi codi dros £2 filiwn yn 2024 - y ffigur uchaf erioed i ni. Mae'n gyfanswm anhygoel sy'n rhoi cymaint o gyfle i ni fod yno i'r plant agored i niwed sydd ein hangen ni.

I bawb a'n cefnogodd eleni, ym mha ffordd bynnag - diolch i chi am y camau a gymerwyd gennych. Rydych chi wir yn gwneud gwahaniaeth. Rydych yn helpu i greu plentyndod mwy diogel a hapus. Fydden ni ddim yn gallu gwneud ein gwaith heboch chi.

**Paul Carberry,**
Prif Weithredwr

## Yn 2024/25, fe wnaethom weithredu dros

# 551,400

## o blant, pobl ifanc a theuluoedd ledled y DU.



Fe wnaethom ennill contractau newydd gan gynnwys contract cymorth i deuluoedd yn Glasgow gwerth £7.6 miliwn dros y pedair blynedd nesaf, sy'n golygu y gallwn gefnogi tua 600 o deuluoedd ledled Glasgow bob blwyddyn.

Roedd ein hymgyrch Lle i'w Alw'n Gartref yn galw ar lywodraethau'r DU i weithredu ar unwaith er mwyn i blant mewn gofal gael y cartrefi, y cariad a'r gefnogaeth o ansawdd uchel sydd arnyn nhw eu hangen i ffynnu.




Drwy ein partneriaeth â Maethu Cymru, mae gan The Big Welcome - ap sydd wedi'i ddylunio i helpu plant a phobl ifanc i symud i'w cartref maeth - y potensial nawr i gefnogi bron i 5,000 o blant a phobl ifanc mewn gofal maeth yng Nghymru bob blwyddyn.




Fe wnaethom ddathlu dwy flynedd o'n Bwrdd Llysgenhadon Ifanc. Cadwch lygad am enghreifftiau o sut maen nhw wedi siapio ein gwaith, yn ogystal ag uchafbwyntiau eraill o ran cyfranogiad, yn yr adroddiad hwn.

Cadwch lygad am y neges hon → Nothing about me, without me




Roeddem yn falch iawn o gael ein dewis fel elusen Apêl Nadolig The i Paper ar gyfer 2024. Cynhaliwyd Apêl Plentyndod Hapus am bedair wythnos a chodwyd dros **£136,000 gyda Chymorth Rhodd**. Cyfanswm anhygoel.

# **Uchafbwyntiau'r** flwyddyn



Ymwelodd ein noddwr, Ei Huchelder Brenhinol Tywysoges Cymru, â'n Huned Mam a'i Babi yng Ngharchar a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Styal. Dywedodd staff, mamau newydd a phobl a oedd wedi defnyddio ein gwasanaeth wrthi am y gwahaniaeth cadarnhaol mae'n ei wneud i'w bywydau.

**Fe wnaethon ni helpu**
**50,869**
**o blant a phobl ifanc (a'u teuluoedd)**
**gyda'u hiechyd meddwl a'u lles.**



Ochr yn ochr ag aelodau eraill o'r Gydweithfa Ailddychmygu Plant, rydym wedi bod yn gweithio i gefnogi argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Gofal Cymdeithasol i Blant yng Ngogledd Iwerddon, i wella gofal cymdeithasol i blant.

**Fe wnaethon ni helpu**
**484,650**
**o blant, pobl ifanc a'u teuluoedd**
**drwy ein gwasanaethau cymorth i deuluoedd.**



Cafodd ein hymgyrch Siôn Corn Cudd flwyddyn heb ei hail, gan godi dros£2 miliwn.

**Fe wnaethon ni helpu**
**5,141**
**o blant, pobl ifanc, eu teuluoedd a'u gofalwyr**
**drwy ein gwasanaethau sy'n cefnogi plant sydd mewn gofal neu sydd mewn perygl o fynd i ofal.**



Fe wnaethon agor ein pumed cartref cariadus newydd i blant fel rhan o'n rhaglen twf preswyl ac rydym yn bwriadu agor 10 arall yn ystod y ddwy flynedd nesaf.


**Fe wnaethon ni helpu**
**10,740**
**o blant a phobl ifanc anabl a'u teuluoedd.**

## Sut rydym yn mesur cyrhaeddiad ac effaith

Rydym yn cofnodi canlyniadau plant a phobl ifanc (neu eu rhieni neu ofalwyr) sy'n defnyddio ein gwasanaethau. Rydym yn monitro ac yn cofnodi'n rheolaidd neu pan nad oes angen ein cymorth arnynt mwyach, ac rydym yn casglu tystiolaeth o welliannau yn eu bywydau. Gan ddefnyddio'r holl ddata sydd ar gael ar gyfer pob canlyniad, cawn y canrannau ar gyfer yr adroddiad hwn. Rydym hefyd yn cofnodi nifer y plant, pobl ifanc, rhieni a gofalwyr sy'n defnyddio neu'n elwa o'n gwasanaethau i fesur cyrhaeddiad.

# Perfformiad **ariannol**

Dyma grynodeb o’n cyllid ar gyfer 2024/25.







| Incwm | 2024/25 | 2023/24 |
|---|---|---|
| Gweithgareddau elusennol | £143.9m | £136.3m |
| Rhoddion a chymynroddion | £17.9m | £17.2m |
| Incwm o fuddsoddiad | £1.1m | £1.6m |
| Arall | £0.6m | £0.2m |
| **Cyfanswm** | **£163.4m** | **£155.3m** |

| Gwariant | 2024/25 | 2023/24 |
|---|---|---|
| Gweithgareddau elusennol | £155.6m | £154.3m |
| Codi arian | £7.4m | £6.7m |
| Arall | £0.0m | £0.0m |
| **Cyfanswm** | **£163.0m** | **£161.0m** |

## Ble bydd eich arian yn mynd

Yn **2024/25** defnyddiwyd **84c o bob £1** i greu plentyndod hapus a diogel. Buddsoddwyd gweddill yr arian mewn costau codi arian a chostau gweinyddol i redeg yr elusen.

**Am bob £1 rydyn ni’n ei gwario:**




Mae **84c** yn helpu plant, pobl ifanc a theuluoedd.

**4c** ar godi arian.

**12c** ar y gwaith gweinyddol.

## Sut y gwnaethom greu plentyndod mwy diogel a hapus

**wariant ar weithgareddau i helpu plant**

**£61.1m**
**Cymorth i deuluoedd**

**£38.5m**
**Plant mewn gofal**

**£41.0m**
**Plant a phobl ifanc anabl**

**£14.3m**
**Iechyd meddwl a lles**

**£0.7m**
**Polisi ac ymgyrchu**

Mae ein strategaeth ar gyfer

# Plentyndod mwy diogel a hapus

## Ein gweledigaeth


Bod gan bob plentyn a pherson ifanc yn y wlad blentyndod hapus a diogel a'r sylfeini sydd eu hangen arnynt i ffynnu.

## Ein cenhadaeth

Rydyn ni'n cymryd camau i newid plentyndod y rheini sydd angen help i ffynnu. Rhoi'r amddiffyniad a'r cymorth ymarferol sydd eu hangen ar blant a phobl ifanc agored i niwed ar frys ac ymgyrchu'n ddiflino dros newid parhaol.

## Ein nodau strategol

Rydyn ni wedi gosod saith nod i'n helpu ni i greu plentyndod mwy diogel a hapus. Maent wedi'u gwreiddio yn ein hymrwymiad i roi lleisiau plant a phobl ifanc wrth galon ein gwaith ac maent yn cael eu sbarduno gan amrywiaeth a chynhwysiant ym mhopeth a wnawn.



### Dyma beth fyddwn ni'n ei wneud i blant, pobl ifanc a theuluoedd:

1. Datblygu ein gwasanaethau i helpu mwy o blant a phobl ifanc.
2. Cynyddu effaith ein gwaith gyda phlant a phobl ifanc.
3. Dylanwadu ar benderfyniadau polisi i wella bywydau plant a phobl ifanc.

### Dyma sut byddwn yn cyflawni hynny:

4. Denu, datblygu a chadw staff a gwirfoddolwyr rhagorol.
5. Ysbrydoli mwy o gefnogaeth ar gyfer ein gweledigaeth a'n cenhadaeth.
6. Cynyddu ein cyfraniad ariannol drwy godi arian, meithrinfeydd a gofal plant.
7. Sicrhau'r gwerth gorau i blant a phobl ifanc a gwella effeithlonrwydd.

Yn ystod y misoedd diwethaf, rydym wedi bod yn adolygu ein strategaeth bresennol gyda'n Bwrdd Ymddiriedolwyr. Byddwn yn lansio fframwaith strategol newydd yn ystod 2025/26. Darllenwch fwy am ein blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod ar dudalen 38.

# Ein **gwasanaethau**

**Rydyn ni'n darparu 342 o wasanaethau mewn cymunedau lleol ledled y DU, mewn ysgolion ac ar-lein. Ac rydyn ni'n gweithio ar draws pedwar prif faes gwasanaeth.**

## Cefnogaeth i deuluoedd

**66** o ganolfannau plant a chanolfannau teulu.

**56** o wasanaethau cymorth i deuluoedd.

**1** gwasanaeth ar-lein (Parent Talk).

**35** o feithrinfeydd a chlwb y tu allan i'r ysgol.

**12** o wasanaethau gofalwyr ifanc.

**6** o wasanaethau ymyrraeth gynnar ar gyfer plant a phobl ifanc a gamfanteisir arnynt yn droseddol.

**23** o wasanaethau cefnogi ar gyfer pobl ifanc, gan gynnwys cyfiawnder ieuenctid, gwaith ieuenctid a chefnogaeth ieuenctid.

## Plant a phobl ifanc anabl

**52** o wasanaethau gwyliau byr preswyl a chymunedol.

**16** o gartrefi i blant a phobl ifanc anabl.

**3** o egwyliau byr i faethwyr.

## Plant mewn gofal

**15** o wasanaethau cymorth tai i bobl ifanc.

**12** o wasanaethau maethu.

**16** o gartrefi plant.*

**1** gwasanaeth hawliau plant ac ymwelwyr annibynnol.

**1** ysgol breswyl.


**1** gwasanaeth ar-lein (Big Welcome).

## Iechyd meddwl a lles

**25** o wasanaethau cymorth iechyd meddwl.

**1** gwasanaeth ar-lein (Sidekick).

**Mae ein 16 cartref i blant yn cynnwys pum cartref i bobl ifanc yn ysgol Headlands. Yn flaenorol, roeddem yn cyfrif y cartrefi hyn fel un gwasanaeth yn Headlands, ond gan eu bod yn cael eu rheoleiddio fel cartrefi unigol sy'n cynnig yr un gofal cariadus â'n cartrefi hirdymor eraill, rydym nawr yn eu cyfrif fel gwasanaethau unigol.*



# **Datblygu ein gwasanaethau** a chynyddu ein heffaith

## Cymorth i deuluoedd

**Mae teulu cariadus a bywyd cartref diogel yn creu lles gydol oes i blant. Weithiau, mae angen cymorth ychwanegol ar deuluoedd i greu hynny. Dyna pam mae Gweithredu dros Blant yn darparu cefnogaeth i deuluoedd mewn gwasanaethau ledled y DU.**

Mae darparu'r cymorth iawn ar yr adeg iawn yn hanfodol. Felly, rydyn ni wedi gweithio'n galed i dyfu ein rhaglenni a chyrraedd hyd yn oed mwy o deuluoedd ar wahanol gamau o'u taith magu plant.

Y llynedd, fe wnaethom sicrhau contractau newydd i gefnogi teuluoedd. Fe wnaethom hefyd ehangu rhai gwasanaethau, gan gyflwyno ein Clybiau Teuluoedd ledled y DU, diolch i gyllid gan ein partner, Cymdeithas Adeiladu Nationwide. Ac fe wnaethom lansio Parent Talk, ein gwasanaeth gwybodaeth, cyngor ac arweiniad i rieni, ar WhatsApp.

Er gwaethaf yr enillion hyn, mae cyllid ar gyfer gwasanaethau cymorth i deuluoedd ac ymyrraeth gynnar wedi parhau i ostwng, gan ddilyn tuedd hirdymor. Mae hyn yn golygu bod rhai awdurdodau lleol wedi cymryd gwasanaethau'n fewnol ac rydyn ni wedi colli contractau yn Nyfnaint, Caerfaddon a South Lakes. Ond rydyn ni'n brwydro'n galed yn erbyn y toriadau hyn drwy ein gwaith dylanwadu ac mae cyhoeddiadau diweddar gan y Llywodraeth ynghylch yr agenda Dechrau Gorau mewn Bywyd yn galonogol.

### Ennill cyfleoedd newydd i gefnogi mwy o deuluoedd

Mae teuluoedd a chomisiynwyr yn cydnabod ein bod yn rhedeg gwasanaethau o ansawdd uchel. Y llynedd, er gwaethaf yr amgylchedd cyllido heriol, fe wnaeth yr enw da hwn ein helpu i ennill contractau newydd ac ymestyn y gwasanaethau llwyddiannus rydym eisoes yn eu darparu.

Mae hyn yn cynnwys Cefnogi Teuluoedd Glasgow - contract gwerth £7.6 miliwn i gefnogi teuluoedd yn y ddinas dros y pedair blynedd nesaf. Bob blwyddyn, bydd y gwasanaeth yn helpu 600 o deuluoedd sy'n wynebu tlodi, trawma ac anfantais rhwng cenedlaethau i fyw'n ddiogel gyda'i gilydd. Rydyn ni eisoes wedi newid bywydau yn y ddinas hon yn yr Alban, gan lwyddo i helpu i leihau nifer y plant sy'n cael eu symud o'u cartrefi.

Un o'r syniadau a wnaeth yr argraff fwyaf ar gomisiynwyr oedd partneriaeth arloesol gyda'r elusen leol 3D Drumchapel i gyfuno ein harbenigedd ni â'u gwybodaeth leol drylwyr.Drwy weithio gyda mudiadau cymunedol y ddinas, rydym eisiau meithrin cefnogaeth gynaliadwy i helpu teuluoedd lleol am genedlaethau i ddod.


***"Efallai bod rhai o'r nodau mae teuluoedd eisiau i ni helpu gyda nhw yn ymddangos yn fach, fel 'Rydw i eisiau i fy mhlentyn yn ei arddegau siarad â mi eto', ond mae'r canlyniadau'n gallu newid bywydau."***
– Gweithiwr Gwasanaeth Cefnogi Teuluoedd Glasgow

### Ymestyn gwasanaethau llwyddiannus

Yn ystod y flwyddyn, llwyddwyd i aildendro am sawl gwasanaeth gan gynnwys ein Gwasanaethau Cymorth Cynnar yn Newcastle, sy'n darparu hybiau i deuluoedd a chymorth magu plant i blant a theuluoedd. Mae hynny'n golygu y gallwn barhau â'n 30 mlynedd o hanes o ofalu am deuluoedd yn y ddinas.

Hefyd, rydyn ni'n falch iawn bod ein Gwasanaeth Plentyndod Cynnar a Theuluoedd (ECFS) yn Norfolk wedi ennill estyniad contract tair blynedd gan Gyngor Sir Norfolk. Bydd teuluoedd lleol yn parhau i elwa ar wybodaeth arbenigol un-i-un, sesiynau chwarae pwrpasol, cyrsiau magu plant a mwy.

Yn dilyn llwyddiant ein rhaglen Building Babies' Brains yn Nyfnaint, mae bellach yn cael ei chyflwyno yn Plymouth, Torbay ac mewn meithrinfa yn Newcastle (darllenwch fwy ar dudalen 15). Mae'r rhaglen sy'n seiliedig ar dystiolaeth, a ddyluniwyd gyda Phrifysgol Caerwysg, yn helpu rhieni i ddeall datblygiad ymennydd babanod a bondio yn y cyfnod 0-2 oed hanfodol.



**88%**

**o rieni a gofalwyr wedi gwella sgiliau magu plant a'u hyder ar ôl derbyn ein cefnogaeth.**

## Helpu i gadw babanod a rhieni gyda'i gilydd

Ym Mro Morgannwg, De Cymru, rydyn ni wedi bod yn helpu i atal babanod rhag cael eu tynnu oddi ar eu rhieni adeg eu geni a chael eu rhoi mewn gofal.

Yn anffodus, mae rhai babanod yn wynebu risg uchel o gael eu tynnu oddi wrth eu rhieni oherwydd yr heriau sy'n wynebu eu rhieni - fel camddefnyddio cyffuriau, cam-drin domestig neu feichiogrwydd yn yr arddegau. Felly, buom yn gweithio gydag asiantaethau arbenigol i ddarparu cymorth cynnar cydlynol, gan helpu i fynd i'r afael â phroblemau cyn geni a rhoi cyfle gwirioneddol i rieni lwyddo.

Mae hyn yn cynnwys sesiynau un-i un dwys yng nghartref y teulu, gan ganolbwyntio ar gefnogaeth emosiynol a sgiliau magu plant ymarferol.

Dilynir hynny gan waith grŵp gan ddefnyddio rhaglenni sy'n seiliedig ar dystiolaeth i feithrin dealltwriaeth rhieni o ddatblygiad yr ymennydd a sut mae eu hamgylchedd yn siapio datblygiad plant.

Ar ôl yr enedigaeth, mae rhieni'n dod yn ôl at ei gilydd mewn Clwb Teuluoedd, sy'n cael ei ariannu gan Nationwide, i'w cefnogi a'u helpu i wneud cysylltiadau â theuluoedd eraill.

## Esblygu Parent Talk

Parent Talk yw ein gwasanaeth cyngor digidol am ddim i rieni a gofalwyr ledled y DU. Nawr gall teuluoedd yng Nghaerlŷr elwa o gymorth wedi'i deilwra.

Y llynedd, cawsom gontract i gynnig Parent Chat Caerlŷr ar y cyd â Chyngor Dinas Caerlŷr. Mae hyn yn golygu y gall teuluoedd elwa o Parent Talk ond drwy gyfeirio at wasanaethau lleol, gwybodaeth leol berthnasol, a chyngor gan Hyfforddwr Magu Plant sydd â phrofiad o'r gymuned leol. Rydym yn gobeithio mai hwn fydd y cyntaf o lawer o gyfleoedd i weithio gydag awdurdodau lleol i gefnogi teuluoedd mewn ffordd fwy pwrpasol.

### Cefnogi rhieni ar WhatsApp

Yr haf diwethaf, fe wnaethom hefyd sicrhau bod Parent Talk ar gael drwy WhatsApp am y tro cyntaf, diolch i gyllid gan Ymddiriedolaeth Prudence.

Mae'r galw am Parent Talk wedi bod yn uchel erioed. Ers ei lansio yn 2020, rydyn ni wedi helpu dros 2 filiwn o rieni gyda chymorth di-dâl, di-lol drwy gynnwys ar-lein llawn gwybodaeth a chyngor gan hyfforddwyr magu plant arbenigol.

Canfu ein hymchwil fod rhieni prysur eisiau cael cyngor drwy WhatsApp. Felly, rydym wedi gweithio i wireddu hynny. Profodd y lansiad ei boblogrwydd, gyda 66% o ddefnyddwyr yn dewis WhatsApp yn hytrach gwe-sgwrs ar y diwrnod cyntaf. Hoffem ddiolch yn fawr iawn i Ymddiriedolaeth Prudence am helpu i ariannu'r gwaith hanfodol hwn.

### Chwilio am fwy o gyllid

Dangosodd ymchwil a gynhaliwyd gan Brifysgol Birmingham fod Parent Talk o fudd sylweddol i rieni, plant a theuluoedd. Amlygodd y gwerthusiad gysylltiad cryf rhwng lefelau straen is ymysg rhieni a gofalwyr, gwell canfyddiadau o'u galluoedd magu plant, a gwell deinameg teuluol.

Er gwaethaf y canlyniadau cadarnhaol hyn, mae Parent Talk yn wynebu heriau. Oherwydd diffyg cyllid ar gyfer ein gwasanaeth hyfforddi un-i-un, rydyn ni wedi gorfod cyfyngu ar farchnata Parent Talk er mwyn osgoi cael mwy o alw am ein gwasanaeth hyfforddi na'r hyn rydyn ni'n gallu ei gynnig. Rydym wedi gwneud hyn i sicrhau ein bod yn gallu cynnal ansawdd y gwasanaeth i'r rhieni sydd ein hangen, ond mae hyn yn effeithio ar nifer cyffredinol y bobl rydyn ni'n gallu eu cyrraedd gyda'n cymorth. Rydyn ni wrthi'n chwilio am gyllid ychwanegol ar gyfer Parent Talk er mwyn i ni allu gwrthdroi'r duedd hon a chyrraedd cynifer o rieni â phosibl gyda'r cymorth hanfodol hwn.

## Cynnig cefnogaeth i famau yn y carchar

Rydyn ni yma i deuluoedd lle bynnag maen nhw - ac mae hynny'n cynnwys rhieni yn y carchar.



Ym mis Chwefror 2025, ymwelodd ein noddwr, Ei Huchelder Brenhinol Tywysoges Cymru, ag Uned Mam a'i Babi (MBU) Gweithredu dros Blant yng Ngharchar a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Styal yn Wimslow, Swydd Gaer. Yno, fe wnaeth hi gwrdd â staff, mamau newydd, a menywod a oedd wedi defnyddio ein gwasanaeth, i glywed am y gwahaniaeth enfawr roedden ni wedi'i wneud i'w bywydau.

Mae ein staff arbenigol yn helpu menywod i greu a chynnal cysylltiad â'u babanod. Rydym hefyd yn eu helpu i dorri'r cylch aildroseddu a datblygu sgiliau newydd, gan gynnig cymorth un-i-un ar bopeth, o gyllidebu i goginio prydau iach.


Dywedodd Amanda Taylor, Cyfarwyddwraig Weithredol Gwasanaethau Plant: "Rhoddodd y Dywysoges amser i siarad â'n staff am sut mae ein gwasanaeth yn gweithio i sicrhau nad yw'r babanod hyn ar eu colled, ac i roi'r cyfle gorau iddynt gael dyfodol cadarnhaol. Treuliodd amser hefyd gyda rhai o'r mamau a'r babanod i ddeall pwysigrwydd y gwasanaeth, sy'n cyd-fynd yn agos iawn â gwaith ein noddwr ar ddatblygiad y blynyddoedd cynnar."

## Helpu gofalwyr ifanc i lunio gwaith cymdeithasol

Sut beth yw bywyd go iawn i'n gofalwyr ifanc?

Bu ein Gofalwyr Ifanc yn gweithio mewn partneriaeth â'r Adran Addysg i greu poster addysgol sydd bellach yn cael ei arddangos ym mhob ysgol ledled Gogledd Iwerddon. Wedi'u hysgogi gan y profiad hwnnw a'u llwyddiant, maent bellach wedi datblygu partneriaeth gyda Phrifysgol y Frenhines, Belfast i helpu myfyrwyr i ddeall sut beth yw bod â rôl ofalu fel person ifanc. Gyda'n cefnogaeth ni, buon nhw'n gweithio'n agos gyda myfyrwyr gwaith cymdeithasol o Brifysgol y Frenhines yn Belfast i lywio eu dysgu.

Roedd hyn yn golygu cymryd rhan mewn gweithgareddau chwarae rôl i ddangos i fyfyrwyr y sefyllfaoedd bywyd go iawn y byddent yn eu hwynebu yn y swydd, gan helpu i farnu eu perfformiad a rhoi adborth hanfodol.




**Gofalwyr ifanc a greodd y poster hwn – a ddangosir ym mhob ysgol yng Ngogledd Iwerddon.**

## Ein Clybiau Teuluoedd newydd




Mae pob teulu'n haeddu lle diogel. Rhywle lle gall plant ac oedolion gael cymorth arbenigol, cwrdd â theuluoedd eraill sy'n rhannu profiadau a mwynhau pryd poeth.

A dyna'n union maen nhw'n ei gael yng Nghlybiau Teuluoedd newydd Gweithredu dros Blant, a ariennir gan Nationwide.

Gwelsom pa mor effeithiol oedd ein Clybiau Teuluoedd cyntaf erioed yn Newcastle. Felly, y llynedd, diolch i Nationwide, fe wnaethon ni eu lansio ledled y DU.

Ein targed oedd lansio 10 Clwb Teuluoedd erbyn mis Mawrth 2024, ond fe wnaethom ragori ar hynny, gan ddarparu cyfanswm o 28. Mewn ymateb, darparodd Nationwide ragor o gyllid er mwyn i ni allu darparu 156 o glybiau dros dair blynedd.

Drwy'r Clybiau Teuluoedd gallwn ddiwallu anghenion gwahanol deuluoedd, fel cynnig clybiau sy'n benodol i helpu plant anabl i symud i fyw'n annibynnol. Gallwn hefyd gael gwybod yn uniongyrchol beth sydd ei angen ar deuluoedd a'u cysylltu â'r gwasanaethau cywir.

Dywedodd Caroline, Rheolwr Gwasanaethau Plant: "Bu modd i ni ddefnyddio'r Gronfa Teuluoedd i roi gwelyau newydd i blant mewn un teulu, oherwydd cawsom wybod drwy'r clwb eu bod yn cysgu ar y llawr. Mae gallu eu helpu gyda beth bynnag maen nhw'n mynd drwyddo yn gymaint o fantais oherwydd y ffordd y mae'r model hwn yn gweithio."

## Effaith Clybiau Teuluoedd

Yr hyn a ddywedodd y plant wrthym:

***"Roeddwn i'n hoffi cael y bwyd i gyd gyda'n gilydd a gallu chwarae gemau a chardiau a threulio amser gyda'n gilydd fel teulu."***

***"Fe wnes i wir fwynhau mynd yno, fe wnaeth fy helpu i feithrin fy mherthynas â fy mam."***

Yr hyn a ddywedodd y rhieni wrthym:

***"Roedd hi'n hyfryd treulio amser gwerthfawr gyda'r genethod. Roedd yn gyfle i mi ganolbwyntio arnyn nhw am unwaith."***

***"Rwyf wedi dysgu bod pobl ar gael i helpu os rwy'n estyn allan. Rydw i'n llai tebygol o fynd i banig a byddaf yn ymlacio ac yn mwynhau fy nheulu. Fe wnaeth y staff fy nghefnogi i'n fawr ar adeg anodd."***

**Roedd 89% o deuluoedd yn ymdopi'n well yn ariannol gyda'n cefnogaeth ni.**

# Camfanteisio'n droseddol ar blant

Herwgipio. Asid yn cael ei daflu atoch chi. Troseddwyr yn ymosod arnoch gyda chyllyll, cadwyni cŵn a batiau pêl fas.

Dim ond rhai o brofiadau brawychus y plant rydyn ni'n eu cefnogi drwy ein Gwasanaeth Ymyriadau Camfanteisio Troseddol yw'r rhain.

Camfanteisio troseddol yw pan fydd plant yn cael eu gorfodi i dorri'r gyfraith, fel smyglo cyffuriau, dwyn neu fegera er budd troseddwyr. Gall ddinistrio bywydau ifanc.




Ym mis Hydref 2024, fe wnaethom rannu rhai o brofiadau'r bobl ifanc hyn yn ein hadroddiad *"Dydw i ddim eisiau dilyn y trywydd hwnnw".*

Roedd llawer ohonynt yn agored i niwed: yn ddigartref, yn defnyddio cyffuriau anghyfreithlon, neu'n niwroamrywiol.

Roedd ein hadroddiad yn rhannu sut yr effeithiodd 179 o ddigwyddiadau difrifol ar 140 o blant a phobl ifanc. Dim ond 12 oed oedd yr ieuengaf. Roedd yn tynnu sylw at y ffordd yr oedd 50 o blant wedi cael eu trywanu, a rhai'n dioddef anafiadau a oedd wedi newid eu bywydau. Llofruddiwyd dau berson ifanc. Roedd 107 o ddigwyddiadau'n cynnwys ymosodiadau difrifol ar blant. Roedd 23% o'r digwyddiadau yn ymwneud â phlant yn achosi niwed i blant eraill o ganlyniad i gamfanteisio. A gwrthododd 90% o bobl ifanc roi unrhyw fanylion am y rhai a oedd yn camfanteisio arnynt oherwydd eu bod yn ofni'r canlyniadau - roedd yr heddlu'n gwybod am bob un ohonynt.

Mewn ymateb, rydym wedi bod yn gwthio am newid polisi brys i amddiffyn plant ar yr un pryd ag ehangu ein gwasanaethau ledled y DU i'w hamddiffyn rhag camfanteisio.

Gwnaethom lawer o argymhellion brys yn yr adroddiad, o fuddsoddi mwy mewn cymorth ac ymyrraeth gynnar, i gamfanteisio yn cael ei gydnabod fel math penodol o gam-drin plant.

Yn y cyfamser, mae ein Gwasanaeth Ymyriadau Camfanteisio Troseddol arloesol yn helpu i 'ddargyfeirio' pobl ifanc oddi wrth droseddu - gyda chymorth mentoriaid cymheiriaid sydd wedi bod yn eu hesgidiau nhw.

Rydyn ni'n gweithio'n galed i wneud yn siŵr bod y gwasanaeth hanfodol hwn yn aros yn gynaliadwy, gan gynnwys gwneud cais drwy Gronfa Loteri Genedlaethol y DU i gefnogi ac ehangu'r hyn rydyn ni'n ei wneud.

## Gweithio gyda'n gilydd i roi terfyn ar gamfanteisio yn yr Alban

Yn yr Alban, cawsom gyllid gan y llywodraeth, ochr yn ochr â'r Ganolfan Cyfiawnder Plant a Phobl Ifanc, i greu polisi a strategaeth genedlaethol i fynd i'r afael â chamfanteisio troseddol ar blant. Mae'n rhan o gadw addewid llywodraeth yr Alban bod plant sydd â phrofiad o ofal yn tyfu i fyny yn ddiogel, yn cael eu caru ac yn cael eu parchu. Mae'r gwaith hwn yn cefnogi'r rheini sydd â phrofiad o ofal ac sydd hefyd wedi profi camfanteisio troseddol.

I gyflawni hyn, fe wnaethom greu fframwaith cynhwysfawr sy'n tynnu sylw at sut gall sefydliadau weithio gyda'i gilydd i atal plant sy'n wynebu camfanteisio rhag cael eu trin fel troseddwyr. Fe ddefnyddion ni straeon bywyd go iawn sy'n dangos taith plentyn tuag at gamfanteisio i ddangos sut gall asiantaethau a gwasanaethau fanteisio i'r eithaf ar bolisïau, deddfwriaeth ac arferion cyfredol. Rydyn ni wedi datblygu hyfforddiant i gefnogi'r lansiad, gan gynnwys mynediad ar-lein.

Mae ein fframwaith yn cael ei dreialu mewn nifer o awdurdodau lleol yn yr Alban cyn ei gyflwyno'n ehangach ar ôl ei werthuso.



## Ein Gwaith yng Nghymru

Y llynedd, fe wnaethom barhau i roi cefnogaeth ddwys i blant a theuluoedd y mae camfanteisio troseddol wedi effeithio arnynt drwy ein Gwasanaeth Ymyriadau Camfanteisio Troseddol yn Sir y Fflint, Cymru. Fe wnaethon ni weithio gyda Heddlu Gogledd Cymru a phartneriaid eraill i helpu llawer o blant a phobl ifanc y camfanteisir arnynt yn droseddol, neu sydd mewn perygl o hynny, i leihau eu risg o niwed.

Fe wnaethom hefyd gyfrannu at ymchwiliad Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg Senedd Cymru a'i adroddiad *Plant ar y Cyrion*, a oedd yn edrych ar blant y camfanteisir arnynt yn droseddol sy'n mynd ar goll. Ar gyfer yr adroddiad hwn, defnyddiodd ein gwasanaethau yng Nghaerdydd a Sir y Fflint brofiadau bywyd gan fentoriaid a'r bobl ifanc rydyn ni'n eu cefnogi.

Gwnaethom groesawu canfyddiadau'r adroddiad, sy'n adleisio argymhellion o'n hymchwil ddiweddaraf mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd. Nod yr ymchwil oedd canfod a yw'r ddeddfwriaeth a'r canllawiau ymarfer presennol yn ddigonol ac yn briodol ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc y camfanteisir arnynt yn droseddol.

# Darparu gofal plant o safon

**Rydym yn darparu gofal plant arobryn o enedigaeth hyd at 14 oed drwy ein Meithrinfeydd yn Lloegr a'r Alban. Yn 2024/25 fe wnaethom roi gofal cariadus i 3,549 o blant drwy'r gwasanaethau hyn.**

Rydyn ni'n gweld cynnydd yn anghenion plant sy'n mynychu'r meithrinfeydd, oherwydd bod gwasanaethau fel cymorth cynnar ac ymweliadau iechyd yn cael eu cwtogi eu tocio. Ac mae traean o'r plant dwy oed yn ein meithrinfeydd yn cael gofal plant am ddim. Rydyn ni wedi ymateb i'r angen hwnnw ac wedi darparu cymorth cyffredinol i deuluoedd rydyn ni'n gwybod sy'n gwella'n sylweddol fywydau ein plant mwyaf difreintiedig. Rydym hefyd yn darparu clybiau Spring Oscars y tu allan i oriau ysgol. Pedwar yn Lloegr a 10 yn yr Alban.

## Cefnogi plant dan ddwy oed

Mae gofal plant am ddim a ariennir gan y llywodraeth yn golygu ein bod yn gofalu am fwy o blant dan ddwy oed yn ein meithrinfeydd. Er mwyn darparu'r gofal gorau, rydyn ni wedi lansio rhaglenni fel 'Building Babies' Brains'. Mae'n gynllun i gefnogi datblygiad ymennydd plant iau ar yr un pryd â lleihau effaith straen.

## Hyfforddiant o safon

Y llynedd, fe wnaethom ganolbwyntio ar ddod â'n staff at ei gilydd drwy ddiwrnodau hyfforddi wyneb yn wyneb lle'r oedd arbenigwyr yn darparu hyfforddiant wedi'i deilwra ar ddatblygiad yr ymennydd a chwarae â deunyddiau rhydd - lle mae plant yn defnyddio deunyddiau fel tywod, cerrig a dail i ymgysylltu â chwarae.



## Gwaith arobryn

Mae gennym dîm talentog sy'n parhau i ennill cydnabyddiaeth am eu gwaith. Yn ystod y flwyddyn, roeddem yn falch o weld Brad Gray o Spring Carousel ar restr fer gwobrau Ymarferydd y Flwyddyn Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd.

Yn y cyfamser, enwyd Spring Leam Lane ymysg y 20 o Feithrinfeydd Gorau yng Ngogledd Ddwyrain Lloegr[1] ar Daynurseries.co.uk. Hefyd, ym mis Mehefin 2024, siaradodd ein rheolwr ansawdd, Emma Gardner, am gefnogi plant ag anghenion addysgol arbennig yng Nghynhadledd Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd.

## Llais i blant a theuluoedd

Y llynedd, fe wnaethom barhau i ddatblygu perthynas â chylchgronau'r sector fel Early Years Educator a Nursery World gan gyhoeddi erthyglau ar ddarpariaeth ein Hysgol Goedwig ac ansicrwydd bwyd.

Ac fe wnaethom gefnogi'r Adran Addysg, gan rannu gwybodaeth am hawl i gyllid blynyddoedd cynnar a'r effaith ar deuluoedd a phlant. Gwnaethom hefyd barhau â'n gwaith gwerthfawr fel aelod o grŵp Cynghori Anghenion Addysgol Arbennig ac Anabledd (AAAA) yr Adran Addysg a Sgiliau.

1. Daynurseries.co.uk https://www.daynurseries.co.uk/awards/

# Plant mewn gofal

**Bob 15 munud mae plentyn yn mynd i ofal yn y DU. O'r eiliad honno, mae eu byd cyfan yn cael ei droi ben i waered. Yn aml, maen nhw eisoes wedi wynebu heriau enfawr yn eu bywydau ifanc. A nawr eu bod mewn gofal, mae'r byd yn eu gweld yn wahanol. Ond dydyn ni ddim.**

Rydyn ni yno pryd bynnag y bydd ein hangen ni ar blentyn. Mae ein cartrefi bach teuluol i blant yn cynnig sefydlogrwydd, diogelwch a chariad i blant a phobl ifanc. Mae ein gofalwyr maeth cefnogol, cynnes a chyfeillgar yn helpu plant i deimlo'n gartrefol. A lle bynnag y bo modd, rydyn ni'n gweithio ochr yn ochr â rhieni, aelodau o'r teulu, ysgolion a darparwyr gofal cymdeithasol hefyd - gyda'r plentyn neu'r person ifanc wrth galon popeth rydym yn ei wneud.

Rydym yn cefnogi bron i 35,000 o blant a phobl ifanc yn y system ofal, neu gyda phrofiad ohoni, ar draws ein holl waith. Rydyn ni'n deall yr heriau maen nhw'n eu hwynebu a'r cariad sydd ei angen i wella pethau.

Y llynedd, gwnaethom barhau â'n blaenoriaeth strategol o agor mwy o gartrefi i blant sydd eu hangen. Fe wnaethom hefyd ailddylunio ein fframwaith gofal i wneud yn siŵr ein bod yn darparu gofal cyson, fel y sicrheir bod pob plentyn yn derbyn yr ansawdd uchaf. Hefyd, dechreuon ni greu system fwy canolog i helpu i reoli deiliadaeth yn ein cartrefi. Bydd hyn yn helpu i sicrhau ein bod yn darparu gofal rhagorol sy'n cael ei gydnabod yn briodol drwy arolygiadau ar yr un pryd â darparu gwerth da am arian i awdurdodau lleol. Rydyn ni hefyd yn ymateb i gyfleoedd comisiynu newydd i ddatblygu partneriaethau newydd gydag awdurdodau lleol i ddarparu cartrefi.

## Agor mwy o gartrefi cariadus

Fel y dywedasom y llynedd, rydym yn buddsoddi yn nhwf cartrefi sy'n eiddo i Gweithredu dros Blant ar gyfer plant mewn gofal - dyma ein rhaglen twf preswyl. Pan ddechreuon ni ein rhaglen, fe wnaethom ymrwymo i agor 14 o gartrefi newydd sy'n eiddo i ni ac sy'n cael eu rhedeg gennym ni - yn hytrach na'u rhedeg ar ran awdurdodau lleol.

Mae'r rhaglen hon yn parhau i fod wrth galon ein strategaeth twf ac rydym yn falch o'r cynnydd rydym yn ei wneud. Y llynedd, agorwyd cartref newydd sbon gennym yng ngogledd ddwyrain Lloegr, gan ddod â chyfanswm y cartrefi plant a agorwyd ers dechrau'r rhaglen i bump. Hefyd, mae gennym bedwar arall yn barod i fynd, sy'n aros i gael eu cofrestru gan yr arolygiaeth: dau yn Swydd Derby, un yn Telford ac un yng Nghymru. Byddant yn agor yn swyddogol yn 2025, ynghyd â dau arall.

Rydym wedi wynebu heriau drwy gydol y flwyddyn - o ganlyniad i gynnydd mewn costau ac oedi yn y farchnad adeiladu, a'r costau ariannol cudd sy'n gysylltiedig ag agor cartrefi preswyl. Gall y rhain gynnwys recriwtio a hyfforddi'r staff sydd eu hangen, yn gynnar, cyn i unrhyw blant neu bobl ifanc gyrraedd y cartref, oedi o ran nifer y plant sy'n cael eu lleoli yn y cartrefi ar unrhyw adeg benodol i gefnogi paru llwyddiannus a lleoliadau hirdymor sefydlog, a chofrestru rheoleiddiol yn cymryd mwy o amser na'r disgwyl. Er mwyn helpu i liniaru'r heriau hyn yr ydym yn addasu'n barhaus wrth inni ehangu ein rhaglen ac yn parhau'n gwbl ymrwymedig gyda chynllun i agor pedwar cartref arall yn 2026/27 gan godi ein cyfanswm ar gyfer y rhaglen i 15 (un yn fwy na'r hyn a gynlluniwyd yn wreiddiol).

Yn ogystal â chyfanswm y plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd rydyn ni'n eu cefnogi bob blwyddyn, gallwn fesur yr oriau o gefnogaeth rydyn ni'n eu rhoi hefyd. Mae hyn yn helpu i ddangos yr effaith rydyn ni'n ei chael yn ein gwasanaethau sy'n cynnig gofal un-i-un mwy dwys, yn ogystal â gwasanaethau mwy gyda chyrhaeddiad ehangach. Gallwch weld yr oriau o gefnogaeth a roddwyd eleni yn ein cartrefi plant ar dudalen 17.

## Creu cartrefi sefydlog o ansawdd uchel i blant

Mae plant sy'n byw'n ddiogel mewn cartref parhaol, heb darfu oherwydd symudiadau, yn un o'r dangosyddion pwysicaf o ganlyniadau gwell i blant mewn gofal. Mae ymchwil yn dweud wrthym fod plant sy'n cael cartref sefydlog a gofal cariadus yn fwy tebygol o wneud yn dda yn yr ysgol, parhau mewn addysg, bod mewn gwaith a theimlo'n fwy cadarnhaol amdanynt eu hunain.

Ac mae'r amser cyfartalog y mae plant a phobl ifanc yn byw gyda ni hefyd yn cynyddu wrth i ni ganolbwyntio ar ansawdd ein cartrefi a'r perthnasoedd ynddynt. Ochr yn ochr â'n hymchwil bresennol am ein cartrefi, rydym yn treialu dull o asesu eu hansawdd gan ddefnyddio technegau creadigol gyda phlant a phobl ifanc. Mae hyn yn cynnwys creu collage, blychau stori a cherddoriaeth. Mae'r technegau hyn yn annog plant a phobl ifanc i rannu eu barn am eu hamgylchedd ffisegol, eu hemosiynau a'u perthnasoedd a sut mae'r rhain yn effeithio arnynt. Mae hyn yn rhoi golwg arall i ni ar ansawdd ein cartrefi a sut y gallwn eu gwneud y gorau y gallant fod i blant.




**Roedd 91% o blant a phobl ifanc yn ein gofal wedi cael gwell sefydlogrwydd yn eu bywydau gartref.**

## Sicrhau effaith drwy ein cartrefi cariadus

Rydym bellach yn rhedeg 32 o gartrefi i blant a phobl ifanc (16 cartref i blant mewn gofal, ac 16 cartref arhosiad hir i blant a phobl ifanc anabl), gyda chyfanswm o 107 o ystafelloedd. Cefnogodd 548 o staff cartrefi plant 122 o blant a phobl ifanc yn ystod y flwyddyn - gan ddarparu cyfanswm o 841,000 awr o gefnogaeth i wneud yn siŵr bod plant yn ddiogel ac yn cael eu caru.

*Mae'r niferoedd hyn yn seiliedig ar gyfartaleddau drwy gydol y flwyddyn. Y rheswm am hynny yw bod rhai pobl ifanc wedi symud ymlaen i fyw'n annibynnol â chymorth yn ystod y flwyddyn, a symudodd eraill i gartrefi i ddiwallu eu hanghenion penodol.*



## Gwella ein model gofal

Y llynedd, fe wnaethom adolygu'r model gofal presennol yn ein cartrefi a datblygu model wedi'i ddiweddaru a fydd yn cael ei ddefnyddio i ddarparu gofal cyson ar draws ein holl gartrefi yn y dyfodol. Cafodd y model ei hysbysu gan ymchwil gyda Phrifysgol Birmingham a oedd yn edrych ar yr hyn sy'n bwysig i'r plant sy'n byw yn ein cartrefi. *A Place Called Home (Home from Home)*, yw'r fframwaith ar gyfer sut rydym yn darparu gofal, o gartrefi tymor hir, cartrefi am byth a chartrefi i blant anabl i gartrefi gwyliau byr. Dyma sut rydyn ni'n monitro ansawdd drwy wrando ar brofiadau plant a phobl ifanc o fyw gyda ni. Mae hefyd yn ystyried sut rydym yn cefnogi plant y camfanteisir arnynt yn droseddol.

### Codi lleisiau plant

Er mwyn teimlo'n wirioneddol gartrefol, mae angen i'r bobl ifanc rydyn ni'n gofalu amdanyn nhw gael dweud eu dweud am y lle maen nhw'n byw ynddo.

Felly, yng Nghartrefi Moray Gweithredu dros Blant yn yr Alban, fe wnaethon ni eu helpu i wneud hynny.

Fe wnaethom gefnogi ein pobl ifanc i fynychu grwpiau ffocws comisiynwyr i siarad am yr hyn a oedd yn bwysig iddyn nhw. Roedd hyn yn cynnwys popeth o fod yn rhydd i addurno eu gofod eu hunain i gymryd rhan mewn gweithgareddau grŵp.

Cafodd eu safbwyntiau eu cynnwys ym manyleb newydd eu cartrefi, gan sicrhau bod lleisiau pobl ifanc yn dylanwadu'n uniongyrchol ar yr hyn sy'n cael ei gomisiynu.

Nothing about me, without me

## Dweud ffarwel wrth ein gwasanaethau mabwysiadu

Yn anffodus, ar ôl meddwl yn hir ac yn ofalus, gwnaethom y penderfyniad anodd i ddirwyn ein gwasanaethau mabwysiadu i ben yn Lloegr a redwyd gennym am bron i ganrif.

Rydyn ni'n falch bod ein gwasanaeth wedi helpu i ddarparu plentyndod hapus a diogel i filoedd o blant. Fodd bynnag, dros y 10 mlynedd diwethaf bu newidiadau enfawr i'r ffordd y mae mabwysiadu'n gweithio'n genedlaethol, sydd wedi effeithio ar asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol fel ein rhai ni. O ganlyniad, roedd ein model yn dod yn anghynaladwy.

Gwelsom hefyd fod angen mabwysiadu llai o blant, yn rhannol oherwydd y pwyslais ar gefnogaeth gan deulu estynedig drwy ofal gan berthynas.

Roeddem yn gwbl benderfynol o roi teuluoedd yn gyntaf wrth i'r gwasanaeth ddirwyn i ben. Hyd at ddiwedd 2024, buom yn gweithio gyda theuluoedd fesul achos i'w helpu i symud i gam nesaf eu taith fabwysiadu. Roedd hyn yn cynnwys archwilio eu sefyllfa, trosglwyddo i ddarparwr dibynadwy a chyfrifol neu gwblhau'r broses fabwysiadu gyfreithiol.

Fe wnaethom ddilyn yr holl brosesau llywodraethu a phrosesau statudol swyddogol cyn dadgofrestru'r gwasanaeth ym mis Medi 2024. Hoffem ddiolch yn fawr iawn i'r holl staff dan sylw. Hoffem hefyd gydnabod ymrwymiad a gwaith y cannoedd o staff dros y blynyddoedd a gysylltodd deuluoedd newydd.

Mae gennym tua 1,500 o gofnodion mabwysiadu sy'n dyddio'n ôl i'r adeg pan ddechreuon ni wasanaeth mabwysiadu am y tro cyntaf ym 1926. Mae pob un yn adrodd stori ynghylch sut y gwnaethom helpu plentyn i ddod o hyd i gartref cariadus.


Ond nid dyma ddiwedd y stori honno. Byddwn bob amser yn cefnogi plant sydd wedi cael eu mabwysiadu yn ein gwaith ehangach - ac yn helpu pobl i ddod o hyd i'w cofnodion mabwysiadu ar-lein.

### Helpu plant i ddod o hyd i gartrefi maeth cariadus

Er i ni ganfod bod llai o blant angen cael eu mabwysiadu, rydyn ni wedi gweld cynnydd mawr yn nifer y plant sydd angen cartrefi maeth cariadus. Eto i gyd, mae llai o bobl yn dod yn ofalwyr maeth i ddiwallu'r angen cynyddol. Felly byddwn yn parhau i ddarparu gwasanaethau gofal maeth, gan baru plant â theuluoedd ym mhedair gwlad y DU. Yn ystod y flwyddyn nesaf, byddwn yn canolbwyntio mwy fyth ar recriwtio gofalwyr maeth ac yn gwneud popeth o fewn ein gallu i ddod o hyd i gartrefi diogel i'r nifer cynyddol o blant sydd eu hangen.

## Big Welcome i blant yng Nghymru

Mae pob un o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru nawr yn defnyddio Big Welcome, sef ein ap sydd wedi'i ddylunio i helpu plant a phobl ifanc symud i'w cartref maeth.




Gydag ambell i sweip, mae plant yn cael cyfle i 'gwrdd' â'u gofalwyr maeth a gweld y cartref maen nhw'n symud iddo, sy'n hanfodol gan fod plant wedi dweud wrthym nad ydyn nhw'n cael digon o wybodaeth am eu cartref maeth. Mae Big Welcome yn llenwi'r bylchau drwy fformat calonogol sy'n addas i blant ar adeg enfawr yn eu bywydau.

Mae'r ap eisoes yn cael ei ddefnyddio'n llwyddiannus gan ein gwasanaethau maethu i helpu plant deimlo'n gartrefol. A thrwy ein partneriaeth â Maethu Cymru, mae ganddo'r potensial i gefnogi bron i 5,000 o blant a phobl ifanc mewn gofal maeth yng Nghymru bob blwyddyn.

## Stori Christopher

**“Mae Gweithredu dros Blant fel teulu.”**

Pan wnaethon ni gwrdd â Christopher, roedd eisoes wedi treulio pum mlynedd mewn gofal ar ôl bywyd heriol gartref.

Yr oedd yn 16 oed pan symudodd i Gartref Plant ISSC yn Swydd Ayr. Mae'r Rheolwr Preswyl Carrie Baird yn cofio ei ddyddiau cyntaf yn dda iawn.

“Roedd ofn arno a doedd e ddim yn gwybod sut i ymdopi â'r cyfan. Roedd yn ansefydlogrwydd arall yn ei fywyd,” meddai.

Mae Christopher yn cofio'n union y teimlad o fod ar goll pan ddaeth drwy ein drysau.

*“Y diwrnod y cyrhaeddais roeddwn i’n teimlo mor ofnus a doeddwn i wir ddim yn gwybod pwy i ymddiried ynddyn nhw,”* meddai.

*“Roeddwn i'n teimlo ar goll a doeddwn i ddim yn gwybod beth i'w wneud â mi fy hun.”*

### Cynnig gofal cariadus

Mae ein staff yn cael hyfforddiant arbenigol ar effeithiau trawma a sut i gefnogi pobl ifanc sydd wedi wynebu llawer o heriau yn eu bywydau.

Roedd y staff yn cefnogi Christopher yn emosiynol, gan ganiatáu iddo siarad yn rhydd am ei deimladau pan oedd yn dymuno, a rhoi ffyrdd iddo reoli ei bryder.

Fe wnaethom hefyd ei helpu i brynu dillad, dillad isaf, esgidiau a phethau ymolchi newydd a chefnogi Christopher drwy addysg bellach, gan ei helpu i lenwi ffurflenni cais a gwneud cais am fwrsariaeth. Aeth ymlaen i gwblhau cymhwyster Cyflogadwyedd Ymddiriedolaeth y Tywysog mewn Lletygarwch ac Arlwyo.

### Teimlo’n ddiogel a chynwysedig

*“Mae byw yma yn Gweithredu dros Blant yn sicr wedi fy newid i,”* meddai Christopher heddiw.

*“Mae wedi gwneud i mi dyfu fel person.”*

*“Roeddwn i'n arfer teimlo ar fy mhen fy hun. Nawr rwy'n teimlo fy mod i'n cael fy nghynnwys. Rwy'n teimlo'n ddiogel. Rwy'n teimlo'n hapus. Mae'n lle gwych i fod.”*

*“Mae hwn fel cartref i mi ac mae staff Gweithredu dros Blant fel teulu.”*

*“Pan fydda i'n edrych yn ôl ar y person yr oeddwn i pan ddes i yma am y tro cyntaf, doeddwn i ddim yn hyderus ynghylch gwneud unrhyw beth. Fyddwn i ddim hyd yn oed yn cerdded i Tesco. Nawr rwy'n edrych yn ôl ac yn meddwl 'Ai fi oedd y person yna mewn gwirionedd?' Mae fy iechyd meddwl wedi gwella'n aruthrol ers dod yma.”*

Ac yntau bellach yn 18 oed, mae Christopher yn gweithio mewn becws lleol, ac mae wrth ei fodd yn gwneud hynny. Nesaf, mae'n bwriadu ein gadael i fyw'n annibynnol.

*“Pan fyddaf yn gadael gofal ymhen ychydig, mae'n siŵr y bydda i'n teimlo'n eithaf nerfus, er fy mod i'n eithaf agored fy meddwl i ddechrau pethau newydd, dysgu pethau newydd ac, yn amlwg, symud ymlaen gyda fy mywyd,”* meddai.

*“Pan fydda i'n symud yn ôl i Ogledd Iwerddon, hoffwn fynd i'r coleg eto, efallai cael prentisiaeth i fod yn yrrwr trên. Rwy'n meddwl y byddwn i'n hoffi hynny.”*



# Iechyd meddwl a lles

**Rydyn ni'n gwybod bod dysgu sut mae wynebu heriau bywyd yn gallu helpu i feithrin oes o wytnwch emosiynol. Dyna pam ein bod yn gweithio'n uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc, mewn ysgolion a thrwy raglenni ledled y DU, i'w helpu i siarad am sut maen nhw'n teimlo, i wybod pan fydd angen cymorth arnyn nhw, ac i wybod nad ydyn nhw ar eu pen eu hunain.**

Gan gydnabod pa mor gyffredin yw problemau iechyd meddwl erbyn hyn, rydym hefyd yn sicrhau bod cymorth iechyd meddwl yn rhan annatod o'n holl wasanaethau. Er enghraifft, mae ein gwasanaethau Cymorth i Deuluoedd yn defnyddio model 'Dull Gweithredu Solihull' i wella iechyd meddwl rhieni a phlant. Mae ein cartrefi i blant yn darparu gofal sy'n ystyriol o drawma ar gyfer gwella'n emosiynol. Ac mae ein gwasanaeth Parent Talk yn helpu teuluoedd i fynd i'r afael â heriau iechyd meddwl.

Roedd y llynedd yn flwyddyn heriol i'n gwasanaeth iechyd meddwl penodol, gyda rhai gwasanaethau allweddol yn cael eu colli, gan gynnwys yn Swydd Stafford a Glasgow. Fodd bynnag, fe wnaethom lwyddo i ail-dendro am wasanaethau yn Lloegr a'r Alban ac fe wnaethom barhau i ddarparu ein rhaglen Blues, sy'n cael ei chanmol yn rhyngwladol, ar draws holl wledydd y DU.

## Ymestyn ein gwasanaethau

Y llynedd, roeddem yn falch o ennill estyniadau i rai o'n gwasanaethau iechyd meddwl, fel ein Gwasanaeth Lles i Ysgolion Invercylde sy'n cefnogi plant yn y rhanbarth hon yn yr Alban sydd â phroblemau iechyd meddwl ysgafn i gymedrol. Fe'i lansiwyd yn wreiddiol yn 2020 yn ystod pandemig Covid-19, a bydd nawr yn rhedeg tan fis Gorffennaf 2027 i gyrraedd hyd yn oed mwy o blant a phobl ifanc yn yr ardal.

Ym Manceinion, cafodd ein Gwasanaeth Therapi Aml-systemig ei ail-gomisiynu am 24 mis arall, gan weithio'n ddwys gyda phlant a theuluoedd i atal perthnasoedd rhag chwalu. Yn y cyfamser, yn Swydd Gaerwrangon, enillodd ein gwasanaeth Blues Act On It gyllid am ddwy flynedd arall tan fis Mawrth 2027.

## Mynd i'r afael â'r felan

Rhaglen llesiant sy'n seiliedig ar dystiolaeth ar gyfer pobl ifanc 13-19 oed yw'r Rhaglen Blues. Mae data o'r rhaglen yn dangos yn gyson yr effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc. Mae'n rhedeg am chwe wythnos ac yn eu helpu i ddysgu gwydnwch emosiynol a sut i leihau hwyliau isel a meddyliau pryderus. Mae wedi cael ei phrofi ym mhob cwr o'r byd a phrofwyd ei bod yn gwneud gwahaniaeth cadarnhaol, ond peidiwch â dibynnu ar ein gair ni - edrychwch ar yr hyn a ddywedodd ein pobl ifanc:

***"Mae'n hwyl ac yn ddefnyddiol iawn, ac ers i mi ddechrau ar Blues rydw i wedi teimlo'n well amdanaf fy hun ac rydw i wedi dod yn fwy cymdeithasol."***

***"Fe wnaeth fy helpu i ymdopi â fy nheimladau ac roedd bob amser yn lle diogel."***



**Mae 83%**
**o bobl ifanc sy'n defnyddio The Blues nawr yn gallu siarad am eu hiechyd meddwl a'u lles.**



**Rhaglen o gariad**

Yn ddiweddar, roedd gennym berson ifanc ar Raglen Blues Gogledd Cymru nad oedd yn siarad ac a oedd yn cyfathrebu drwy deipio ar ei ffôn. Roedden ni wrth ein bodd pan roddodd y gerdd hon i ni.

**The Feedback Poem**

*In a world of wonder, where youthful minds roam free,*
*A programme born of love, go help them be,*
*With risks of anxiety,*
*The programme as a helping hand, a guiding light,*
*With lessons learned and wisdom shared,*
*They'll face life's challenges, wisdom shared,*
*Their mental health, a garden well-tended,*
*A future bright, their hearts well defended.*

Dywedodd Shan, Cydlynydd Gwasanaeth ar gyfer ein Rhaglen Blues yng Ngogledd Cymru:

***"Rwy'n teimlo ei fod yn dangos faint roedd y rhaglen yn ei olygu iddo. Fe wnaeth ein hysgwyd yn fawr, ac roedd yn wych gweld pa mor falch ydoedd pan rannodd y gerdd. Dyna pam rwy'n teimlo mor falch o ddarparu Rhaglen Blues".***



## Helpu plant i fownsio'n ôl

Mae ein Rhaglen Bouncing Back wedi'i chynllunio i gael plant rhwng saith ac 11 oed i siarad am sut maen nhw'n teimlo. Mae'n rhoi cyflwyniad iddyn nhw i'w hiechyd meddwl a'u lles, a strategaethau ymdopi i'w defnyddio pan fydd eu hangen fwyaf arnyn nhw. Mae hefyd yn eu helpu i nodi pryd mae angen help arnynt a phwy i ofyn iddynt. A'r llynedd, helpodd dros 4,000 o blant a phobl ifanc.

Yr hyn a ddywedodd y plant:

***"Ro'n i wrth fy modd yn Bouncing Back, diolch am wneud i mi deimlo'n fwy hyderus."***

***"Mae Bouncing Back wedi fy helpu oherwydd fy mod i'n teimlo fy mod i'n gallu delio â sefyllfaoedd yn well."***

**Mae 4,276 o bobl ifanc wedi cwblhau Rhaglen Bouncing Back eleni.**

**Mae 87% o'r bobl ifanc a gymerodd ran yn Bouncing Back wedi dweud eu bod yn teimlo'n fwy hyderus.**

# Plant a phobl ifanc anabl

**Dylai plentyn anabl gael yr un cyfleoedd ag unrhyw blentyn arall. Ac ni ddylai anabledd atal plentyn rhag gwireddu ei obeithion a'i freuddwydion.**

**Y tu allan i awdurdodau lleol, Gweithredu dros Blant yw un o ddarparwyr gwasanaethau gwyliau byr nid-er-elw mwyaf Lloegr ar gyfer plant a phobl ifanc anabl.** Rydyn ni'n gwybod sut mae cefnogi plant, beth bynnag fo'u hanghenion, eu hanabledd neu eu niwrowahaniaeth. Rydyn ni'n darparu gwasanaethau gwyliau byr, er mwyn i blant gael annibyniaeth a'r cyfle i wneud ffrindiau mewn amgylchedd cwbl hygyrch gyda chymorth (a gall eu teuluoedd gael amser ar gyfer eu cyfrifoldebau eraill hefyd).

Rydym hefyd yn rhoi cartref oddi-cartref cariadus i blant anabl sydd angen gofal preswyl. Ac rydym yn darparu addysg ragorol mewn amgylchedd ysgogol, cynhyrchiol a blaengar gyda'n hysgol ar gyfer plant ag anghenion ychwanegol.



Mae **88%**

**o blant sy'n defnyddio ein gwasanaethau'n gallu cymryd rhan yn well mewn gweithgareddau cyfoethogi, na fyddent ar gael iddynt fel arall.**



## Datblygu ein gwasanaethau

Yn ogystal â'r cartrefi rydym yn berchen arnynt ac wedi'u hagor fel rhan o'n rhaglen twf preswyl (gweler tudalen 17), rydym hefyd wedi ennill contractau i redeg cartrefi plant a gwasanaethau gwyliau byr i blant anabl ar y cyd ag awdurdodau lleol.

Y llynedd, dyfarnwyd dau gontract i ni redeg cartrefi tymor hir ar gyfer plant ag anableddau ym Midlothian, yr Alban ac yn Swydd Northampton, Lloegr. Ac fe wnaethom ennill contract am leoliad unigol yn Peterborough, lle mae person ifanc anabl yn cael cymorth un-i-un dwys mewn cartref preswyl. Fe wnaethom hefyd ennill tri chontract ar gyfer gwasanaethau gwyliau byr preswyl, dau yn Swydd Rydychen ac un yn Swydd Northampton.

Ein gwasanaethau i blant anabl yw un o brif gryfderau Gweithredu dros Blant. Mae maint ac enw da ein gwaith yn ein helpu i dyfu ein gwasanaethau ledled y DU.

## Adroddiad eithriadol

Roeddem wrth ein bodd pan enillodd Maybrook, ein cartref unigol cyntaf yn Lloegr (a agorwyd y llynedd), ddyfarniad Eithriadol ym mhob maes gan Ofsted.

Roedd yr arolygiad yn tynnu sylw at y gofal personol a meithringar a gafodd un o'n plant a sut maen nhw'n cael eu cefnogi i fyw bywyd hapus, llawn a bodlon. Disgrifiodd eu perthynas gynnes a llawn ymddiriedaeth gyda staff, sy'n adnabod y plentyn yn eithriadol o dda, gan egluro: “mae byd y person ifanc hwn wedi cael ei ddatgloi.”

## Dathlu cerrig milltir



Y llynedd, fe wnaeth dau wasanaeth gwyliau byr allweddol yn Renfrewshire a Lisalanna ddathlu 25 mlynedd. Roedd staff yn Lisalanna wedi cynnal diwrnod agored gan groesawu'r profost a’r ASA lleol. Dyfarnwyd tystysgrifau i staff profiadol a chlywyd sut mae'r gwasanaeth wedi cefnogi teuluoedd am chwarter canrif.

Yn y cyfamser, dathlodd staff yn Renfrewshire gyda'u dirprwy brofost lleol yn gwahodd staff, partneriaid, plant a theuluoedd i barti disgo prynhawn llawn hwyl.

## Dathlu llwyddiannau yn Headlands

Rydyn ni hefyd yn falch mai Ysgol Headlands yw'r ysgol breswyl gyntaf yn y DU i gael ei hachredu mewn Ymarfer Datblygiadol Dyadig (DPP). Mae DDP yn ddull triniaeth seicotherapiwtig a ddyluniwyd i helpu teuluoedd â phlant sy'n cael trafferth gyda phroblemau emosiynol. Mae ein Hysgol Headlands unigryw yng Nghymru yn ysgol annibynnol sy'n cefnogi plant a phobl ifanc sydd ag anawsterau emosiynol, ymddygiadol a chymdeithasol, ymddygiad heriol ac Anhwylderau ar y Sbectrwm Awtistig.



Ym mis Gorffennaf 2024, cafodd myfyrwyr ym Mlwyddyn 11, Hamish a Matthew, eu hanrhydeddu am eu gweithredoedd caredig yn helpu Peggy, menyw oedrannus a oedd wedi cwympo, a'i harwain i le diogel. Cyflwynodd y Maer Gwenda Roberts dystysgrifau cydnabyddiaeth iddynt. Daeth Peggy, sydd bellach mewn cadair olwyn, i'r seremoni i ddangos ei diolchgarwch. Roedd gŵr Peggy, Mike, a'u cynorthwyydd addysgol, Jen Morrish, yn canmol y bechgyn am eu caredigrwydd a'u dewrder.




Ymhellach i ffwrdd, mae myfyrwyr Headlands hefyd yn helpu i wthio am newid ar gyfer plant sydd wedi'u mabwysiadu a phlant sydd â phrofiad o ofal. Ym mis Ionawr 2025, bu i fyfyriwr o Headlands, Mackenzie, gynrychioli Gweithredu dros Blant a'u hysgol yn y Senedd fel rhan o'r Senedd Ieuenctid yn ystod cyfarfod cyntaf yr aelodau. Yn y digwyddiad, fe wnaethant ymuno ag eraill i siarad am gyfryngau cymdeithasol a diogelu, cyn cael eu tywys o amgylch yr adeilad. Maen nhw'n paratoi araith fer ar gymorth mabwysiadu i ennill calonnau a meddyliau yn y digwyddiad nesaf.

Nothing about me, without me

## Diogelu

**Mae pob plentyn yn haeddu plentyndod hapus a diogel. Dyna pam rydyn ni'n rhoi blaenoriaeth i ddiogelu plant, teuluoedd a staff ar draws y gwasanaethau o ansawdd uchel rydyn ni'n eu darparu.**

Mae gennym dri phrif reolwr diogelu, arbenigwr blynyddoedd cynnar, penderfynwr mewn asiantaeth (sy'n sicrhau cefnogaeth o ansawdd uchel i blant mewn gofal maeth) a thîm iechyd a diogelwch pwrpasol.

Mae ein staff yn defnyddio llwyfan digidol i rannu pryderon, adolygiadau dysgu ar ôl digwyddiadau tyngedfennol, adroddiadau o ymweliadau dirybudd, a phrosiectau diogelu - fel gwella ymgysylltiad â'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd.

Mae angen i ni gadw plant yn ddiogel. Felly, bob blwyddyn rydyn ni'n cynnal adolygiad diogelu blynyddol cynhwysfawr, gan ymweld â'n gwasanaethau i ofyn beth sy'n gweithio'n dda a beth sydd ddim. Mae'r adborth hwn yn siapio ein cynllun gwaith diogelu ac ansawdd blynyddol. Mae ein swyddog data a gwybodaeth pwrpasol yn gwneud yn siŵr ein bod yn casglu ac yn cyflwyno data ar ddangosyddion diogelu ac ansawdd allweddol, sy'n ein galluogi i fabwysiadu dull ataliol o ymdrin ag ymarfer diogel.

Ar gyfer 2024/25, roedd 95% o ffeiliau achos yn cynnwys tystiolaeth o oruchwylio neu reoli ymarfer. goruchwylio ymarfer. Mae hwn yn ddangosydd ansawdd pwysig i ni. Gallwn weld bod ein staff rheng flaen yn cael eu cefnogi gan eu rheolwyr llinell, a bod ein gwaith yn cyrraedd safon gyson uchel. Mewn 94% o'r ffeiliau achos hynny, gwelsom dystiolaeth hefyd o farn plant a phobl ifanc.

Rydyn ni'n falch iawn bod 95% o'n gwasanaethau sy'n cael eu rheoleiddio wedi cael gradd dda neu ragorol gan arolygiaeth, sy'n ddangosydd allanol o ansawdd uchel.



# Grymuso lleisiau plant

**Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydyn ni wedi cymryd camau breision i wreiddio ein strategaeth cyfranogiad Dim Amdanaf Hebof Fi - gan sicrhau bod pobl ifanc wrth galon popeth rydyn ni'n ei wneud.**

O greu gwasanaethau gyda'n gilydd i ddylanwadu ar benderfyniadau ar bob lefel, mae cyfranogiad pobl ifanc wedi dod yn nodwedd ddiffiniol o'n gwaith. Cadwch lygad am enghreifftiau drwy gydol yr adroddiad hwn i weld sut mae pobl ifanc yn dylanwadu ar bob agwedd ar ein gwaith.




**Georgia, person ifanc sy'n cefnogi ein gwaith, yn siarad yn lansiad ein hymgyrch Talu'r Pris.**

## Pwyso am newid

Er mwyn helpu ein pobl ifanc i bwyso am newid a rhannu eu profiadau, fe wnaethon ni helpu i roi sgiliau eiriolaeth effeithiol iddyn nhw. Drwy hyfforddiant siarad cyhoeddus gan Speakers Trust, mae ein Llysgenhadon Ifanc wedi magu hyder i rannu eu straeon mewn digwyddiadau mawr. Mae ein diwrnodau hyfforddiant ymgyrchu wedi eu helpu i ddatblygu'r adnoddau i sbarduno newid, gan sicrhau bod ganddynt yr wybodaeth a'r hyder i ddweud eu dweud.

Cafodd eu sgiliau cynyddol eu harddangos yng Ngwobrau Stephenson - ein seremoni wobrwyo sy'n dathlu'r rheini sy'n gwneud gwahaniaeth i blant. Roedd dau Lysgennad Ifanc ar y panel beirniadu ar gyfer ein Gwobr Dewis Person Ifanc, gan hawlio'r llwyfan i'w chyflwyno.

Rhaid i ni wneud yn siŵr bod y ffordd rydym yn gweithio mor gynhwysol â phosibl. Felly, pan roedd un Llysgennad Ifanc ag anghenion addysgol arbennig wedi rhannu heriau ynghylch mynychu cyfarfodydd oherwydd rhwystrau hygyrchedd, fe wnaethom gyflwyno cynllun cymorth wedi'i deilwra.

Mae'r Llysgennad hwn bellach yn gweithio gyda ni i wella hygyrchedd i bobl ifanc eraill, gan wneud yn siŵr bod pawb yn gallu cymryd rhan lawn.

## Diolch, Llysgenhadon Ifanc

Fe wnaethom ddathlu dwy flynedd o'n rhaglen Llysgenhadon Ifanc ym mis Rhagfyr a myfyrio ar eu heffaith anhygoel mewn digwyddiad arbennig a fynychwyd gan ein Cyfarwyddwr Cenedlaethol yng Ngogledd Iwerddon, Lorna Ballard.

Allwn ni ddim gorbwysleisio effaith ein Llysgenhadon Ifanc - maen nhw wedi trawsnewid Gweithredu dros Blant. Mae eu taith yn ystod y flwyddyn ddiwethaf wedi dangos bod y canlyniadau'n bwerus pan fydd pobl ifanc yn cyfranogi go iawn.

***"Un sgil rydw i wedi'i dysgu yw bod yn fwy hyderus. Fe wnaeth y cyfle hwn fy ngwthio i wneud pethau nad oeddwn i erioed wedi meddwl y gallwn i, fel siarad o flaen grwpiau mawr a theithio i ddigwyddiadau'n annibynnol."***

– Chloe, Llysgennad Ifanc

Nothing about me, without me

# Dylanwadu ar bolisi
## i wella bywydau plant

**Gall newid polisi wella bywydau miliynau o blant. Dyna pam fod hyn yn rhan hanfodol o'n gwaith, ochr yn ochr â'r cymorth a'r gofal rydyn ni'n eu darparu drwy ein gwasanaethau.**

Rydyn ni'n canolbwyntio ar ble mae'r angen ar ei fwyaf, lle mae cyfle i newid a lle mae ein harbenigedd unigryw yn helpu i gynyddu ein heffaith ar deuluoedd.

Mae hynny'n golygu gweithio gyda'n gilydd i adeiladu tystiolaeth sy'n ysgogi'r newidiadau y mae angen i ni eu gweld. Rydym yn defnyddio data a gwybodaeth o'n gwasanaethau ac yn casglu lleisiau plant a phobl ifanc i siapio polisïau sy'n effeithio arnynt.

### Dylanwadu ar bobl mewn grym

Ar ôl cyhoeddi Etholiad Cyffredinol 2024, fe wnaethom ddechrau gweithredu i sicrhau bod newid i blant yn arwain agenda'r llywodraeth nesaf.

Trefnwyd bod ein cefnogwyr yn cysylltu ag ymgeiswyr lleol, gan ofyn iddynt hyrwyddo anghenion plant. Ymwelodd ymgeiswyr â gwasanaeth yn Swydd Stafford i weld sut rydyn ni'n cefnogi teuluoedd. Roeddem yn falch o weld bod maniffestos gan y Blaid Lafur, y Democratiaid Rhyddfrydol a'r Blaid Werdd yn adlewyrchu llawer o'n galwadau polisi - o helpu rhieni i gael gwaith, i fuddsoddi mewn ymyriadau cynnar i feithrin plentyndod mwy diogel a hapus.

Ers hynny, rydym wedi bod yn brysur yn meithrin perthynas â'r llywodraeth newydd - yn cwrdd ag ASau, gweinidogion ac ysgrifenyddion gwladol.

Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom barhau â'n hymgyrch Plant wrth y Bwrdd ar y cyd fel aelod o Glymblaid Elusennau Plant. Fe wnaethom gyflwyno deiseb gyda dros 28,000 o lofnodion i 10 Stryd Downing, wythnos yn unig ar ôl yr etholiad.

Cyflwynodd pum ymgyrchydd ifanc ddeiseb yn galw ar y Prif Weinidog newydd i fod yn eiriolwr dros blant, ac ar i'r llywodraeth Lafur greu strategaeth draws-lywodraethol i wella eu bywydau. Ac roeddem wrth ein bodd pan gyrhaeddodd yr ymgyrch y rhestr fer ar gyfer Ymgyrch y Flwyddyn Corff Masnach/Sector Gwirfoddol yng Ngwobrau Materion Cyhoeddus PRCA 2025.

Roeddem hefyd yn falch bod Araith y Brenin wedi cyhoeddi Bil Lles Plant i ddiwygio gofal cymdeithasol plant, sy'n ddeddf newydd i fynd i'r afael â chamfanteisio ar blant a strategaeth drawslywodraethol i fynd i'r afael â thlodi plant. Byddwn yn gweithio'n galed i ddylanwadu ar bob un ohonynt yn 2025/26.

Mae ein Llysgenhadon Ifanc wrth galon sbarduno newid ystyrlon, gan sicrhau bod lleisiau pobl ifanc nid yn unig yn cael eu clywed ond eu bod yn siapio polisïau ac ymgyrchoedd.

Un o'r uchafbwyntiau mwyaf arwyddocaol oedd yr ymgyrch Plant wrth y Bwrdd, lle bu Llysgenhadon Ifanc yn brwydro i sicrhau bod gan bobl ifanc sedd barhaol mewn mannau gwneud penderfyniadau. Arweiniodd eu heiriolaeth at fynychu Cynadleddau'r Blaid Lafur a'r Blaid Geidwadol, lle bu iddynt ymuno â chynrychiolwyr o bum elusen flaenllaw i alw am i leisiau ifanc gael eu cydnabod wrth lunio polisïau. Fel rhan o'r ymgyrch hon, mynychodd Miracle, Llysgennad Ifanc, y Grŵp Seneddol Hollbleidiol ar gyfer Plant, lle bu'n cynrychioli ein helusen ochr yn ochr â Llysgenhadon Ieuenctid y Comisiynydd Plant, gan rannu profiadau personol a hyrwyddo'r angen am newid.

Nothing about me, without me

## Gwella gofal cymdeithasol i blant

Ym mis Ebrill 2024, ymunodd ein Prif Weithredwr â Grŵp Cynghori'r Adran Addysg ar Ymyriadau'r Farchnad Gofal Cymdeithasol i Blant. Mae'r grŵp yn mynd i'r afael â gorelwa yn y sector cartrefi i blant.

Mae angen cartrefi o ansawdd uchel gyda gofal cariadus ar blant ar frys er mwyn iddynt ffynnu. Felly, ym mis Medi, fe wnaethom lansio ein hymgyrch Lle i'w Alw'n Gartref uchelgeisiol, gan alw ar lywodraethau'r DU i weithredu ar unwaith a gwneud i hynny ddigwydd.




**The launch of A Place to Call Home campaign.**

Cawsom sylw yn y cyfryngau ledled y DU, gan gynnwys erthygl gan un o'n Llysgenhadon Ifanc yng nghylchgrawn The House, a ddarllenwyd gan seneddwyr y DU.

Rydyn ni'n falch iawn bod y llywodraeth wedi ymgymryd â rhai o'n hargymhellion i helpu i sicrhau bod digon o gartrefi i blant a gwella rhagolygon, cynlluniau a chomisiynu. Ond fe wyddom fod llawer iawn i'w wneud o hyd.

Yn yr Alban, cyflwynodd Martin Whitfield ASA gynnig yn Senedd yr Alban yn croesawu ein hadroddiad. Yng Ngogledd Iwerddon, cyflwynodd Colm Gildernew MLA Fil Aelod Preifat i sicrhau bod yn rhaid i asiantaethau ymyrryd yn gynharach i atal digartrefedd, gan gynnwys ar gyfer pobl ifanc, mewn ymateb uniongyrchol i'n hymgyrch.

Yng Ngogledd Iwerddon, rydym wedi bod yn gweithio gyda phartneriaid i gefnogi argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Gofal Cymdeithasol i Blant (Gogledd Iwerddon) i wella gofal cymdeithasol i blant. Gwnaethom hyn ochr yn ochr ag aelodau eraill o'r Gydweithfa Ailddychmygu Plant.

Ym mis Chwefror, rhoesom dystiolaeth i Bwyllgor Iechyd Cynulliad Gogledd Iwerddon ar Reoliadau Maethu. Rydym yn falch iawn bod y rheoliadau wedi pasio'r cyfnod pwyllgor ac yn ddiolchgar

am yr ystyriaeth fanwl gan y Pwyllgor Iechyd. Rydyn ni nawr yn edrych ymlaen at ryddhau Safonau Maethu sy'n cyd-fynd â'r rheoliadau. Bydd hyn yn gwella dyletswyddau a goruchwyliaeth i blant mewn gofal maeth, gan sicrhau bod Gogledd Iwerddon yn cyd-fynd â gweddill y DU.

Fel rhan o'n hymgyrch Lle i'w Alw'n Gartref, rhannodd pobl ifanc eu profiadau o'r system ofal. Fe wnaethon nhw rannu eu straeon pwerus ag Aelodau Seneddol, gan gynnwys Darren Paffey. Cyfarfu â'n Llysgenhadon Ifanc i drafod y rhwystrau a wynebir gan bobl ifanc sydd â phrofiad o ofal a'r angen brys am weithredu gan y llywodraeth.

Nothing about me, without me

## Brwydro dros well cefnogaeth i deuluoedd

Yn Lloegr, datgelodd ein hadroddiad *Above and Beyond* y gallai naw plentyn ym mhob dosbarth yn Lloegr fod yn wynebu problemau y tu allan i'r ysgol, fel tlodi a heriau iechyd meddwl, sy'n effeithio ar eu haddysg.

Mewn ymateb, rydyn ni'n gweithio i gefnogi plant a phobl ifanc i gyrraedd eu llawn botensial, gan gynnwys cymorth iechyd meddwl.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom ddadansoddi data o'n platfform magu plant Parent Talk a chyhoeddi adroddiad a oedd yn edrych yn fanylach ar yr hyn y mae rhieni'n cael trafferth ag ef. Roedd yn tynnu sylw at sut mae diffyg cymorth yn eu gadael ar eu pen eu hunain mewn trafferthion gyda gwrthdaro a cham-drin wrth fagu plant ar y cyd ar ôl gwahanu.

Gwnaethom hefyd gyhoeddi adroddiad gyda phedair elusen blant flaenllaw arall - Barnardo's, NSPCC, Biwro Cenedlaethol y Plant a Chymdeithas y Plant. Datgelodd *Struggle Against the Tide* fod awdurdodau lleol yn Lloegr yn gwario mwy nag erioed ar ofal cymdeithasol i blant, ar ôl blynyddoedd o ddirywiad. Ond yn frawychus, mae gwariant ar wasanaethau ymyriadau cynnar fel canolfannau plant, hybiau teuluoedd, gwasanaethau cymorth i deuluoedd a gwasanaethau i bobl ifanc bron wedi haneru ers 2011. Cafodd yr adroddiad ei groesawu gan adrannau llywodraeth y DU a'i grybwyll mewn dadl yn Nhŷ'r Arglwyddi.

## Pwyso am gyfiawnder

Mae ein gwaith sy'n pwyso am gyfiawnder ieuenctid wedi ysbrydoli newid sylweddol yn yr Alban. Fe wnaethom ymgyrchu'n galed dros y Bil Plant (Gofal a Chyfiawnder) (Yr Alban), a ddaeth yn gyfraith yn 2024, gan ddiogelu gofal a chyfiawnder sy'n briodol i oedran ar gyfer pobl ifanc agored i niwed ledled y wlad.

Hefyd yn yr Alban, buom yn gweithio ar ddylanwadu ar y llywodraeth o ran pa oedran y dylai plant fod yn gyfrifol yn gyfreithiol am droseddu. Fe wnaethom gynhyrchu adroddiad terfynol, gan ddarparu argymhellion ar sut i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd a hyder y gymuned ynghylch y system cyfiawnder ieuenctid, gan gynnwys Oedran Cyfrifoldeb Troseddol (ACR).

Yng Nghymru, fe wnaethom gyfrannu at adroddiad Plant ar y Cyrion Llywodraeth Cymru drwy ddigwyddiadau bwrdd crwn, darparu tystiolaeth ysgrifenedig a rhannu profiadau plant o'n gwasanaethau. Buom yn gweithio i godi ymwybyddiaeth o effaith plant sy'n byw mewn tlodi a rhannu ein tystiolaeth am blant y camfanteisir arnynt yn droseddol.

Ym mis Mawrth 2024, fe wnaethom gyhoeddi canfyddiadau Adolygiad Jay o Blant y Camfanteisiwyd Arnynt yn Droseddol. Yn dilyn hyn, fe wnaethom gyhoeddi ymchwil newydd o Loegr, a oedd yn edrych ar y niwed a achoswyd i blant y camfanteisiwyd arnynt ac fe wnaethom argymhellion i wneud yn siŵr y gellir diogelu'r plant hyn yn effeithiol (gweler tudalen 14).

Fe wnaethom groesawu'r Bil Troseddu a Phlismona, a gyflwynwyd i Senedd y DU ym mis Chwefror 2025. Roedd y Bil yn cynnwys trosedd newydd o gamfanteisio ar blant yn droseddol a gorchmynion atal newydd, y gwnaethom alw amdanynt yn Adolygiad Jay.

## Mynd i'r afael â thlodi plant

Mae bron i wyth o bob deg aelod o'n staff (79%) yn cefnogi plentyn, person ifanc, neu deulu sy'n profi tlodi neu galedi ariannol eithafol. Dyna pam ein bod yn ymgyrchu ar dlodi plant - oherwydd mae teuluoedd yn dweud wrthym ei fod yn cyfyngu ar gyfleoedd a rhyddid eu plant.

Y llynedd, fe wnaethom rannu 10 opsiwn polisi uniongyrchol â'r llywodraeth i fynd i'r afael â thlodi plant a chefnogi teuluoedd i gael gwaith teilwng a diogel. Cyhoeddasom hefyd adroddiad newydd, *Sick and Tired*, sy'n ymchwilio i galedi a rhagolygon gwaith rhieni sâl ac anabl sy'n dibynnu ar fudd-daliadau analluogrwydd.

Yn yr Alban, helpodd ein hymgyrchoedd tlodi plant berswadio llywodraeth yr Alban i ddarparu cyllid o 2026 ymlaen i liniaru'r cyfyngiad dau blentyn ar gyfer teuluoedd yn yr Alban. Cyhoeddodd hefyd ddyletswydd newydd i gynyddu holl fudd-daliadau Nawdd Cymdeithasol yr Alban yn ôl chwyddiant bob blwyddyn.

Buom yn ymgyrchu i sefydlu Taliad Plant yr Alban (SCP) ac rydym yn parhau i alw am i'r taliad hwn gyrraedd £40 yr wythnos os yw'r Alban i gyrraedd ei thargedau tlodi plant. Yn wreiddiol roedd yr SCP werth £10 yr wythnos i bob plentyn - mae bellach yn £27.15.

Dilynwyd hyn ym mis Mawrth gyda'n hadroddiad Talu'r Pris. Roedd yn darparu map clir ar gyfer sut gall llywodraeth y DU godi 1.2 miliwn o blant allan o dlodi erbyn 2030, haneru tlodi plant mewn 20 mlynedd a dileu tlodi plant difrifol yn ystod yr un cyfnod. Yn y lansiad gorlawn yn San Steffan, siaradodd yr ymgyrchwyr ifanc Louise, Freya, Aaron a Georgia yn rymus am eu profiadau eu hunain o dlodi. Bydd ein hymgyrch yn parhau nes bydd Llywodraeth y DU yn cyhoeddi ei Strategaeth Tlodi Plant yn 2025.




**Ymgyrchwyr ifanc yn lansiad *Talu'r Pris*..**



# Codi arian
# ac **ymwybyddiaeth**

**Diolch i'n cefnogwyr anhygoel, rydym yn parhau i ysbrydoli'r cyhoedd a chodi arian hanfodol sy'n sicrhau bod mwy o blant yn cael plentyndod hapus a diogel.**

Bob dydd, mae angen ein cefnogaeth ar blant agored i niwed ledled y DU. A phob dydd, mae teulu Gweithredu dros Blant yn camu i'r adwy. Mae cefnogwyr ymroddedig yn rhedeg miloedd o filltiroedd ac yn pobi cannoedd o gacennau. Maen nhw'n sicrhau bod eu gweithleoedd yn cefnogi ein hachos, yn ymuno â'n digwyddiadau ac yn defnyddio eu llwyfannau i dynnu sylw at ein hymgyrchoedd. Maent yn ein cynnwys yn eu haddoliad, yn eu hewyllysiau ac yn eu calonnau.

Mae’r holl waith caled, yr ymroddiad a'r cariad hwn wedi golygu ein bod wedi codi swm anhygoel o £17.9 miliwn yn 2024/25. Rydyn ni mor ddiolchgar i'n gwirfoddolwyr a'n cefnogwyr am weithredu dros blant fel nad ydyn nhw'n colli plentyndod hapus a diogel.

**Yn 2024/25, fe wnaethom godi swm rhyfeddol o**
**£17.9 miliwn**

## Drwy gynnal digwyddiadau anhygoel

Yn 2024/25 fe wnaethom gynnal 26 o ddigwyddiadau ledled y DU.



Ym mis Tachwedd, fe wnaethom ddychwelyd am ail flwyddyn gyda'n Gala Starry Night wych, gan godi dros £225,000 i blant a phobl ifanc agored i niwed. Ar y noson, roeddem yn ddigon ffodus i arddangos perfformiadau gan rai o'r bobl rydym yn eu cefnogi. Roedd hyn yn cynnwys ein prif berfformiwr, plentyn maeth 13 oed, a ganodd ochr yn ochr â seren X Factor Rebecca Ferguson MBE.



Fe wnaeth ein 27fed digwyddiad cysgu allan Boycott your Bed ysbrydoli dros 600 o bobl i herio'r elfennau ar draws pum dinas yn y DU: Llundain, Leeds, Glasgow, Belfast a Chaerdydd Fe godon nhw dros £295,000 i helpu i ddarparu cymorth hanfodol i deuluoedd agored i niwed sydd heb unman arall i droi iddo.



Dathlodd Never Mind the Business ei ben-blwydd yn 20 oed yn Glasgow yn ôl ym mis Medi, gyda dros 700 o westeion yn cael perfformiad annisgwyl gan y band pop Hue a Cry. Codwyd cyfanswm anhygoel o £209,000.



Dychwelodd ein Ultimate News Quiz blynyddol ym mis Mawrth. Cafodd ei gynnal gan Gary Lineker ochr yn ochr â rhestr o westeion enwog. Ym mis Mawrth, fe wnaethom hefyd gynnal ein digwyddiad Menywod Dylanwadol ysbrydoledig a hirsefydlog yn yr Alban, yn ogystal â'n 35ain Cinio Gwanwyn blynyddol yn Llundain. Roedd y ddau ddigwyddiad yn llwyddiant ysgubol gyda'n digwyddiadau ym mis Mawrth yn codi dros £500,000.

## Anrhydeddu cymynroddion

I anrhydeddu'r bobl anhygoel sydd wedi rhoi rhodd i ni yn eu hewyllys, fe wnaethon ni greu Sky of Stars, ein gwefan deyrnged. Pan fyddwn ni'n cael rhodd o ewyllys rhywun, rydyn ni'n ychwanegu seren yn eu henw at Sky of Stars - i gofio'r gwahaniaeth maen nhw wedi'i wneud i blant a phobl ifanc agored i niwed.

Rydyn ni mor ddiolchgar ac wedi cael ein hysbrydoli gan bob cefnogwr a roddodd rodd yn eu hewyllys yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Diolch i haelioni aruthrol 180 o gefnogwyr, mae dros chwarter ein hincwm o roddion wedi cael ei godi fel hyn.

Roeddem hefyd yn falch iawn o gael ein henwebu ar gyfer tair gwobr waddol eleni, gan gynnwys Arloesedd Digidol mewn Rhoi Gwaddol am ein hymgyrchoedd Sky of Stars a digidol.

## Dathlu ein cymuned

Rydyn ni mor ddiolchgar am gefnogaeth pobl yn y gymuned sy'n codi arian yn unigol, mewn grwpiau a gyda busnesau bach. Aeth cannoedd o gefnogwyr ymroddedig ati i ymgymryd â heriau chwaraeon er mwyn plant y llynedd.

Cododd ein cefnogwyr dros £285,000 ar draws ein digwyddiadau rhedeg, cerdded a beicio. Cododd ein tîm o 53 o redwyr ym Marathon Llundain swm anhygoel o £101,000, ac roedd gennym ein tîm mwyaf erioed ar gyfer y Great North Run.

Rydym yn cefnogi 29 o grwpiau codi arian gweithredol gyda nifer yn codi dros £5,000 y flwyddyn. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rydym wedi ehangu ein gweithgarwch i ymgysylltu â grwpiau a chymdeithasau, yn ogystal â phrifysgolion, i gefnogi twf incwm anghyfyngedig a chael pobl i adnabod ein henw ar draws cymunedau.

Y flwyddyn nesaf, rydyn ni'n edrych ymlaen at ehangu ein holl weithgareddau, gan gynnwys cynnal ein taith gerdded Gweithredu dros Blant gyntaf: Copa'r Wyddfa ar Doriad y Wawr.

Rhedodd Niall Whatmore, sy'n gweithio yn ein gwasanaethau rheng flaen, yn y Great North Run yn 2024. Mae'n gweithio gyda phobl ifanc a'i helpodd gyda'i ymarfer a'i hyfforddiant. Mae Niall wedi cofrestru i redeg yn 2025 ac wedi recriwtio tîm i ymuno ag ef.




Mae'r cefnogwr rhyfeddol Claudie Roberts wedi rhedeg Marathon Llundain i ni bum gwaith gan godi £13,500 hyd yma.



## Dathlu ein gwreiddiau Methodistaidd

Rydyn ni wedi cael cefnogaeth anhygoel gan y gymuned Fethodistaidd ers i ni gael ein sefydlu gan y Parchedig Thomas Bowman Stephenson dros 150 o flynyddoedd yn ôl. Ac rydym yn hynod ddiolchgar am y gefnogaeth hon.

Yr ydym hefyd yn elwa o bartneriaethau lleol gydag enwadau eraill fel yr Eglwys Ddiwygiedig Unedig. Gyda'i gilydd, buont yn codi arian ac yn ymgyrchu'n frwd eleni, gan godi dros £760,000 o weithgareddau'n ymwneud â'r eglwysi.

Buom yn gweithio'n galed i feithrin ein cysylltiad agos. Fe wnaeth tîm Cyfathrebu'r Methodistiaid ein helpu i aros yn weladwy drwy rannu newyddion ysbrydoledig am ein heffaith a'n hymgyrchoedd.

Cynhaliodd ein timau Dylanwadu a Chyfranogi weithdai yng Nghynhadledd Ieuenctid y Methodistiaid ym mis Hydref 2024. Fe wnaethon nhw ysbrydoli Methodistiaid ifanc i ysgrifennu at y gweinidog dros blant a theuluoedd am y newid maen nhw eisiau ei weld.

Mae ein tîm Maethu a thîm Plant, Ieuenctid a Theuluoedd yr Eglwys Fethodistaidd yn gweithio gyda'i gilydd i arfogi eglwysi â'r sgiliau i gefnogi anghenion teuluoedd maeth neu deuluoedd sy'n mabwysiadu a'u helpu i deimlo eu bod yn cael eu cynnwys ym mywyd yr eglwys. Mae hyn wedi rhoi mynediad i ofalwyr at wybodaeth a rhwydweithiau ehangach ac mae'n cefnogi ein hymgyrch recriwtio ar gyfer maethu.

## Cydymffurfio a chwynion

Rydym wedi cofrestru gyda'r Rheoleiddiwr Codi Arian ac yn glynu wrth ei God Ymarfer a'i Addewid. Rydym yn cynnal safonau uchel ar gyfer codi arian, gan sicrhau eglurder, didwylledd a gonestrwydd gyda'n cefnogwyr, tra'n parchu eu preifatrwydd a'u dewisiadau cyfathrebu.

Yn 2024/25, cawsom 267 o gwynion am ein prosesau codi arian. Daeth cyfran sylweddol o'r cwynion hyn (195) drwy sylwadau ar y cyfryngau cymdeithasol. Yn bennaf, roedd y rhain yn safbwyntiau unigol sy'n cael eu hysgogi gan negeseuon, yn hytrach na materion uniongyrchol sy'n ymwneud â'r neges codi arian. O blith y cwynion eraill, roedd y rhan fwyaf (41) gan gefnogwyr a oedd yn dymuno newid eu dewisiadau marchnata.

Eleni, rydym wedi cynyddu ein defnydd o fuddiant dilys fel sail ar gyfer postio uniongyrchol, gan ganiatáu i ni gysylltu ag unigolion sydd wedi cefnogi ein gwaith ac wedi rhoi cyfeiriad postio i ni. Mae'r fenter hon wedi ein galluogi i gyrraedd dros 45,000 o gefnogwyr ychwanegol, gyda'r 41 o gwynion yn cynrychioli tua 0.11% o'r grŵp hwn. Roedd y nifer uchaf nesaf o gwynion yn ymwneud â chynnwys ein deunydd marchnata (12) a sut rydym yn cyflawni ceisiadau ymgyrchu (8).

## Ein partneriaethau pwerus

**Mae partneriaid corfforaethol yn codi arian hanfodol i gefnogi ein gwaith ac yn rhoi eu hamser a'u harbenigedd i gefnogi ein gwasanaethau. Ni allem weithredu dros blant hebddynt.**

Rydyn ni'n falch iawn o fod wedi lansio partneriaethau newydd y llynedd gyda **Nationwide Building Society, JoJo Maman Bébé, Wills & Legal Services, The Cosy Club, Virgin Media O2, BGC Charity Day, B&Q Foundation, Equinix, Flight Centre, WeConnect Energy** a **DYW LED.**

Hefyd, rydyn ni'n ddiolchgar iawn am gefnogaeth barhaus gan gwmnïau ledled y DU gan gynnwys Herbalife, Junior Adventures Group, Sarnia Housing Association, The Childcare Company, Hope for a Child, Anglo Doorstep Collections ac Atlas Security.

Ar ôl tair blynedd wych, daeth ein partneriaeth ag Arcadis i ben ym mis Mawrth 2025. O deithiau beicio epig i rafflau ledled y DU, mae cydweithwyr yn Arcadis wedi mynd yr ail filltir ac wedi codi dros £200,000 i gefnogi plant a theuluoedd agored i niwed.

Bellach yn ei 15fed blwyddyn, mae ein partneriaeth â Dell Technologies yn parhau i gysylltu plant, pobl ifanc a'u teuluoedd â'r byd digidol drwy ein rhaglen Inspire IT. Rhannodd un fam, “Mae Dell yn rhoi cyfle i fy mhlentyn gael dyfodol gwell.”

Mae ein partneriaeth gydag Ella's Kitchen yn parhau i gefnogi teuluoedd agored i niwed a'u plant bach ledled y DU. Eleni, ail-lansiwyd eu cynnyrch arbennig cyfyngedig, Melty Sticks, gan godi £75,000 a rhoi llwyfan i'n brand ar draws yr holl adwerthwyr mawr yn ystod tymor y Nadolig.

Eleni, fe wnaethom ddathlu ail ben-blwydd rhaglen Adeiladu Dyfodol Hapusach John Lewis Partnership. Ariannodd y rhaglen ein Hymarferwyr Therapiwtig Wrap a'n Gweithwyr Pontio, sydd wedi rhoi cymorth un-i-un dwys i dros 475 o blant a phobl ifanc mewn gofal, gofalwyr maeth ac aelodau teulu.

Fe wnaethom groesawu'r brand dillad plant JoJo Maman Bébé i deulu Gweithredu dros Blant eleni. O lansio rhoddion wrth y til ar draws eu holl siopau yn y DU, i ddarparu cymorth hael mewn nwyddau i'n gwasanaethau, mae ein partneriaeth yn helpu plant i ffynnu.

Parhaodd Lenovo i gefnogi drwy noddi, gan weithio mewn partneriaeth â phum digwyddiad codi arian drwy gydol y flwyddyn ac ym mhob un o bedair gwlad y DU, gan gynnwys bod yn bartner cefnogi cenedlaethol ar gyfer ein digwyddiad cysgu allan corfforaethol enwog, Boycott your Bed.

Mae ein rhaglen Scottish Friendly, a lansiwyd gyntaf ym mis Mai 2023, wedi parhau i ddarparu sesiynau iechyd meddwl a lles i ddisgyblion ysgol uwchradd yn rhai o ardaloedd mwyaf difreintiedig Glasgow. Ers ei lansio, rydym wedi cefnogi 608 o blant a phobl ifanc.

Bellach yn ein trydedd flwyddyn o bartneriaeth, mae Starling Bank yn parhau i helpu teuluoedd i reoli eu harian a chael sgyrsiau am arian drwy ein gwasanaeth digidol, Parent Talk. Y llynedd, cafodd erthyglau rheoli arian Starling Bank eu darllen dros 50,000 o weithiau ac fe wnaeth hyfforddwr magu plant Starling Bank gefnogi 433 o deuluoedd drwy gymorth un-i-un.

Mae cefnogaeth ymroddedig Turner & Townsend i'n Cronfa Addysg yn parhau i chwalu rhwystrau i addysg drwy gefnogi teuluoedd i dalu am gostau hanfodion ysgol fel gwisg ysgol, esgidiau a chotiau gaeaf. Mae ein partneriaeth, sydd bellach yn bodoli ers degawd, wedi codi dros £1 miliwn ers 2015.

## Partneriaethau dan y chwyddwydr

nationwide | Fairer Futures

Ym mis Mehefin 2024, roeddem yn falch iawn o lansio partneriaeth aml-flwyddyn newydd gwerth miliynau o bunnoedd gyda Chymdeithas Adeiladu Nationwide i fynd i'r afael â thlodi plant. Gyda'n gilydd drwy strategaeth effaith gymdeithasol Nationwide, Dyfodol Tecach, byddwn yn darparu achubiaeth hanfodol i ddegau o filoedd o blant, pobl ifanc a theuluoedd agored i niwed.

Heddiw, mae 4.5 miliwn o blant yn y DU yn byw mewn tlodi. Mae tlodi yn cyffwrdd â phob rhan o fywyd plentyn. O fyw mewn tŷ llaith ac ynghanol llwydni, i gydio yn eu tegan sydd wedi torri, gan wybod efallai na fydden nhw'n cael un arall. Cael trafferth ffitio i mewn pan nad oes ganddyn nhw'r wisg ysgol iawn, a phoeni am fynd i drwbl am beidio â gwneud eu gwaith cartref, pan nad oes ganddyn nhw'r lle ffisegol neu feddyliol i wneud hynny. Mae'n ddi-baid. Ac nid dim ond ar eu plentyndod y mae'n effeithio.


Clwb Teuluoedd

Ond gyda chefnogaeth Nationwide, rydyn ni'n helpu i newid hynny. Pan fydd teulu wedi cyrraedd pen ei dennyn, rydyn ni'n camu i mewn i wneud yn siŵr eu bod yn cael y gefnogaeth ymarferol ac emosiynol sydd ei hangen arnynt. Mae Cronfa'r Teulu yn rhoi cymorth hyblyg uniongyrchol i deuluoedd gyda hanfodion fel bwyd, biliau, dillad ac offer ar gyfer eu cartrefi. Ac mae Clybiau Teuluoedd yn darparu mannau croesawgar a diogel mewn cymunedau lleol lle gall teuluoedd ddod i fwyta, i gynhesu, i deimlo'n gyfforddus ac i gael cymorth gyda beth bynnag maen nhw'n ei wynebu (darllenwch fwy ar dudalen 13).



**Gweithwyr Nationwide yn gwirfoddoli eu hamser.**


**Sesiwn lansio partneriaeth gyda chydweithwyr Nationwide.**

Dywedodd Molly* wrthym:

***"Rydyn ni wedi mynd o gael tŷ i gael cartref. Rydyn ni nawr yn deulu eto, ac am gyfnod hir doedden ni ddim. Roedden ni'n cyd-fyw ac yn bodoli mewn tŷ. Mae ein dyfodol yn dechrau gyda chartref hapus a dyna beth sydd gennym ni nawr, diolch i Gweithredu dros Blant a Nationwide."***

Y llynedd, cefnogodd ein partneriaeth 36,833 o blant, pobl ifanc a theuluoedd a oedd yn byw mewn tlodi neu'n profi caledi ariannol.

*Rydym wedi newid enw Molly i ddiogelu ei hunaniaeth.

Fe wnaeth Dyfodol Tecach Nationwide hefyd ein cefnogi yn y ffyrdd canlynol:

- Fel prif bartner ein hymgyrch codi arian Siôn Corn Cudd, cododd Nationwide dros £260,000 drwy godi arian gan weithwyr a chwsmeriaid.
- Cyllido ymchwil ar gyfer ein hadroddiad *Talu'r Pris*, sy'n ceisio dylanwadu ar lywodraeth y DU a sbarduno newid hirdymor i blant mewn tlodi.
- Noddi ein Gala Starry Night a'n Gwobrau Menywod Dylanwadol blynyddol, gan ein helpu i godi arian hanfodol.
- Gwirfoddolodd 124 o gydweithwyr Nationwide eu hamser ar gyfer ein gwasanaethau a'n digwyddiadau.

## Gweithredu dros Blant ar y cyfryngau

**Rydyn ni eisiau cynnwys mwy o bobl yn ein gwaith a'n hachos er mwyn i ni allu helpu hyd yn oed mwy o blant agored i niwed ledled y DU. Rydym yn falch o fod wedi rhoi dros 3 biliwn o gyfleoedd i'r cyhoedd weld ein gwaith yn y cyfryngau y llynedd.**

### Siôn Corn Cudd

Cafodd ein hymgyrch codi arian flaenllaw flwyddyn heb ei hail, gan godi dros £2 filiwn gan gynnwys Cymorth Rhodd. Hon oedd ein blwyddyn gyntaf gyda Nationwide yn brif bartner ac unwaith eto roeddem yn ôl ar y teledu gyda'n hysbyseb yn cael ei lleisio gan yr actor Larry Lamb.

Fe wnaethom hefyd lansio Groto Rhoi Siôn Corn Cudd cyntaf o'i fath yn y DU, profiad a drodd draddodiad ben i waered drwy annog plant i roi rhodd yn hytrach na chael un. Arweiniodd y digwyddiad deuddydd at sylw mawr yn y wasg ac eitem a ddarlledwyd ar ITV London, gan gyfrannu at dros 320 miliwn o gyfleoedd i weld yr ymgyrch.






Groto Rhoi Siôn Corn Cudd.

### iNews




Roeddem yn falch iawn o gael ein dewis fel elusen Apêl Nadolig The i Paper ar gyfer 2024. Cynhaliwyd Apêl Plentyndod Hapus am bedair wythnos yn ystod cyfnod y Nadolig gan godi swm trawiadol o £135,600 gyda Chymorth Rhodd.

Roedd y rhain yn rhoi sylw i brofiadau plant, pobl ifanc a'u teuluoedd, yn ogystal â staff ymroddedig, codwyr arian, gwirfoddolwyr a chefnogwyr enwog.

Roedd yr apêl yn tynnu sylw at 12 gwasanaeth ar draws y pedair gwlad a chwe maes ein gwaith - tlodi, anabledd, cymorth i rieni, plant mewn gofal, gofalwyr ifanc ac iechyd meddwl.

### Croesawu ein noddwr Brenhinol

Ymwelodd ein noddwr, Ei Huchelder Brenhinol Tywysoges Cymru, â'n Huned Mam a'i Babi yng Ngharchar a Sefydliad Troseddwyr Ifanc Styal yn Swydd Gaer ym mis Chwefror 2025 (darllenwch fwy ar dudalen 12). Cafodd ei hymweliad sylw amlwg yn y cyfryngau, gan gynnwys sylw ar BBC News at Six a News at Ten, gwefan BBC News, Sky News, tudalen flaen The Telegraph a The Times a dros 300 o ddarnau eraill o sylw.



**Ei Huchelder Brenhinol Tywysoges Cymru yn ymweld â'n Huned Mam a'i Babi yng Ngharchar Styal yn Swydd Gaer.**

# Galluogi
## ein gwaith

## Ein pobl

**Mae gweithredu dros blant yn dechrau drwy ddenu, datblygu a chadw staff a gwirfoddolwyr gwych.**

Ddiwedd mis Mawrth 2025, mae gennym 4,103 o bobl frwdfrydig a gyflogir gan Gweithredu dros Blant a 475 o wirfoddolwyr ymroddedig.

Ac rydyn ni'n falch iawn bod Gweithredu dros Blant yn safle 154 yn gyffredinol – ac yn safle 16 yn y sector gofal iechyd a chymdeithasol – ar restr Cyflogwyr Gorau'r DU 2025 y Financial Times.

### Denu a chadw staff anhygoel

Er mwyn denu a chadw'r bobl fwyaf talentog, fe wnaethom gynnal ymchwil i ddeall y pethau gorau am weithio yn Gweithredu dros Blant. Gwelsom mai'r effaith rydyn ni'n ei chael, y cysylltiadau rydyn ni'n eu creu a chanolbwyntio ar atebion, yw’r pethau hynny. Rydym nawr yn blaenoriaethu'r rhannau hyn o'n diwylliant yn ein cyfathrebiadau a'n deunydd marchnata ar gyfer recriwtio.

Fe wnaethom hefyd symleiddio strwythur staff ein gwasanaethau preswyl, gan greu rôl rheng flaen newydd sy'n cynnig datblygiad gyrfa a chyflog drwy dair lefel, wrth i staff ddatblygu eu cymhwysedd, eu sgiliau a'u hyder. Rydym wedi nodi'n glir y llwybr dysgu a'r opsiynau datblygu gyrfa a'r cymorth sydd ar gael.

### Cynllunio ar gyfer dyrchafiadau

Rydyn ni wedi ymrwymo i ddatblygu ein harweinwyr, gan wneud yn siŵr bod gennym ni bobl amrywiol o ansawdd uchel sy'n barod i symud i rolau canol ac uwch ar draws Gweithredu dros Blant. I'w cefnogi rydym wedi datblygu adnoddau cynllunio olyniaeth newydd yn dilyn argymhellion gan ein Gweithgor Rheoli Talent a'r tîm Arwain Gweithredol. Rydym yn profi'r adnoddau hyn yn ein gwasanaethau plant yng Nghymru a Gogledd Iwerddon.

### Cadw ein hachrediadau

Rydym wedi cadw achrediadau Buddsoddwyr mewn Gwirfoddolwyr (IIV), Buddsoddwyr mewn Pobl (IIP), Cyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol, Elusen Ddibynadwy Lefel 1 a'n statws Cyflogwyr Hyderus o ran Anabledd.

Yng Ngogledd Iwerddon, rydym hefyd wedi cael achrediad Nod Amrywiaeth Arian, wedi'i uwchraddio o Efydd, i gydnabod ein hymrwymiad i hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant.

INVESTING IN VOLUNTEERS | INVESTORS IN PEOPLE | Silver Diversity Mark

TRUSTED CHARITY MARK LEVEL 1 NCVO | We are a Living Wage Employer | disability confident EMPLOYER



## Amrywiaeth a chynhwysiant

Y llynedd, fe wnaethom adnewyddu ein Strategaeth Amrywiaeth a Chynhwysiant, gan barhau â'n hymrwymiad i fod yr elusen fwyaf cynhwysol y gallwn fod. Rydym wedi parhau i ddarparu Hyfforddiant Recriwtio Cynhwysol ac yn darparu cyfleoedd dysgu ffurfiol ac anffurfiol rheolaidd i'n holl staff.

Rydyn ni'n lansio hyfforddiant gwrth-hiliaeth gorfodol newydd ar gyfer ein holl weithwyr newydd ac arweinwyr yn 2025. Y llynedd, fe wnaethom gynnal grwpiau ffocws o aelodau'r Rhwydwaith Staff, pobl â phrofiad bywyd, uwch arweinwyr a rheolwyr i helpu i ddatblygu'r hyfforddiant.

Yn ystod 2024/25 fe wnaethom gynnal sesiynau holi ac ateb ar weithredu cadarnhaol a niwroamrywiaeth yn y gweithle. Cawsom hefyd ddigwyddiadau Dysgu dros Ginio yn hyrwyddo canllawiau ac arferion newydd, yn ogystal â gweminarau dan arweiniad y Rhwydwaith Staff yn ymdrin â phynciau o Fis Hanes LHDTC+, Profiad Plant Du mewn Gofal a Diwrnod Rhyngwladol y Menywod.

Mae ein rhaglen Datblygu Potensial yn gyfle gwych i ddatblygu arweinyddiaeth i staff o bob rhan o'n helusen sydd â'r dyhead a'r potensial i symud i rôl gradd 4 yn ystod y ddwy flynedd nesaf. Fe wnaethom harneisio camau cadarnhaol drwy neilltuo 50% o'r lleoedd ar gyfer staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol a staff Anabl. Rydym yn cydnabod bod y grwpiau hyn yn cael eu tangynrychioli'n anghymesur mewn rolau rheoli ac uwch yn Gweithredu dros Blant.

Ar ôl cael adborth llwyddiannus, fe wnaethom lansio ein rhaglen beilot newydd ar gyfer Mentora Dwyffordd ym mis Ionawr 2025. Mae'r rhaglen yn paru cydweithwyr Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ag uwch arweinwyr i ddatblygu cysylltiadau cyd-fentora sy'n hyrwyddo dysgu ar y cyd a hunan-ddatblygu. Mae'r rhaglen yn ein helpu i greu gweithle gwrth-hiliol mwy cynhwysol, drwy chwalu rhwystrau i staff Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol ar yr un pryd â meithrin hyder a gwybodaeth uwch arweinwyr i greu newid.

### Rhannu profiadau, newid meddyliau




Roedd ein rhaglen beilot Mentora Dwyffordd wedi paru Natalie, Rheolwr Rhanbarthol ym maes Codi Arian, â Richard, Cyfarwyddwr Strategaeth a Gweithredu.

*"Roeddwn i'n rhoi rhywbeth yn ôl ac yn ceisio dysgu amdanaf fy hun. Roeddwn i'n meddwl mai 'partner mentora yw'r hyn sydd ei angen arnaf nawr'. Ond hefyd, roedd yn alwad i weithredu - roedd Gweithredu dros Blant eisiau gwneud gwahaniaeth drwy'r rhaglen hon,"* meddai Natalie.

Cymhellwyd Richard drwy sylweddoli bod bylchau yn ei ddealltwriaeth o amrywiaeth a chynhwysiant.

Cyfarfu'r ddau yn rheolaidd dros chwe mis, gan gymryd eu tro i fentora a chael eu mentora gan ei gilydd. Roedd eu trafodaethau'n eang, yn cwmpasu amrywiaeth a chynhwysiant yn ogystal â datblygu gyrfa.

Daeth Richard yn fwy ymwybodol o sut y gall bobl sydd â gwahanol brofiadau bywyd brofi polisïau a phrosesau mewn ffyrdd gwahanol iawn.

*"I mi, roedd yn atgyfnerthu, os nad oes gennych chi amrywiaeth eang o unigolion sydd â safbwyntiau a chefndiroedd gwahanol yn yr ystafell pan fyddwch chi'n datblygu polisi neu'n dylunio rhywbeth, byddwch chi'n colli goblygiadau pwysig,"* meddai.

*"Gallwch wneud rhagdybiaethau ynghylch sut y bydd rhywbeth yn gweithio, a fydd yn gwbl anghywir, a bod yn anymwybodol y bydd canlyniadau cwbl anfwriadol i grŵp cyfan o bobl. Roedd honno'n foment eithaf dadlennol i mi."*

Dywedodd Natalie, *"Mae wedi fy ysgogi i wneud pethau mewn ffyrdd gwahanol."*

*"Rwyf wedi ymuno â'r Rhwydwaith Breakthrough, wedi mynychu cwpl o sesiynau'n barod ac wedi rhannu'r hyn a ddysgais ganddynt â'm cydweithwyr. Ond gyda rhywfaint o help gan Richard, rydw i hefyd wedi nodi fy mod i eisiau symud ymlaen yn Gweithredu dros Blant. Mae wedi cynnau tân yn fy mol ac mae fy rheolwr wedi cydnabod hynny hefyd ac wedi gofyn i mi arwain y gwaith o reoli prosiect."*

## Ein gwirfoddolwyr

Mae gennym 475 o wirfoddolwyr gweithredol yn ein gwasanaethau plant ledled y DU. Mae llawer mwy yn rhoi o'u hamser drwy gyfleoedd gwirfoddoli tymor byr fel ein Sgwadiau Gweithredu codi arian, gan helpu mewn digwyddiadau a thrwy gyfleoedd partneriaethau corfforaethol.

Mae ein gwirfoddolwyr i gyd yn rhan o'n teulu ac rydyn ni'n hynod ddiolchgar am eu gwaith caled. Maen nhw'n ein helpu mewn sawl ffordd, o waith gweinyddol i arddio a bod yn fentoriaid i'n pobl ifanc i weithio yn ein grwpiau cymorth gan gymheiriaid.

Rydym yn cefnogi ein gwirfoddolwyr gyda dros 200 o gydlynwyr gwirfoddolwyr. Rydym hefyd yn cynnig sesiynau cynefino, hyfforddiant ac yn cefnogi eu lles a'u datblygiad proffesiynol a phersonol.

### *"Mae gwirfoddoli'n rhoi cymaint o foddhad."*

Mae Margaret wedi gwirfoddoli gyda ni yng Nghanolfan Gymunedol Galafield yn Newcastle ers 2021. Yn ogystal â gweithio ar lefel un-i-un gyda theuluoedd, mae'n cefnogi'r Caffi Cymunedol ac yn rhedeg y Grŵp Rhieni a Phlant Bach.

*"Mae'r plant [sy'n mynychu'r grŵp] wedi dod allan o'u cregyn, wedi datblygu sgiliau newydd ac wedi gwella eu lleferydd a'u hiaith," meddai.*

*"Mae [gwirfoddoli'n] rhoi cymaint o foddhad. Mae'n gyfle i rannu eich sgiliau a'ch diddordebau gyda phobl eraill, dysgu sgiliau newydd a gwneud ffrindiau newydd."*

*"Rwy'n edrych ymlaen bob wythnos at fy nghyfnod yn gweithio gyda Gweithredu dros Blant ac rwy'n teimlo fy mod, yn ogystal â rhoi fy amser a'm cefnogaeth, yn cael llawer o gefnogaeth yn ôl ac wedi gwneud ffrindiau a chanfod diddordebau newydd."*

## Ein cyflog a'r bwlch cyflog rhwng y rhywiau 2024




Rydym am dalu cyfraddau fforddiadwy a chystadleuol yn y sector nid-er-elw sy'n adlewyrchu natur a chymhlethdod cyfrifoldebau pob rôl. Rydyn ni'n cael y wybodaeth ddiweddaraf am gyflogau yn y sector drwy weithio mewn partneriaeth ag arbenigwyr data cyflog a chydweithio â chydweithwyr gwobrwyo yn y sector i feincnodi, a rhannu syniadau a gwybodaeth.

Rydym yn falch bod ein bwlch cyflog rhwng y rhywiau wedi gostwng 1.4% o 5.9% yn 2023 i 4.4% eleni. Mae hyn o fewn ein targed o 5% y naill ochr a'r llall i 0%. Ac mae'n is na'r Bwlch Cyflog rhwng y Rhywiau cyfartalog yn 2023 o 7.7%, a fesurir gan y Swyddfa Ystadegau Gwladol.

Rydyn ni hefyd yn falch iawn o adrodd bod bwlch cyflog o 0% rhwng y rhywiau ar gyfer Action for Children Developments Ltd, i lawr o 2.1% yn 2023.

Yng Ngogledd Iwerddon, mae ein gwasanaethau plant wedi gwella eu bwlch cyflog rhwng y rhywiau yn sylweddol ac yn barhaus, gan ostwng o 5.1% i 1.2%. Yn y cyfamser, mae ein gwasanaethau plant yn yr Alban yn parhau i gynnal bwlch trawiadol o 0%.

Rydym am i bawb deimlo eu bod yn cael eu croesawu, eu cynnwys, eu gwerthfawrogi a'u parchu. Ac mae gweithio tuag at fyd sy'n fwy cyfartal o ran rhywedd yn ymrwymiad parhaus.

Rydym bellach yn cyflogi mwy o ddynion yn y chwartel cyflog isaf: 11.7% yn codi i 15.1% (cynnydd o 4% ers 2023) oherwydd ein bod wedi gweithio i ddenu mwy o ddynion i rolau gwasanaeth plant rheng flaen. Mae hyn yn helpu ein gweithlu i gynrychioli'r plant a'r bobl ifanc rydyn ni'n eu cefnogi yn well.

Gallwch ddarllen mwy yn ein **hadroddiad llawn**.

## Cefnogi lles staff

Rydym yn parhau i ddarparu ein Rhaglen Cymorth i Weithwyr i'n staff. Rydyn ni wedi trefnu sesiynau lles misol ynghyd â gweminarau i'w cefnogi gyda phynciau fel bwyta'n iach, lles ariannol, hapusrwydd, gwytnwch ac ymwybyddiaeth o alar, ochr yn ochr â llawer o rai eraill. Rydym wedi parhau i fuddsoddi yn ein tîm o dros 100 o Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl drwy drefnu hyfforddiant gloywi a lansio ein Rhwydwaith Swyddogion Cymorth Cyntaf Iechyd Meddwl yn llwyddiannus.

## Gwrando ar ein staff

Fe wnaethom gynnal ein harolwg staff ym mis Chwefror 2025, gyda darparwr allanol - People Insights. Mae ein timau nawr yn trafod ac yn dadansoddi'r canlyniadau, ac yn edrych ar gynlluniau gweithredu ar draws yr elusen. Mae'r uchafbwyntiau'n cynnwys ein sgôr ymgysylltu â staff ar gyfer yr arolwg, sef 86%, cryfder ymrwymiad staff i ethos a gwerthoedd yr elusen, a geiriau allweddol mewn ymatebion i'r arolwg fel 'cefnogol', 'pwrpasol', 'cysylltiedig' a 'chynhwysol'.

# Gwella effeithlonrwydd

**Er mwyn cynyddu'r effaith y gallwn ei chael ar blant, pobl ifanc a theuluoedd, rydym yn gweithio'n barhaus i wella ein heffeithlonrwydd.**

## Defnyddio systemau mwy effeithlon

Fe symudon ni o'n hen systemau pobl a chyllid i lwyfan cwmwl hunanwasanaeth (Oracle). Rydym nawr yn addasu i'r system newydd, a ddylai dros amser ein galluogi i symleiddio prosesau a gwella ein gwaith.

## Creu Sefydliad Optimaidd

Cynlluniwyd ein rhaglen Sefydliad Optimaidd i wneud yn siŵr bod gennym y galluoedd cywir i gyflawni ein strategaeth. Rydyn ni wedi'i defnyddio i bennu'r maint cywir ar gyfer ein hadnoddau a'n strwythurau er mwyn i ni allu parhau i gefnogi'r plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd sydd ein hangen ar yr un pryd ag aros yn gynaliadwy'n ariannol.

Y llynedd, fe wnaethom ailstrwythuro ein timau cymorth seilwaith, sicrhau arbedion cost nad oeddent yn ymwneud â staff a gwneud buddsoddiadau a oedd yn cyd-fynd â'n nodau strategol. Roeddem hefyd wedi creu tîm Trawsnewid newydd i wreiddio gwelliant parhaus fel arfer safonol gydag adolygiadau bob chwe mis.



## Trawsnewid digidol

Rydym wedi dod â'n timau digidol at ei gilydd i hybu arloesedd a sicrhau bod ein holl raglenni digidol yn effeithlon ac yn gyffredinol, ac y gellir eu hehangu a'u cefnogi. Byddwn hefyd yn defnyddio deallusrwydd artiffisial i wella'r hyn rydym yn ei wneud.

Er mwyn cynyddu ein heffaith ar fywydau plant a phobl ifanc, byddwn yn blaenoriaethu darpariaeth ddigidol integredig i helpu i ennill contractau newydd gan gomisiynwyr.

Fel pob elusen arall, mae angen i ni fod yn gyfredol â thueddiadau marchnata digidol. Bydd nodi'r adnoddau a'r llwyfannau cywir yn gwneud yn siŵr ein bod yn gallu denu cefnogwyr newydd, a chynyddu cyrhaeddiad ac ymwybyddiaeth o frand. Yn 2025/26, byddwn yn canolbwyntio ar farchnata teyrngarwch i godi mwy o arian i Gweithredu dros Blant.

Er mwyn arallgyfeirio a chodi incwm mwy anghyfyngedig, byddwn hefyd yn blaenoriaethu arloesedd yn ein cynnyrch digidol a'n modelau busnes newydd. Bydd ein heiddo deallusol wrth wraidd y dull gweithredu hwn.

## Hybu cynaliadwyedd

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydyn ni wedi defnyddio'r llwyfan Climate Essentials i gael dealltwriaeth ddyfnach o'n hôl troed carbon, gan ein helpu i wneud penderfyniadau mwy gwybodus.

Rydym wedi ehangu ein hadroddiadau i gynnwys allyriadau Cwmpas 3, yn benodol o gerbydau nad ydynt yn eiddo i'r cwmni, fel rhan o'n cyflwyniad SECR. Wrth symud ymlaen, rydyn ni wedi ymrwymo i gryfhau ein dull gweithredu drwy ymgorffori categorïau Cwmpas 3 ychwanegol, gwella tryloywder a chyflymu ein taith tuag at sero net.

Fel rhan o'r ymrwymiad hwn, rydym wedi gwella ein Hofferyn Rheoli Teithio drwy ychwanegu datganiad archebu ymlaen llaw i gefnogi penderfyniadau teithio cynaliadwy. Rhaid i'n gweithwyr nawr ystyried y goblygiadau ôl troed carbon cyn cwblhau eu trefniadau'n derfynol.

Rydym hefyd wedi cryfhau arferion cynaliadwyedd yn ein proses caffael nwyddau a gwasanaethau. Rydym wedi datblygu Maen Prawf Gwerth Cymdeithasol ar gyfer tendrau, gan sicrhau bod ein cadwyn gyflenwi yn parhau i fod yn atebol. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i gyflenwyr gadarnhau eu hymdrechion cynaliadwyedd fel rhan o gytundebau contract a Cheisiadau am Wybodaeth (RFI).

Rydym hefyd wedi trafod cyfraddau dŵr corfforaethol a systemau mwy effeithiol i hybu ymwybyddiaeth a chyfleu ein hymdrechion cynaliadwyedd i gydweithwyr a rhanddeiliaid. Hefyd, rydym nawr yn adrodd fel sefydliad cyfan er mwyn cael dealltwriaeth gliriach o'n heffaith gyffredinol.

Wrth edrych i'r dyfodol, byddwn yn adeiladu ar ein cynnydd i lunio strategaeth cynaliadwyedd gyfannol - a gosod nodau i leihau ein heffaith amgylcheddol. Byddwn yn parhau i wreiddio arferion mwy amgylcheddol gyfrifol yn ein diwylliant a'n gweithrediadau bob dydd. A thrwy weithio gyda'n gilydd ledled yr elusen, gallwn gyflymu ein taith tuag at ddyfodol mwy cynaliadwy a sbarduno newid ystyrlon a pharhaol.

| | 2024/25 | | 2023/24 | |
|---|---|---|---|---|
| **Math o ynni** | **Defnydd** | **Allyriadau** ($tCO_2e$) | **Defnydd** | **Allyriadau** ($tCO_2e$) |
| Nwy (kWh) | 5,697,993 | 1,042.2 | 5,401,345 | 988.1 |
| Trydan (kWh) | 2,068,932 | 428.4 | 2,543,322 | 526.6 |
| Fflyd (litrau) | 93,837 | 219.1 | 80,169 | 195 |
| Cyfanswm Allyriadau Cwmpas 1 a 2 | | **1,689.7** | | **1,709.7** |
| Cwmpas 3 (cerbydau nad ydynt yn eiddo i'r cwmni) | | 672.7 | | Not reported |
| **Cyfanswm allyriadau** | | **2,362.4** | | **1,709.7** |
| Metrig Dwyster: **$tCO_2e$/£m income** | | **10.5** (14.7 gan gynnwys Cwmpas 3) | | **11.0** |

*Mae'r ffigurau yn ein hadroddiad Climate Essentials yn cynnwys ein heiddo gweithredol ac asedau nad ydynt yn cael eu rheoli a ddefnyddir gan bartïon allanol.*

*Mae Cwmpas 1 yn cynnwys allyriadau uniongyrchol (e.e. nwy, fflyd sy'n eiddo i ni).*
*Mae Cwmpas 2 yn cynnwys allyriadau anuniongyrchol o drydan.*
*Mae Cwmpas 3 yn cynnwys yr holl allyriadau anuniongyrchol eraill.*

*Mae'r ffigurau a ddangosir yma ar gyfer 2023/24 yn wahanol i'r rhai a gynhwyswyd gennym yn adroddiad y llynedd. Mae hyn oherwydd camgyfrif ein defnydd o drydan a nwy a'n hallyriadau, ac rydym yn cywiro hyn yn adroddiad eleni. Yn gadarnhaol, mae'r ffigurau cywir hyn yn dangos ein bod yn cael llai o effaith amgylcheddol, diolch i fentrau fel cynyddu'r defnydd o oleuadau LED a gwella arferion rheoli ynni.*

# Ein ffocws ar gyfer 2025/26

**Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi bod yn adolygu ein strategaeth er mwyn i ni allu diwallu anghenion plant a theuluoedd yn well ac addasu i'r amgylchedd yr ydym yn gweithredu ynddo, sy'n newid o hyd. Byddwn yn lansio'r strategaeth wedi'i diweddaru yn 2025.**

Yn y cyfamser, byddwn yn parhau i weithio tuag at ein nodau drwy flaenoriaethu'r gweithgareddau canlynol yn ystod y 12 mis nesaf:

- Parhau i gynyddu ein heffaith drwy gysoni ein blaenoriaethau twf a dylanwadu â'n huchelgeisiau newydd.
- Datblygu ac agor mwy o gartrefi plant yn ein rhaglen twf preswyl.
- Opsiynau cwmpasu i ddisodli ein System Cofnodi Canlyniadau Plant er mwyn nodi a thynnu sylw at ein heffaith yn well.
- Datblygu ein cynllun cyfranogi - gan gynnwys penodi Llysgenhadon Ifanc newydd i barhau â gwaith llwyddiannus y rheini sy'n ein gadael.
- Gwreiddio ein strategaeth a'n cynllun gweithredu Amrywiaeth a Chynhwysiant diwygiedig.
- Ymhelaethu ar stori ein brand i wneud yn siŵr bod mwy o bobl yn cydnabod ac yn ymgysylltu â'n gwaith hanfodol.
- Archwilio ffyrdd newydd o godi arian ac amrywio ein hincwm.
- Defnyddio ein galluoedd digidol i ddod o hyd i ffyrdd newydd o fod yn fwy effeithlon, cefnogi ein gwasanaethau a datblygu cyfleoedd codi arian newydd i fod yn fwy effeithlon, cefnogi ein gwasanaethau drwy ddulliau digidol a lansio ffyrdd newydd o godi arian.
- Gwreiddio ein Tîm Gwelliant Parhaus newydd i'n helpu i fod yn fwy effeithlon.



# Adolygiad **ariannol**

**Mae ein gweithgarwch yn 2024/25 wedi ein helpu i sicrhau cyfanswm incwm o £163.4 miliwn (2023/24: £155.3 miliwn), £8.1 miliwn yn fwy na'r flwyddyn flaenorol. Roedd ein cyfanswm gwariant hefyd yn fwy, sef £163.0 miliwn (2023/24: £161.0 miliwn) – cynnydd o £2.0 miliwn ers y flwyddyn flaenorol.**

O ganlyniad, ein gwarged net ar gyfer y flwyddyn, cyn symudiadau prisiad pensiynau a buddsoddiadau, oedd £0.4 miliwn (2023/24: diffyg o £5.7 miliwn).

Roedd y gwarged net yn unol â'n cyllideb. Mae'n adlewyrchu buddsoddiadau arfaethedig yn ein prosiectau blaenoriaeth - yn enwedig tyfu gwasanaethau preswyl a thechnoleg newydd er mwyn i ni allu gweithio'n fwy effeithlon. Roedd ein sefyllfa weithredu sylfaenol, ac eithrio'r buddsoddiadau hyn, yn dangos gwarged gweithredu bach ar gyfer y flwyddyn. Rydym yn gwrthbwyso pwysau cost sylweddol o godiadau cyflog a chwyddiant drwy gynyddu ein hincwm a lleihau gwariant nad yw'n ymwneud â chyflogau lle bo angen.

## Ein hincwm a gwariant

Yn 2024/25 cynhyrchwyd cyfanswm incwm o £163.4 miliwn (2023/24: £155.3 miliwn). Rydyn ni'n arbennig o falch o adrodd am berfformiad da ar draws yr holl feysydd sy'n cynhyrchu incwm, er gwaethaf heriau cyllido ehangach. Cyfanswm ein gwariant elusennol oedd £155.6 miliwn (2023/24: £154.3 miliwn). Fel y rhan fwyaf o sefydliadau, roedd codiadau prisiau wedi cynyddu ein gwariant. Ond llwyddwyd i reoli'r rhain i orffen y flwyddyn mewn sefyllfa sefydlog.

## Rhoddion a chymynroddion

Rydym yn ddiolchgar drwy'r amser am haelioni a theyrngarwch ein cefnogwyr a'n partneriaid sy'n ein helpu i weithredu dros blant. Yn 2024/25, fe wnaethom godi £17.9 miliwn mewn incwm gwirfoddol o roddion a chymynroddion. O hyn, roedd £12.2 miliwn (2023/24: £12.4 miliwn) yn incwm anghyfyngedig ac roedd £5.7 miliwn (2023/24: £4.8 miliwn) wedi'i gyfyngu i raglenni penodol fel ein Cronfa'r Teulu, gwyliau byr ar gyfer anabledd a phlant mewn gofal.

Yn gyffredinol, roedd 2024/25 yn flwyddyn gymysg ar gyfer codi arian. Roedd y twf mewn incwm cyfyngedig a sbardunwyd gan ein prif bartneriaeth gorfforaethol newydd gyda Nationwide yn cael ei gydbwyso â gostyngiad o 28% (£1.18 miliwn) yng ngwerth rhoddion cymynrodd. Cafodd hyn effaith sylweddol ar ein hincwm anghyfyngedig (£12.2 miliwn) a ddaeth â'r flwyddyn i ben £1.2 miliwn o dan y gyllideb. Dyma chweched flwyddyn ein hymgyrch codi arian flaenllaw, Siôn Corn Cudd, a gododd £2.4 miliwn (2023/24: £1.48 miliwn) ac ail flwyddyn ein Gala Dan y Sêr. Fe wnaethom hefyd gynnal rhai digwyddiadau gwerth uchel a dorrodd record, gan gynnwys 20 mlynedd ers sefydlu Never Mind the Business yn Glasgow a'r Ultimate News Quiz, a gododd £0.4 miliwn.

Cyfanswm ein gwariant ar godi arian oedd £7.4 miliwn (2023/24: £6.7 miliwn) a £0.4 miliwn o hyn oherwydd ailddosbarthu rhai gweithgareddau a oedd wedi'u cynnwys yn flaenorol mewn costau cymorth.

Roedd ein hincwm cyffredinol £0.9 miliwn o dan y gyllideb (-6.1%) gyda diffyg o £1.2 miliwn yn erbyn ein targed incwm anghyfyngedig. Bu i ymgyrchoedd codi arian sicrhau cyfraniad anghyfyngedig net o £7.1 miliwn (2023/24: £7.4 miliwn).

## Ein gweithgareddau elusennol

Eleni, fe wnaethom gynhyrchu £143.9 miliwn o incwm drwy ein gwasanaethau craidd: cymorth i deuluoedd, plant mewn gofal, plant anabl, ac iechyd meddwl a lles. Mae hyn £7.7 miliwn yn fwy na'r llynedd. Gwnaethom gyflawni hyn drwy ein newidiadau strategol arfaethedig i ofal preswyl a gwaith caled ein gweithlu ymroddedig a brwd.

Rydym wedi parhau i gynyddu nifer ein cartrefi i blant er mwyn sicrhau bod gan rai o'r plant mwyaf agored i niwed gartref diogel, sefydlog a chariadus. Fe wnaethom agor un cartref newydd i blant a phobl ifanc yn 2024/25 a gwelsom gynnydd sylweddol mewn incwm ar draws y cartrefi a agorwyd gennym yn 2023/24. Sbardunodd hyn £6.2 miliwn o gynnydd mewn incwm o'n cartrefi y llynedd. Rydym yn rhagweld cynnydd pellach yn 2025/26 wrth i ni barhau â'n rhaglen twf preswyl.

Roedd ein gwariant elusennol eleni yn £155.6 miliwn - £1.3 miliwn yn fwy na'r flwyddyn flaenorol, wedi'i yrru'n bennaf gan ddau ffactor. Yn gyntaf, chwyddiant mewn costau cyfleustodau a'r Cyflog Byw Gwirioneddol, ac yn ail y costau sy'n gysylltiedig â pharatoi a staffio ein cartrefi newydd ar gyfer archwiliadau cyn agor. Mae hyn yn golygu bod angen i ni wario'n sylweddol cyn i blant symud i mewn.

Roedd incwm o'n meithrinfeydd a'n clybiau y tu allan i oriau ysgol wedi gostwng ychydig i £15.7 miliwn yn 2024/25 (2023/24: £16.6 miliwn). Yn ystod y flwyddyn, gwnaethom y penderfyniad i adael pum meithrinfa a saith clwb y tu allan i oriau ysgol nad oeddent bellach yn ariannol hyfyw i ni eu cynnal. Mae'r gwasanaethau hyn wedi cael eu trosglwyddo i ddarparwyr eraill. Er gwaethaf cynnydd mewn chwyddiant, yn enwedig mewn cyflogau ac ar gyfer eiddo, mae ein gwariant wedi gostwng wrth i ni leihau ein portffolio. Cyfanswm ein gwariant oedd £14.7 miliwn yn 2024/25 (2023/24: £16.6 miliwn) gan arwain at gyfanswm cyfraniad o £1 miliwn yn 2024/25 (2023/24: £0 miliwn).

## Ein mantolen

Roedd cyfanswm ein cronfeydd ar ddiwedd y flwyddyn yn uwch na'r flwyddyn flaenorol, sef £76.3 miliwn (2023/24: £75.6 miliwn). Gostyngodd ein cronfeydd anghyfyngedig i £68.7 miliwn (2023/24: £70.5 miliwn). Yn gyffredinol, mae £54.0 miliwn o'n cronfeydd anghyfyngedig naill ai wedi'u dynodi neu'n gysylltiedig ag asedau sy'n cefnogi ein gweithgareddau. Mae hyn yn gadael £14.7 miliwn (2023/24: £16.1 miliwn) yng nghronfeydd rhydd ein helusen. Roedd ein hasedau sefydlog ychwanegol yn ystod y flwyddyn yn £3.5 miliwn. Cyfanswm ein balans arian parod ar ddiwedd y flwyddyn oedd £11.1 miliwn gyda £9.8 miliwn o hyn yn cael ei roi ar adneuon rhybudd er mwyn cynyddu'r llog rydym yn ei ennill ar arian parod dros ben.

Rydym yn cynnwys ein Llysgenhadon Ifanc ym mhob penderfyniad allweddol, gan gynnwys dewisiadau ariannol. Y llynedd, cynhaliodd ein Pennaeth Cyllid sesiwn llawn gwybodaeth am sut rydym yn cael ein hariannu er mwyn i bobl ifanc allu deall a dylanwadu ar ein blaenoriaethau ariannol.

Nothing about me, without me

## Is-gwmnïau masnachu ac elusennau cysylltiedig

Mae'r is-gwmnïau masnachu hyn hefyd wedi'u cyfuno i ganlyniadau ariannol Grŵp Gweithredu dros Blant:

**1.** Mae **Action for Children Services Limited** (rhif y cwmni 2332388) yn darparu gwasanaethau lles ac addysg. Rhoddir contractau newydd gydag awdurdodau lleol drwy'r cwmni. Cynyddodd trosiant 5.35% yn 2024/25 i £73.4 miliwn. Gwnaeth y cwmni elw o £2.2 miliwn (2023/24: £1.7 miliwn). Bydd Cymorth Rhodd yn cael ei dalu i Gweithredu dros Blant fel nad oes treth gorfforaeth yn ddyledus.

**2.** Mae **Action for Children Developments Limited** (rhif y cwmni 6842765) yn gwmni cyfyngedig drwy warant. Mae'n gofalu am fasnachu, trafodion eiddo a datblygiadau eraill sy'n cefnogi cenhadaeth Gweithredu dros Blant. Mae’r cwmni hefyd yn rhedeg meithrinfeydd i blant o dan yr enw masnachu ‘Spring’. Gwnaeth y cwmni elw o £0.8 miliwn (2023/24: colled o £0.1 miliwn). Bydd Cymorth Rhodd yn cael ei dalu i Gweithredu dros Blant fel nad oes treth gorfforaeth yn ddyledus.

**3.** Mae **Out Of School Scotland Limited (OSCARS)** (rhif y cwmni SC264619) yn is-gwmni sy'n darparu clybiau ar ôl ysgol, clybiau brecwast a gwersylloedd gwyliau. Gwnaeth y cwmni elw o £0.2 miliwn (2023/24: £0.1 miliwn). Bydd Cymorth Rhodd yn cael ei dalu i Gweithredu dros Blant fel nad oes treth gorfforaeth yn ddyledus.

## Ein cronfeydd wrth gefn

Mae'r Ymddiriedolaeth Cronfeydd Elusennau a chyfraith elusennau yn mynnu ein bod yn cyflwyno ein cronfeydd yn y categorïau canlynol:

Cronfeydd cyfyngedig, sy'n cynnwys rhoddion ac incwm arall na ellir ond eu defnyddio at ddibenion penodol. Ar 31 Mawrth 2025, roedd ein cronfeydd diben penodol yn £7.5 miliwn (2023/24: £5.1 miliwn).

Cronfeydd anghyfyngedig o £68.8 miliwn (2023/24: £70.5 miliwn) yw ein cronfa gyffredinol. Mae rhan o hyn wedi'i gategoreiddio fel cronfeydd dynodedig, gyda'r gweddill heb eu dynodi.

Mae cyllid dynodedig o £27.5 miliwn (2023/24: £26.8 miliwn) yn cynrychioli cronfa gyfalaf sy'n cyfateb i werth net ar bapur asedau sefydlog a ddefnyddir i gefnogi gwaith gweithredol. Mae yna gronfa asedau arwystl hefyd sy'n cynrychioli gwerth marchnadol y buddsoddiadau hynny y mae gan y gronfa bensiwn arwystl o £20.2 miliwn arnynt (2023/24: £20.2 miliwn). Cyfanswm gwerth yr asedau a arwystlir i'r gronfa bensiwn yw £40.0 miliwn. Dyma werth y gronfa asedau arwystl o £20.2 miliwn ynghyd ag eiddo gweithredol yn y gronfa gyfalaf sydd â gwerth marchnadol o £19.8 miliwn. Mae'r hen gronfa waddol o £6.4 miliwn wedi'i dynodi i gefnogi ein rhaglen twf preswyl. Mae'r gronfa gyffredinol o £14.7 miliwn heb ei dynodi ac mae'n rhan o gronfeydd rhydd ein helusen. Mae ein cronfa bensiwn yn cynrychioli'r gwahaniaeth rhwng gwerthoedd teg rhwymedigaethau ac asedau pensiwn ar sail FRS 102. Fodd bynnag, nid yw'r gwarged hwn yn cael ei gydnabod yn ein cyfrifon oherwydd ni ellir ei ryddhau'n ôl ar sail ddiamod. Yn 2023/24, roedd rhwymedigaeth o £551,000 a gafodd ei chydnabod yn y cyfrifon.

Mae ein Cyd-bwyllgor Cyllid, Archwilio a Risg yn adolygu ein polisi cronfeydd wrth gefn a lefel y cronfeydd rhydd bob blwyddyn. Mae hyn i'w weld yn y datganiadau ariannol fel y gronfa gyffredinol a’r gronfa gwerth teg, ac eithrio’r cronfeydd dynodedig. Yna, bydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr yn cymeradwyo’r adolygiad. Rydym yn defnyddio dull gwerthuso risg - gan bennu tebygolrwydd costau, rhwymedigaethau a risgiau posibl yn y dyfodol - i gyfrifo'r cronfeydd cyffredinol sydd eu hangen. Mae hyn yn seiliedig ar y cynllun busnes a’r cynllun ariannol diweddaraf. Mae'r risgiau'n cynnwys

colli incwm gan bartneriaid a rhoddion gwirfoddol a newidiadau i gostau. Mae'r ymddiriedolwyr yn ymdrechu i sicrhau bod gennym ddigon o gronfeydd cyffredinol i warchod sefydlogrwydd ariannol Gweithredu dros Blant. Mae hyn yn rhoi rhwyd ddiogelwch i ni os bydd angen i ni ailgydbwyso incwm a gwariant.

Gan ystyried ein cynlluniau strategol, amodau economaidd ac amodau'r farchnad, rydym yn bwriadu dal cronfeydd cyffredinol, heb gynnwys cronfeydd dynodedig, ar lefel uwch na'r lefel bresennol o £14.7 miliwn. Dylai isafswm targed y cronfeydd rhydd mewn cyfnod o ddim buddsoddiadau fod yn £16 miliwn. Rydym yn cydnabod ein bod mewn cyfnod buddsoddi ar hyn o bryd oherwydd ein rhaglen breswyl a'n buddsoddiadau mewn technoleg. Rydym wedi cytuno ar gynllun gyda'n hymddiriedolwyr i ddychwelyd i'n cronfeydd targed wrth i ni symud allan o'r cyfnod buddsoddi hwn. Gyda chronfeydd rhydd ein helusen yn £14.7 miliwn, mae'r ymddiriedolwyr yn dal yn hyderus y bydd gennym ddigon o gronfeydd wrth gefn i fodloni gofynion yn y dyfodol. Wrth i ni symud allan o'n cyfnod buddsoddi, mae gennym hefyd ragor o gamau lliniaru ar gael i ni os nad ydym yn cyrraedd ein targed ar gyfer cronfeydd wrth gefn. Mae'r rhain yn cynnwys gwerthu rhagor o eiddo, defnyddio gweddill ein cronfeydd gwaddol a gohirio neu oedi gwariant buddsoddi. Mae ein cynllun ariannol a'n polisi cronfeydd wrth gefn yn cynnwys costau cyfraniadau i gronfeydd pensiwn. Mae'r datgeliad cyfrifyddu sy'n ofynnol ar gyfer rhwymedigaethau pensiwn wedi'i gynnwys yn y fantolen. Gallwch ddod o hyd iddo yn nodyn 6.

## Ein buddsoddiadau

Mae ein buddsoddiadau'n darparu'r cronfeydd wrth gefn sydd eu hangen i reoli datblygiadau, risgiau ac ansicrwydd yn y dyfodol. Un o'n prif amcanion yw cadw model dyrannu asedau sy'n cyfateb amseriad rhwymedigaethau posibl, o fewn cronfeydd wrth gefn, ag asedau buddsoddi priodol. Mae ein polisi buddsoddi a'n datganiad o egwyddorion buddsoddi yn seiliedig ar y model hwn a chafodd ei adolygu a'i ddiweddaru yn 2021/22. Rheolir ein holl fuddsoddiadau gan Fwrdd Cyllid Canolog (CFB) yr Eglwys Fethodistaidd. Rheolir y cyfrifon hyn yn unol â mandadau annibynnol sy'n briodol i'w hamcanion ariannol ar wahân. Maen nhw'n defnyddio dull buddsoddi moesegol sy'n cyd-fynd â'n cenhadaeth a'n gwerthoedd. Mae dull gweithredu'r Bwrdd Cyllid Canolog yn gwahardd cwmnïau sy'n cael eu hystyried yn amhriodol, fel y rheini sy'n ymwneud ag alcohol, tybaco, pornograffi ac arfogaeth, neu'r rheini sy'n defnyddio llafur plant. Maen nhw'n gweithio'n agos gyda sefydliadau eglwysig eraill i gynyddu'r dylanwad sydd ganddyn nhw ar y cwmnïau maen nhw'n buddsoddi ynddyn nhw. Mae'r Bwrdd Cyllid Canolog hefyd yn cydymffurfio â Chod Stiwardiaeth y DU y Cyngor Adrodd Ariannol. Mae ein pwyllgor buddsoddi yn gwneud penderfyniadau ac yn mesur perfformiad cronfa'r Bwrdd Cyllid Canolog yn erbyn meincnod y cytunwyd arno.

Mae cronfeydd dewisol Gweithredu dros Blant yn cael eu rheoli ar lwyfan buddsoddi sydd wedi'i rannu'n ddau fandad buddsoddi penodol: Cronfa Gyffredinol ac Asedau Wrth Gefn.

Mae'r enillion targed hirdymor, y mesurir y buddsoddiadau yn eu herbyn, yn seiliedig ar chwyddiant. Yr elw targed ar gyfer cyfrif y Gronfa Gyffredinol yw Mynegai Prisiau Defnyddwyr (CPI) +3% a CPI + 1% ar gyfer cyfrif yr Asedau Wrth Gefn. Mesurir y rhain yn net o ffioedd ac fe'u cyfrifir yn flynyddol dros gyfnod treigl o bum mlynedd. Mae'r buddsoddiadau hefyd yn parhau i gael eu mesur yn erbyn eu mynegeion ARC priodol. Roedd cyfrif y Gronfa Gyffredinol wedi tanberfformio 0.5% yn erbyn mynegai Twf Cyson ARC ac roedd y cyfrif Asedau Wrth Gefn wedi tanberfformio 0.4% yn erbyn mynegai Twf Gofalus ARC yn ystod y cyfnod o 12 mis.

## Ein pensiynau

Mae Cronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant yn gynllun pensiwn hybrid. Mae'n cynnwys elfen cyfraniadau diffiniedig sydd wedi bod ar gael i weithwyr ymuno â hi ar unrhyw adeg. Caeodd yr elfen cyfraniadau diffiniedig hon ar gyfer y mwyafrif helaeth o weithwyr ar 31 Mawrth 2025 ac mae gweithwyr wedi cael mynediad at Standard Life Master Trust o 1 Ebrill 2025. Mae elfen buddion diffiniedig y cynllun presennol yn dal ar agor i weithwyr Gweithredu dros Blant yn Guernsey yn unig, gan nad oeddent yn gallu ymuno â Standard Life Master Trust. Mae gan ein helusen hefyd rwymedigaeth ariannu ar gyfer elfen buddion diffiniedig hanesyddol y cynllun.

Mae gwerth y gronfa bensiwn yn dangos sefyllfa o warged o £1.7m (2023/24: diffyg o £0.6 miliwn) ar sail FRS 102. Fodd bynnag, gan nad oes gan ein helusen hawl diamod i'r gwarged o'r prisiad hwn, nid yw wedi cael ei gydnabod yn ein datganiadau ariannol.

Mae prisiad FRS 102 yn cael ei lywodraethu gan ofynion datgelu cyfrifyddu ac mae'n wahanol i'r prisiad actwaraidd tair blynedd a gwblhawyd ddiwethaf ar 31 Mawrth 2024.

Yn y prisiad tair blynedd ar 31 Mawrth 2024, roedd y gwarged pensiwn yn £3.9 miliwn, sef lefel cyllid o 101%. Fodd bynnag, rydym yn bod yn fwy gofalus wrth gytuno ar ofynion cyfraniadau. Mae hyn yn lleihau'n sylweddol y risg buddsoddi y mae'r gronfa bensiwn yn agored iddi. Mae hefyd yn gwella diogelwch buddion aelodau ac yn rhoi gwell amddiffyniad i'n helusen rhag risgiau cyllido yn y dyfodol. Rydyn ni'n galw hyn yn ddull 'targed cynaliadwy'.

O dan y targed cynaliadwy ar 31 Mawrth 2024, roedd diffyg o £23.9 miliwn, sy'n cynrychioli lefel cyllid o 95%. Yn ystod y 15 mlynedd diwethaf rydym wedi bod yn talu cyfraniadau lleihau diffyg bob blwyddyn, fel y cytunwyd gydag ymddiriedolwyr y gronfa bensiwn. Yn 2024/25, y

taliad oedd £1.33 miliwn yn unol â nodyn 6. Cytunwyd ar gynllun adfer diffyg diwygiedig fel rhan o brisiad tair blynedd 2024. Bydd hyn yn golygu cyfraniadau adfer diffyg o £0.5 miliwn y flwyddyn ar gyfer y ddwy flynedd 2025/26 a 2026/27, a fydd yn cynyddu i £1 miliwn y flwyddyn o 1 Ebrill 2027 ymlaen.

## Busnes hyfyw

Roeddem yn wynebu amgylchedd gweithredol heriol iawn yn ystod y flwyddyn ariannol a oedd yn parhau i roi pwysau ar ein gweithgareddau a'n gwasanaethau. Er gwaethaf hyn, cawsom warged net (ar ôl buddsoddiadau ac addasiadau i symudiadau pensiwn) o £0.7 miliwn (2023/24: colled o £5.2 miliwn). Mae ein Tîm Arwain Gweithredol yn gweithio'n agos gyda Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i fonitro ein sefyllfa ariannol yn rheolaidd, yn enwedig o ystyried ein sefyllfa arian parod a'r effaith ar gronfeydd. Mae'r ymddiriedolwyr yn parhau i gredu bod y grŵp a'i endidau yn fusnes hyfyw ac felly mae'r sail busnes hyfyw yn briodol ar gyfer paratoi'r Adroddiad a'r Cyfrifon Blynyddol. Paratowyd papur yn nodi dull gweithredu'r ymddiriedolwyr a'r rhesymeg dros yr asesiad hwn.

Wrth benderfynu ar yr asesiad hwn, mae'r ymddiriedolwyr wedi ystyried y ffactorau, y risgiau a'r ansicrwydd a allai effeithio ar weithrediadau'r grŵp yn y flwyddyn nesaf. Mae'r asesiad hwn yn cael ei ategu gan waith modelu ariannol manwl, gan gynnwys cynlluniau ariannol 2025/26 a 2026/27, dadansoddiad o sensitifrwydd, a mesur risgiau posibl ar gyfer cronfeydd wrth gefn y grŵp a sefyllfaoedd hylifedd.

Mae amcanestyniadau ariannol Gweithredu dros Blant yn cael eu hadlewyrchu yng nghyllideb 2025/26 y grŵp a'r rhagolwg dangosol ar gyfer 2026/27. Mae'r gyllideb weithredu ar gyfer 2025/26 wedi'i mantoli. Er eu bod yn cydnabod y risgiau o ran cyflawni alldro'r gyllideb wedi'i mantoli, mae'r ymddiriedolwyr yn credu bod y gyllideb yn adlewyrchu sefyllfa 'tir canol'. Mae'n cydbwyso risgiau hysbys yn erbyn uchelgeisiau'r grŵp a chyfleoedd ar gyfer twf.

Mae cronfeydd anghyfyngedig a balansau arian parod grŵp elusen Gweithredu dros Blant yn iach, gyda balans cyfunol arian parod a chyfwerth ag arian parod o £11.1 miliwn ar 31 Mawrth 2025 (2023/24: £12.9 miliwn). Mae cronfeydd cyfyngedig y Grŵp yn £7.5 miliwn (2023/24: £5.1 miliwn) gyda chronfeydd anghyfyngedig y grŵp yn £68.7 miliwn (2023/24: £70.5 miliwn). Roedd y llif arian gwirioneddol wedi gostwng yn unol â buddsoddiadau prosiect a ariannwyd gan gronfeydd wrth gefn a'r gwariant cyfalaf a gynlluniwyd. Mae'r rhagolwg dangosol a baratowyd ar gyfer 2026/27 yn cwmpasu'r cyfnod ar ôl mis Mawrth 2026 hyd at 12 mis o'r dyddiad y disgwylir i'r datganiadau ariannol gael eu llofnodi. Mae'n dangos rhagolwg ariannol gwell gyda chyfraniadau cynyddol ar draws ffrydiau incwm.

Nid oes risgiau sylweddol wedi'u nodi yn 2026/27 a fyddai'n effeithio ar yr asesiad busnes hyfyw. Felly, mae'r asesiad hwn yn canolbwyntio ar 2025/26. Os bydd risgiau'n dod i'r amlwg yn ystod y flwyddyn ariannol bresennol, rydym yn disgwyl y byddai'r rhain yn cael sylw ac y byddai cyllidebau 2026/27 yn cael eu haddasu i sicrhau ein cynaliadwyedd ariannol parhaus. I grynhoi, ar sail y cyllidebau a'r rhagolygon llif arian a baratowyd, a chronfeydd wrth gefn iach a balansau arian parod y grŵp, mae'r sail busnes hyfyw ar gyfer paratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

# Rheoli risg

**Mae amddiffyn plant a phobl ifanc wrth galon ein gwaith. Oherwydd natur ein gwasanaethau ac anghenion cymhleth y rhai rydym yn eu cefnogi, mae diwylliant diogelu cryf a fframwaith rheoli risg cadarn yn hanfodol.**

Mae ein Bwrdd Ymddiriedolwyr yn adolygu ac yn monitro ein fframwaith rheoli risg i wneud yn siŵr bod ein dull gweithredu yn caniatáu i ni ddarparu ein gwasanaethau'n ddiogel a chyflawni ein hamcanion strategol.


## Ein dull o reoli risg

Mae ein dull gweithredu yn seiliedig ar ein gwerthoedd a'n Cod Ymddygiad, sy'n nodi'r hyn a ddisgwylir gan bawb sy'n gweithio gyda Gweithredu dros Blant. Rydym yn integreiddio risg yn ein polisïau a'n gweithdrefnau er mwyn i ni allu nodi a rheoli risgiau'n effeithiol a gwneud yn siŵr bod pawb yn deall eu cyfrifoldeb am risg yn eu rolau o ddydd i ddydd.

Rydym yn cael ein harwain gan arferion gorau fel y nodir gan y Sefydliad Rheoli Risg ac ISO 31000, gan ddilyn egwyddorion rheoli risg 'PACED' yn ogystal â safonau rheoleiddio perthnasol. Mae hynny'n cynnwys y canllawiau ar Elusennau a Rheoli Risg (CC26).

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi canolbwyntio ar gryfhau ein fframwaith rheoli risg, sy'n sbarduno'r gwaith o nodi, asesu, rheoli ac adrodd ar ein risgiau'n gyson.

**Proses rheoli risg**




## Atebolrwydd clir

Diffinnir rolau a chyfrifoldebau yn ein Polisi Rheoli Risg. Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol yn y pen draw am reoli risg.

Mae'r Pwyllgor Archwilio a Risg yn cefnogi'r Bwrdd gyda'i gyfrifoldebau, gan ddarparu goruchwyliaeth ac argymhellion ar effeithiolrwydd y rhaglen Archwilio Mewnol a delio â risg yn ymarferol.

## Mynegi pryderon

Rhan allweddol o reoli risg a chynnal safonau gwasanaeth uchel yw sicrhau bod pawb yn cael eu hannog i fynegi eu pryderon. Rydym yn hyrwyddo diwylliant cyson o foeseg ar draws ein sefydliad.

Mae systemau adrodd canolog yn darparu llwybrau clir ar gyfer nodi a rheoli materion pan fyddant yn codi, ac ar gyfer dysgu sut i wella ein harferion.

## Sganio'r gorwel

Mae monitro tueddiadau cyfredol a rhai sy'n dod i'r amlwg yn barhaus yn ein galluogi i gynnal dealltwriaeth gref o'n hamgylchedd risg. Rhaid i ni fod yn wyliadwrus o'r heriau sy'n wynebu'r sector elusennol cyfan. Mae hyn yn cynnwys cadernid ariannol oherwydd costau cynyddol, llai o gyllid a gofynion uwch, ynghyd â gostyngiad mewn lefelau gwirfoddoli.

Mae monitro parhaus ac adolygiadau risg chwarterol yn cefnogi'r broses o wneud penderfyniadau gan ymddiriedolwyr a swyddogion gweithredol, yn ogystal â blaenoriaethu a dyrannu adnoddau'n effeithiol er mwyn rheoli a lliniaru ein risgiau.

## Gwelliant parhaus

Mae mentrau allweddol i'n helpu i feithrin ein cydnerthedd a'n parodrwydd yn cynnwys:

– Cyflawni prosiect Sefydliad Optimaidd i sicrhau bod yr adnoddau iawn yn y llefydd iawn.

– Creu Cyfarwyddiaeth Trawsnewid a rhwydwaith Hyrwyddwyr Newid.

– Amnewid systemau cyllid ac adnoddau dynol etifeddol.

## Prif risgiau

Isod dangosir y prif risgiau i'n hamcanion strategol. Bwrdd yr Ymddiriedolwyr sy'n goruchwylio'r gwaith o reoli pob risg yn y pen draw, ac rydym wedi dangos lle mae gan Is-bwyllgorau'r Bwrdd gyfrifoldebau goruchwylio ychwanegol.

| Risg | Mae'r mesurau lliniaru'n cynnwys | Atebolrwydd a goruchwyliaeth |
|---|---|---|
| **Diogelu**<br>Efallai y bydd plant a phobl ifanc rydyn ni'n eu cefnogi yn dioddef niwed o ganlyniad i'n gweithredoedd neu ddiffyg gweithredu. | - Tîm Diogelu pwrpasol dan arweiniad y Cyfarwyddwr Diogelu, sy'n adrodd yn uniongyrchol i Reolwr Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Plant a'n hymddiriedolwyr diogelu dynodedig.<br>- Fframwaith diogelu cynhwysfawr gan gynnwys polisïau, gweithdrefnau, mecanweithiau adrodd a chanllawiau clir.<br>- Rheolaethau llym a strwythurau goruchwylio sy'n ymwneud â goruchwylio staff sy'n gweithio gyda phlant, gyda chefnogaeth ein tîm Diogelu a gweithdrefnau 'recriwtio mwy diogel'.<br>- Y grŵp Diogelu yn goruchwylio gweithgareddau diogelu, sy'n cael ei gadeirio gan ein Prif Swyddog Gweithredol ac sy'n cael ei fynychu gan ein hymddiriedolwyr diogelu dynodedig<br>- Mae Adroddiadau Dangosydd Rhybudd Cynnar yn ein helpu i leihau digwyddiadau difrifol.<br>- Mae gweithdrefnau chwythu'r chwiban a digwyddiadau difrifol yn sicrhau bod ymchwiliad priodol yn cael ei gynnal i unrhyw ddigwyddiadau difrifol sy'n digwydd, a bod gwersi'n cael eu dysgu ohonynt.<br>- Sicrwydd annibynnol drwy archwiliad mewnol cyfnodol o reolaethau diogelu allweddol.<br>- Hyfforddiant diogelu gorfodol ffurfiol ar gyfer pob gweithiwr ac ymddiriedolwr, wedi'i ategu gan sesiynau holi ac ateb misol ar ddiogelu ar gyfer yr holl staff.<br>- Cyflwyno adolygiad diogelu blynyddol i'r Bwrdd i sicrhau bod y gwersi a ddysgwyd yn cael eu cofnodi. | **Yn atebol:**<br>Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Plant<br>**Dan oruchwyliaeth:**<br>Pwyllgor Gwasanaethau Plant |
| **Pobl a galluoedd**<br>Risg o fethu denu, recriwtio a chadw digon o staff a sgiliau, gan arwain at fylchau o ran gallu a chapasiti a allai atal ein hamcanion a'n gwasanaethau rhag cael eu cyflawni. | - Fframwaith cadarn o bolisïau, prosesau, adnoddau, rhwydweithiau staff cynhwysfawr i gefnogi staff a'u dysgu a datblygiad.<br>- Swyddogaeth recriwtio mewnol ar adroddir ar ddangosyddion perfformiad allweddol clir i'r Grŵp Llywio Recriwtio, Tîm Arwain Gweithredol a diweddariadau i'r Pwyllgor Gwasanaethau Plant, y Pwyllgor Llywodraethu, Pobl a Thaliadau a'r Bwrdd.<br>- Gwerthusiadau perfformiad rheolaidd, rhaglen hyfforddi gynhwysfawr, a Fframwaith Cymhwysedd Rheolwyr ac adnoddau i gefnogi datblygiad staf. | **Yn atebol:**<br>Prif Swyddog Pobl<br>**Overseen by:**<br>Y Pwyllgor Llywodraethu, Pobl a Thaliadau |

| Risg | Mae'r mesurau lliniaru'n cynnwys | | Atebolrwydd a goruchwyliaeth |
|---|---|---|---|
| **Cynaliadwyedd ariannol**<br>Risg o fethu â chyflawni cynaliadwyedd ariannol hirdymor a/neu ddarparu gwasanaethau o safon gyda'r cyllid sydd ar gael.. | - Fframwaith rheoli ac adrodd ariannol cadarn ar waith i hwyluso rheoli gwariant, monitro hylifedd a sefyllfa ariannol a glynu wrth bolisi cronfeydd wrth gefn, a monitro ac adrodd yn barhaus ar berfformiad a llif datblygu busnes, gydag adolygiad rheolaidd o'n rhagolygon a'n tybiaethau. | - Strategaeth hirdymor i fynd i'r afael â'r diffyg mewn pensiwn erbyn 2029 a chyfyngu ar y risg negyddol i Gweithredu dros Blant mewn perthynas â'n hasedau a'n rhwymedigaethau pensiwn.<br>- Sicrwydd ynghylch ein sefyllfa ariannol, busnes hyfyw a rheolaethau ariannol drwy archwiliad allanol blynyddol ac archwilio mewnol sy'n seiliedig ar risg. | **Yn atebol:**<br>Prif Swyddog Ariannol<br>**Dan oruchwyliaeth:**<br>Y Pwyllgor Cyllid |
| **Mannau diogel**<br>Risg o fethu sicrhau amgylchedd diogel sy'n cydymffurfio i'n holl bobl a'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau. | - Timau Iechyd a Diogelwch ac Eiddo arbenigol sy'n cael eu goruchwylio gan ein Pwyllgor Iechyd a Diogelwch i gefnogi'r gwaith o reoli risg yn effeithiol a chadw pawb sy'n defnyddio ein gwasanaethau a'n hadeiladau yn ddiogel.<br>- Hyfforddiant iechyd a diogelwch blynyddol gorfodol i'r holl staff, gyda chyrsiau ychwanegol yn ofynnol ar gyfer rolau sydd â phroffil risg uwch. | - Adolygu dangosyddion perfformiad allweddol a diweddariadau iechyd a diogelwch yn y Pwyllgor Gwasanaethau Plant a goruchwylio adroddiadau iechyd a diogelwch yn chwarterol yn y Pwyllgor Archwilio a Risg.<br>- System adrodd iechyd a diogelwch i gofnodi asesiadau risg, digwyddiadau a damweiniau a fu bron â digwydd.<br>- Ymgysylltu â Gwasanaeth Tân Hampshire fel ein Prif Awdurdod Tân ac ymarfer tân o bryd i'w gilydd ym mhob eiddo preswyl. | **Yn atebol:**<br>Rheolwr Gyfarwyddwr Gwasanaethau Plant a'r Prif Swyddog Gweithredu<br>**Dan oruchwyliaeth:**<br>Pwyllgor Archwilio a Risg<br>Pwyllgor Gwasanaethau Plant |
| **Gwybodaeth a seiberddiogelwch**<br>Risg o fethiant sylweddol o ran diogelu data neu ddiogelwch gwybodaeth, gan gynnwys ymosodiad seiber, gan arwain at fynediad diawdurdod at ddata, tarfu ar weithrediadau, niwed i enw da a/neu golled ariannol. | - Mae strwythurau llywodraethu data a diogelwch gwybodaeth wedi cael eu sefydlu i reoli mesurau a chynlluniau diogelu data a diogelwch.<br>- Hyfforddiant blynyddol gorfodol ar Ddiogelwch gwybodaeth a diogelu data.<br>- Adolygu dangosyddion perfformiad allweddol diogelwch a diogelu data yn y Bwrdd Rheoli Gwybodaeth, gan adrodd yn chwarterol i'r Pwyllgor Archwilio a Risg. | - Mae gennym achrediad Cyber Essentials Plus ac mae ein mesurau diogelwch yn cynnwys Canolfan Gweithrediadau Diogelwch, profion hacio rheolaidd, System Rheoli Digwyddiadau Diogelwch, copïau wrth gefn o ddata, cywiro meddalwedd, a mabwysiadu egwyddorion diogelu drwy ddylunio i leihau bygythiadau. | **Yn atebol:**<br>Prif Swyddog Gweithredu<br>**Dan oruchwyliaeth:**<br>Pwyllgor Archwilio a Risg |

| Risg | Mae'r mesurau lliniaru'n cynnwys | | Atebolrwydd a goruchwyliaeth |
|---|---|---|---|
| **Cyflawni'r strategaeth**<br>Risk of resource prioritisation and/or operational infrastructure not aligning with and supporting delivery of Action for Children's mission and strategic goals. | - Mae nodau strategol wedi cael eu diffinio a'u cyfleu i'r holl staff.<br>- Mae cynlluniau busnes ar lefel sefydliadol ac mewn ardaloedd lleol yn nodi blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn i ddod ochr yn ochr â cherrig milltir a metrigau cysylltiedig.<br>- Mae cynnydd yn cael ei fonitro'n rheolaidd drwy'r Tîm Arwain Gweithredol a'r Bwrdd i sicrhau bod y ddarpariaeth ar y trywydd iawn. | - Mae gan brosiectau cynlluniau busnes â blaenoriaeth fforymau llywodraethu priodol, gyda goruchwyliaeth a'r gallu i uwchgyfeirio materion i'r Tîm Arwain Gweithredol.<br>- Mae'r broses gynllunio yn canolbwyntio ar y nodau strategol ac yn cynnwys asesiad o'r prif risgiau. | **Yn atebol:** Cyfarwyddwr Strategaeth a Gweithredu<br>**Dan oruchwyliaeth:** Pwyllgor Archwilio a Risg |
| **Enw da**<br>Risg o fethu â diogelu enw da'r elusen a/neu reoli effeithiau digwyddiadau difrifol neu uchel eu proffil ar enw da. | - Cynlluniau cyfathrebu yn ymgysylltu'n rhagweithiol, a negeseuon allweddol gyda phrif randdeiliaid, gan gynnwys Undebau Llafur, rhoddwyr, comisiynwyr a rheoleiddwyr, fel y Comisiwn Elusennau.<br>- Drwy reoli risgiau a sicrhau bod ein polisïau a'n gweithdrefnau yn gyfredol, yn cydymffurfio ac y glynir wrthynt, rydym yn ceisio lleihau'r risg o ddigwyddiadau a allai achosi niwed i enw da. | - Mae ein Fframwaith Moesegol yn diffinio set o egwyddorion moesegol sy'n cwmpasu'r holl weithgareddau a pholisïau i sicrhau eu bod yn cyd-fynd â gwerthoedd ein helusen.<br>- Mae'r Polisi Derbyn a Gwrthod Rhoddion yn craffu ar roddion mawr cyn eu derbyn.<br>- Mae'r Cod Ymddygiad a diwydrwydd dyladwy ar gyfer partneriaid allanol yn helpu i sicrhau cysondeb â gwerthoedd ein helusen.<br>- Mae gweithdrefn cyfathrebu mewn argyfwng o ran enw da yn helpu i lywio a rheoli risgiau difrifol i enw da wrth iddynt godi | **Yn atebol:** Rheolwr Gyfarwyddwr Incwm ac Ymgysylltu<br>**Dan oruchwyliaeth:** Pwyllgor Archwilio a Risg |

# Llywodraethu

**Mae ein Bwrdd Ymddiriedolwyr yn gyfrifol am lywodraethu, goruchwylio ein perfformiad a darparu cyfeiriad strategol.**

Rydym yn cael ein sbarduno gan ein hamcanion elusennol ac yn adrodd yn rheolaidd ar sut rydym yn gweithredu i wneud yn siŵr ein bod yn gwneud ein gorau i gefnogi plant, pobl ifanc a theuluoedd, dan arweiniad ein Cadeirydd, Sarika Patel, ein hymddiriedolwyr a'n Prif Swyddog Gweithredol, Paul Carberry.

Rydym yn monitro ein ffyrdd o weithio yn erbyn pob un o saith egwyddor y Cod Llywodraethu Elusennau (y 'Cod'). Dyma sut rydym yn sicrhau ein bod yn defnyddio'r arferion gorau presennol a'r safonau llywodraethu uchaf.

Rydym hefyd yn adolygu ein hamcanion strategol a'n cynnydd yn erbyn ein strategaeth yn rheolaidd, gydag ymddiriedolwyr yn cynnal sesiwn cynllunio strategol ddwywaith y flwyddyn.

## Ein Bwrdd Ymddiriedolwyr

Rydym wedi rhestru ein 10 ymddiriedolwr ar dudalen 81. Mae'r Bwrdd yn cyfarfod chwe gwaith y flwyddyn – a hefyd pan fo angen – ac mae'n ymweld â'n gwasanaethau i gael gwell dealltwriaeth o'r gwaith rydyn ni'n ei wneud a'r gwahaniaeth rydyn ni'n ei wneud i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Y llynedd, y ffigur presenoldeb cyfartalog ar gyfer cyfarfodydd ymddiriedolwyr oedd 95%.

Mae bod yn ymddiriedolwr yn swydd wirfoddol ac nid yw aelodau'n cael unrhyw wobrau na buddion gan Gweithredu dros Blant. Maen nhw'n cyfranogi oherwydd eu bod yn credu yn yr hyn rydyn ni'n ei wneud ac eisiau gwneud gwahaniaeth. Gallwch ddod o hyd i'r holl dreuliau a hawliwyd gan yr ymddiriedolwyr yn ein datganiadau ariannol.

## Effeithiolrwydd y Bwrdd

Rydym yn penodi pob ymddiriedolwr ar sail eu sgiliau a'u profiad a'u gallu i'n helpu i gyflawni ein hamcanion strategol.

Rydym yn dilyn proses benodi drylwyr sy'n cynnwys Pwyllgor Llywodraethu, Pobl a Thaliadau'r Bwrdd (GPR). Mae hyn yn cynnwys cyfweliadau gan bobl ifanc sy'n defnyddio ein gwasanaethau a gwiriadau diwydrwydd dyladwy.

Rydym bob amser yn ceisio denu ymgeiswyr amrywiol ac adlewyrchu amrywiaeth wrth recriwtio ymddiriedolwyr – gan gynnwys naw nodwedd warchodedig Deddf Cydraddoldeb 2010, yn ogystal â gwahanol gefndiroedd, profiadau bywyd, llwybrau gyrfa ac amrywiaeth barn. Mae GPR yn monitro ein hamrywiaeth, ac mae gan y Bwrdd hyrwyddwr ymddiriedolwyr penodol ar gyfer amrywiaeth a chynhwysiant. Roedd amrywiaeth yn rhan hanfodol o'r ymgyrch recriwtio ymddiriedolwyr a gynhaliwyd gan y Bwrdd yn ystod hydref 2024, a arweiniodd at benodiad newydd. Rydyn ni'n gweithio'n galed i greu a chynnal diwylliant mwy cynhwysol.

Penodir pob ymddiriedolwr am gyfnod adnewyddadwy o dair blynedd. Mae ymddiriedolwyr ac aelodau pwyllgor yn mynd drwy raglen gynefino i wneud yn siŵr eu bod yn deall eu rolau o dan gyfraith elusennau a chwmnïau.

At ddibenion Deddf Cwmnïau 2006, ein hymddiriedolwyr yw cyfarwyddwyr cwmni Gweithredu dros Blant.

Adlewyrchir ein cysylltiadau agos â'r Eglwys Fethodistaidd yn ein cyfansoddiad, sy'n golygu y gall yr Eglwys enwebu ymddiriedolwr. Mae'r wybodaeth, yr arbenigedd a'r angerdd o du ein hymddiriedolwr Methodistaidd yn arbennig o bwysig.

## Pwyllgorau'r Bwrdd

Mae pwyllgorau sefydlog y Bwrdd yn adrodd ar faterion penodol. Mae pob pwyllgor wedi cytuno ar gylch gorchwyl ac mae'n cynnwys aelodau cyfetholedig arbenigol, yn ogystal ag ymddiriedolwyr. Mae'r Bwrdd yn dirprwyo'r gwaith o redeg Gweithredu dros Blant o ddydd i ddydd i'r Prif Swyddog Gweithredol a'r Tîm Arwain Gweithredol. Mae'r Bwrdd hefyd yn dirprwyo rhai meysydd o'i waith i is-bwyllgorau:

**Y Pwyllgor Cyllid**
Mae'r pwyllgor hwn yn cadw llygad ar ein cyllid ac yn cynnal hyfywedd Gweithredu dros Blant yn y tymor byr ac yn y tymor hir. Mae'n cynghori'r Bwrdd ar strategaeth ariannol briodol ac mae ei is-bwyllgor Buddsoddi yn llywio'r gwaith o oruchwylio buddsoddiadau.


**Pwyllgor Archwilio a Risg**
Mae'r Pwyllgor hwn yn sicrhau ein bod ni'n bodloni ein rhwymedigaethau cyfrifyddu a bod gennym ni systemau effeithiol ar gyfer rheolaeth fewnol, swyddogaeth archwilio a rheoli risg.

**Y Pwyllgor Llywodraethu, Pobl a Thaliadau**
Mae'n ein helpu i redeg ein sefydliad yn effeithiol, gan sicrhau safonau rhagoriaeth mewn pobl, polisïau a thaliadau.

**Pwyllgor Gwasanaethau Plant**
Mae'n canolbwyntio ar wella canlyniadau i blant a phobl ifanc, drwy oruchwylio a datblygu ansawdd, cyrhaeddiad a pherfformiad ein gwasanaethau plant.

**Y Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol**
Mae ein Pwyllgorau Cenedlaethol yn rhoi arweiniad a chyngor i'n Cyfarwyddwyr Cenedlaethol a'n Bwrdd Ymddiriedolwyr. Er nad oes ganddynt unrhyw bwerau ffurfiol i wneud penderfyniadau, maent yn ein helpu i feithrin cysylltiadau dwfn a pharhaol ym mhob un o'r gwledydd rydym yn gweithio ynddynt.

**Fframwaith llywodraethu**




## Sut rydym yn trefnu ein gwaith

Mae'r Prif Weithredwr yn cael ei gefnogi gan ein Tîm Arwain Gweithredol, sy'n gweithio'n agos â Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i gefnogi ein gweledigaeth, ein cenhadaeth a'n gwerthoedd a chyflawni ein strategaeth.

Mae ymddiriedolwyr yn cael diweddariadau masnachol, gweithredol, cyfathrebu, codi arian, cyfryngau a pholisi yn rheolaidd. Mae hyn yn eu helpu i ddeall effaith ein gweithgareddau a safbwyntiau ein rhanddeiliaid.

Mae ein hymddiriedolwyr hefyd yn adolygu perfformiad ariannol a gweithredol yn eu cyfarfod bwrdd deufisol. Maen nhw'n gyfrifol am sefydlu a chynnal system effeithiol o reolaethau mewnol i ganfod, atal a rheoli risgiau. Maen nhw hefyd yn gyfrifol am adolygu cydymffurfiad cyfreithiol a rheoleiddiol. I gael rhagor o wybodaeth am ein Fframwaith Rheoli Risg, a sut rydym yn nodi ac yn rheoli risgiau yn ein holl weithgareddau, ewch i dudalen 43.

# Dyletswyddau ymddiriedolwyr o dan adran 172 y Ddeddf Cwmnïau

Mae gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ddyletswyddau o dan Adran 172 Deddf Cwmnïau 2006. Mae'r rhain yn cynnwys gweithredu er budd rhanddeiliaid wrth hyrwyddo llwyddiant y cwmni elusennol.

Mae'r ymddiriedolwyr, fel cyfarwyddwyr cwmni Gweithredu dros Blant, yn gweithredu yn unol â'r gofyniad hwn ac, wrth wneud hynny, maent yn ystyried:

- Canlyniadau tebygol unrhyw benderfyniad yn y tymor hir.
- Buddiannau gweithwyr y cwmni.
- Yr angen i feithrin cysylltiadau busnes y cwmni gyda chyflenwyr, cwsmeriaid ac eraill.
- Effaith gweithrediadau'r cwmni ar y gymuned ac ar yr amgylchedd.
- Yr angen i gynnal enw da am Safonau Cynnal Busnes uchel.
- Yr angen i weithredu'n deg rhwng aelodau'r cwmni.

Mae ymddiriedolwyr yn cael eu briffio ar eu dyletswyddau fel rhan o'u proses gynefino. Cyflawnir y dyletswyddau hyn yn rhannol drwy'r strwythur llywodraethu a nodir yn yr adran lywodraethu.

Mae'r rhain yn cynnwys cofleidio a hyrwyddo ein gweledigaeth o blentyndod hapus a diogel i bob plentyn yn y DU. Maent hefyd yn cynnwys hyrwyddo ein gwerthoedd: bod yn frwdfrydig, yn uchelgeisiol, yn gydweithredol ac yn gynhwysol – sy'n sylfaen i bopeth a wnawn. Mae'r Bwrdd wedi parhau i weithio'n agos gyda'n Tîm Arwain Gweithredol i sicrhau ein cynaliadwyedd ariannol yn y dyfodol.

## Ymgysylltu â phobl ifanc a defnyddwyr gwasanaethau

Mae ymddiriedolwyr wedi ymrwymo i feithrin perthynas gref â'r plant, y bobl ifanc a'r teuluoedd rydyn ni'n eu cefnogi. Maen nhw'n gwybod mai dim ond pan fyddwn ni'n rhoi eu barn a'u profiadau wrth galon ein gwasanaethau y gallwn ni fod yn achubiaeth hanfodol. Y llynedd, ymwelodd ein hymddiriedolwyr â gwasanaethau ar draws y pedair gwlad. Roedd hyn yn cynnwys gwasanaethau yn Glasgow ym mis Rhagfyr 2024 (Springburn Academy and Blues a Gwasanaethau Cwnsela Ysgolion) a Birmingham ym mis Tachwedd 2024 (Canolfan Gymunedol i Blant – sy'n darparu cymorth i deuluoedd plant a phobl ifanc ag Anghenion Addysgol Arbennig ac Anableddau).

## Ymgysylltu â'n staff a'n gwirfoddolwyr

Mae'n hanfodol ein bod yn ymgysylltu â'n gweithwyr yn rheolaidd. Mae ein Bwrdd a'n Tîm Arwain Gweithredol yn cadw mewn cysylltiad â staff drwy gyfarfodydd tîm rheolaidd, ein mewnrwyd, negeseuon e-bost a chyfarfodydd â'r holl staff. Cynhelir y rhain bob chwarter ac maent yn ychwanegol at weminarau, gan alluogi staff i ofyn cwestiynau a rhoi adborth.

Mae ein hymddiriedolwyr hefyd yn cael eu briffio'n rheolaidd gan y Tîm Arwain Gweithredol. Mae'r diweddariadau'n cynnwys:

- Yr wybodaeth ddiweddaraf am weithgareddau'r gweithlu o ran cyflawni gweithgareddau a rhaglenni blaenoriaeth yn y cynllun busnes.
- Denu ymgeiswyr a datblygu talent.
- Gwobrwyo a chydnabod.
- Arolygon diwylliant (a ategir gan ddadansoddiad data ar achosion chwythu'r chwiban, anghydfodau a chwynion).
- Lles ac ymgysylltu.
- Cyflogau staff.
- Ein strategaeth amrywiaeth a chynhwysiant

Mae'r wybodaeth hon yn cyrraedd y Bwrdd drwy adroddiadau mewn cyfarfodydd ac mae'n rhoi trosolwg i ymddiriedolwyr o'n diwylliant a sut mae ymgysylltu â phobl yn effeithio ar berfformiad. Mae Pwyllgor Llywodraethu, Pobl a Thaliadau'r Bwrdd yn adolygu adborth o arolygon staff a gwirfoddolwyr, yn ogystal â phrosiectau eraill sy'n gysylltiedig â lles yn y gwaith, cydraddoldeb, ac amrywiaeth a chynhwysiant. Mae hyn yn sicrhau bod unrhyw bryderon yn cael eu dwyn i sylw ymddiriedolwyr. Mae ymddiriedolwraig sy'n aelod o'r Pwyllgor GPR, Lynne Atkin, yn hyrwyddo amrywiaeth a chynhwysiant ac mae'n cwrdd yn rheolaidd â grwpiau rhwydwaith staff. Mae Cadeirydd Bwrdd yr Ymddiriedolwyr hefyd yn cyfathrebu â staff drwy ei blog rheolaidd.

Mae ein hymddiriedolwyr yn cydnabod ac yn dathlu'r gwerth enfawr y mae gwirfoddolwyr yn ei ychwanegu at Gweithredu dros Blant o ran cefnogi prosiectau, gwasanaethau ac adrannau.

Mae ymddiriedolwyr hefyd yn ymgysylltu â gwirfoddolwyr drwy ein Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol ac yn bwriadu cynnal digwyddiad ymgysylltu â gwirfoddolwyr yn 2025/26.




Mae pobl ifanc ar ein Pwyllgorau Cynghori Cenedlaethol a'n Bwrdd Llysgenhadon Ifanc yn ein helpu i recriwtio ymddiriedolwyr ac uwch staff ac yn siapio dyluniad, darpariaeth ac ymgyrchoedd ein gwasanaeth. Mae ein hymddiriedolwyr, drwy'r Pwyllgor Gwasanaethau Plant, yn derbyn diweddariadau gan y tîm Cyfranogi, gan dynnu sylw at adborth gan blant a phobl ifanc am y gwasanaethau a ddefnyddiant. Y llynedd, am y tro cyntaf, aeth dau o'n Llysgenhadon Ifanc, Callum a Holly, i gyfarfod Bwrdd yr Ymddiriedolwyr i helpu i wneud rhai o'n penderfyniadau mwyaf. Fe wnaethant sbarduno trafodaethau ar wneud cyfarfodydd yn fwy hygyrch a chynnwys barn pobl ifanc mewn penderfyniadau strategol. Mae gan ddau o'n Llysgenhadon Ifanc seddi parhaol erbyn hyn ar y Pwyllgor Gwasanaethau Plant, gan atgyfnerthu ein hymrwymiad i roi lleisiau pobl ifanc wrth galon ein gwaith llywodraethu.

Nothing about me, without me

## Uniondeb

Mae fframwaith polisi moesegol ein Bwrdd yn ymgorffori'r safonau moesegol a'r egwyddorion cyffredin rydym yn eu defnyddio i asesu buddsoddiadau, caffael, cyllid a/neu weithgareddau arwyddocaol eraill. Mae hefyd yn sail i'n polisïau a'n gweithdrefnau.

Mae ein fframwaith polisi moesegol yn ein helpu i reoli unrhyw broblemau gyda rhoddion, ein gwaith gyda chyflenwyr neu bartneriaid, neu wrth benodi ymddiriedolwyr, staff a llysgenhadon.

Er mwyn sicrhau ein bod ni'n bodloni safonau cyfreithiol a safonau'r sector, nid ydym yn gweithio gydag unrhyw sefydliadau:

- Sy'n peryglu ein gweledigaeth, ein cenhadaeth, ein gwerthoedd a'n hamcanion elusennol.
- Sy'n gwrthdaro â'n hegwyddorion a'n polisïau.
- Sy'n tanseilio ein gwasanaethau i blant.
- Sy'n tanseilio ein hymrwymiad i ddiogelu.
- Sy'n tanseilio ein hymrwymiad i amrywiaeth.
- Sy'n gweithredu mewn marchnadoedd y gwyddom eu bod yn niweidio plant a theuluoedd.
- Sy'n trin yr amgylchedd mewn ffordd anghynaladwy.
- Sy'n gwrthdaro â'r egwyddorion moesegol a ddatblygwyd gan NCVO ac egwyddorion y Cod Llywodraethu Elusennau.
- Y mae eu gweithredoedd yn torri Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn.
- Sy'n peryglu ein gwreiddiau yn yr Eglwys Fethodistaidd.

Mae ein hymddiriedolwyr yn gwerthfawrogi ac yn deall pwysigrwydd rhanddeiliaid allanol yn fawr iawn. Mae'r rhain yn cynnwys ein noddwr, y cyhoedd, rheoleiddwyr, partneriaid masnachol, y cyfryngau, awdurdodau lleol, asiantaethau'r llywodraeth, elusennau eraill, cymdeithasau plant a chyflenwyr.

Rhaid i'n holl bartneriaid gydymffurfio â gofynion safonau proffesiynol neu gyrff masnach, yn ogystal â'r holl gyfreithiau, statudau, rheoliadau a chodau ymarfer perthnasol sy'n ymwneud â diogelu, gwrth-lwgrwobrwyo a gwrth-lygredd. Mae ein Polisi Derbyn Rhoddion yn gwneud yn siŵr nad ydym yn peryglu ein cenhadaeth, ein gwerthoedd a'n diben elusennol wrth godi arian.

Ceir rhagor o wybodaeth am gydymffurfio o ran codi arian ar dudalen 29. Rydym hefyd yn hyrwyddo ein gweledigaeth a'n gwerthoedd i bartneriaid a darparwyr newydd i wneud yn siŵr eu bod yn deall beth yw egwyddorion ein helusen.

## Deddf Caethwasiaeth Fodern 2015

Nid yw Gweithredu dros Blant yn goddef unrhyw fath o gaethwasiaeth fodern o gwbl. Rydym wedi ymrwymo i weithredu'n foesegol ac yn ddidwyll yn ein holl fusnes a chysylltiadau. Rydym wedi rhoi systemau a rheolaethau effeithiol ar waith ac wedi'u gorfodi i sicrhau nad yw caethwasiaeth fodern yn digwydd yn unrhyw ran o'n busnes, nac yn unrhyw un o'n cadwyni cyflenwi, drwy gynnwys gwaharddiadau penodol fel rhan o'n proses gontractio. Mae gennym bolisi caethwasiaeth fodern sy'n cynnwys datganiad caethwasiaeth fodern sy'n cael ei adolygu'n flynyddol.

# Datganiad o **gyfrifoldebau'r** ymddiriedolwyr

Ein hymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr Gweithredu dros Blant yn unol â chyfraith cwmnïau) sy'n gyfrifol am baratoi Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr a'r datganiadau ariannol yn unol â'r gyfraith a'r rheoliadau perthnasol.

Rhaid i'r ymddiriedolwyr baratoi datganiadau ariannol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn unol â chyfraith cwmnïau. O dan y gyfraith honno, mae'r ymddiriedolwyr wedi dewis paratoi'r datganiadau ariannol yn unol ag Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig (Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig a'r gyfraith berthnasol), gan gynnwys FRS 102, y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon.

O dan gyfraith cwmnïau, ni chaiff yr ymddiriedolwyr gymeradwyo'r datganiadau ariannol oni bai eu bod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol, y grŵp ac o'r adnoddau sy'n dod i mewn a'r defnydd o adnoddau, gan gynnwys incwm a gwariant y grŵp elusennol ar gyfer y cyfnod hwnnw.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, rhaid i'r ymddiriedolwyr wneud y canlynol:

- Dewis polisïau cyfrifyddu addas a'u rhoi ar waith mewn ffordd gyson.
- Arsylwi'r dulliau a'r egwyddorion a nodir yn y Datganiad o'r Arfer a Argymhellir (SORP) ar gyfer Elusennau (FRS 102).
- Gwneud penderfyniadau rhesymol a doeth ac amcangyfrifon cyfrifyddu.
- Datgan a yw'r safonau cyfrifyddu sy'n berthnasol yn y DU wedi cael eu dilyn, yn amodol ar ddatgelu ac esbonio unrhyw wahaniaethau o bwys yn y datganiadau ariannol.
- Paratoi'r datganiadau ariannol ar sail busnes gweithredol, (oni bai nad yw'n briodol tybio y bydd y grŵp yn parhau i fasnachu).

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gadw cofnodion cyfrifyddu priodol sy'n gallu dangos ac esbonio trafodion y cwmni elusennol a'r grŵp. Rhaid iddynt hefyd ddatgelu sefyllfa ariannol y cwmni elusennol a'r grŵp yn rhesymol gywir ar unrhyw adeg a'u galluogi i sicrhau bod y datganiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cwmnïau 2006, Deddf Buddsoddiadau Elusennau ac Ymddiriedolwyr (Yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006 (fel y'i diwygiwyd) a darpariaethau ein dogfennau llywodraethu.

Maent hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau'r cwmni elusennol a'r grŵp, ac felly hefyd am gymryd camau rhesymol i atal a chanfod twyll ac afreoleidd-dra arall.

Mae'r ymddiriedolwyr yn cadarnhau'r canlynol:

- Nid oes gwybodaeth archwilio berthnasol nad yw archwilydd y cwmni elusennol yn ymwybodol ohoni, hyd y gŵyr pob ymddiriedolwr.
- Maent wedi cymryd y camau angenrheidiol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o unrhyw wybodaeth archwilio berthnasol, ac i sefydlu bod archwilydd y cwmni elusennol yn ymwybodol o'r wybodaeth honno.

Mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am gynnal cywirdeb yr wybodaeth ariannol a'r wybodaeth gorfforaethol sydd ar wefan y cwmni elusennol. Gall deddfwriaeth y DU sy'n gysylltiedig â pharatoi a dosbarthu'r datganiadau ariannol fod yn wahanol i ddeddfwriaeth mewn awdurdodaethau eraill. Cafodd Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolwyr (gan gynnwys yr adroddiad strategol) ei gymeradwyo a'i lofnodi ar ran yr ymddiriedolwyr ar 17 Medi 2025.



**Sarika Patel,**
Cadeirydd, Bwrdd yr Ymddiriedolwyr

# Adroddiad yr **Archwilydd** Annibynnol

## Barn

Rydym wedi archwilio datganiadau ariannol Gweithredu dros Blant (y "cwmni elusennol") a'i is-gwmnïau (y "grŵp") ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 sy'n cynnwys y Datganiad Cyfunol o Weithgareddau Ariannol, Datganiad o Sefyllfa Ariannol y Grŵp a'r Elusen, y Datganiad Llif Arian Cyfunol a nodiadau ar y datganiadau ariannol, gan gynnwys polisïau cyfrifyddu arwyddocaol. Y fframwaith adrodd ariannol a ddefnyddiwyd i'w paratoi yw cyfraith berthnasol a Safonau Cyfrifyddu'r Deyrnas Unedig gan gynnwys Safon Adrodd Ariannol 102: Y Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y Deyrnas Unedig ac yng Ngweriniaeth Iwerddon (Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig).

Yn ein barn ni, mae'r datganiadau ariannol:

- yn rhoi darlun cywir a theg o sefyllfa'r cwmni elusennol ar 31 Mawrth 2025 ac o'r adnoddau a ddaeth i mewn a'r defnydd o adnoddau, gan gynnwys ei incwm a'i wariant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben bryd hynny;
- wedi cael eu paratoi'n briodol yn unol â'r Arferion Cyfrifyddu a Dderbynnir yn Gyffredinol yn y Deyrnas Unedig; ac
- wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion Deddf Cwmnïau 2006.

## Sail y farn

Fe wnaethom gynnal ein harchwiliad yn unol â'r Safonau Rhyngwladol ar Archwilio (y DU) a'r gyfraith berthnasol. Caiff ein cyfrifoldebau dan y safonau hynny eu disgrifio ymhellach o dan adran cyfrifoldebau'r Archwilydd ar gyfer archwilio'r datganiadau ariannol yn ein hadroddiad. Rydym yn annibynnol ar y cwmni elusennol yn unol â'r gofynion moesegol sy'n berthnasol i'n harchwiliad o'r datganiadau ariannol yn y Deyrnas Unedig, gan gynnwys Safon Foesegol y Cyngor Adrodd Ariannol, ac rydym wedi cyflawni ein cyfrifoldebau moesegol eraill yn unol â'r gofynion hyn. Rydym yn credu bod y dystiolaeth archwilio a gawsom yn un ddigonol a phriodol er mwyn rhoi sail i'n barn.

## Casgliadau'n ymwneud â busnes hyfyw

Wrth archwilio'r datganiadau ariannol, rydym wedi dod i'r casgliad bod defnydd yr ymddiriedolwyr o'r sail cyfrifyddu busnes hyfyw wrth baratoi'r datganiadau ariannol yn briodol.

Ar sail y gwaith yr ydym wedi'i wneud, nid ydym wedi gweld dim ansicrwydd o bwys yn ymwneud â digwyddiadau neu amodau a allai, ar eu pen eu hunain neu gyda'i gilydd, fwrw amheuaeth sylweddol ar allu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes hyfyw am gyfnod o ddeuddeng mis o leiaf o'r adeg pan awdurdodir cyhoeddi'r datganiadau ariannol.

Mae ein cyfrifoldebau ni a chyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr mewn perthynas â busnes hyfyw yn cael eu disgrifio yn adrannau perthnasol yr adroddiad hwn.

## Gwybodaeth arall

Yr ymddiriedolwyr sy'n gyfrifol am yr wybodaeth arall sydd yn yr Adroddiad Blynyddol. Mae'r wybodaeth arall yn cynnwys yr wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Blynyddol, ac eithrio'r datganiadau ariannol a'n hadroddiad ni fel archwilydd arnynt. Nid yw ein barn ar y datganiadau ariannol yn cynnwys yr wybodaeth arall ac nid ydym yn mynegi unrhyw fath o gasgliad sicrwydd ar hynny, ac eithrio i'r graddau y datganwyd hynny'n benodol fel arall yn ein hadroddiad.

Ein cyfrifoldeb ni yw darllen yr wybodaeth arall a thrwy wneud hynny, ystyried a oes anghysondeb o bwys rhwng yr wybodaeth arall a'r datganiadau ariannol neu'r wybodaeth rydym ni wedi'i chael yn yr archwiliad, neu sy'n ymddangos yn gamddatganiad o bwys fel arall. Os byddwn yn canfod anghysonderau o bwys neu gamddatganiadau o bwys tybiedig, mae'n ofynnol i ni bennu a yw hyn yn golygu bod camddatganiad o bwys yn y datganiadau ariannol eu hunain.

Os byddwn yn dod i'r casgliad, ar sail y gwaith rydym wedi'i wneud, bod yr wybodaeth arall yma wedi cael ei chamddatgan mewn ffordd sydd o bwys, rhaid i ni roi gwybod am y ffaith honno.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd i'r perwyl hwn.

## Barn ar faterion eraill a bennir gan Ddeddf Cwmnïau 2006

Yn ein barn ni, ar sail y gwaith a wnaed wrth gynnal yr archwiliad

– mae'r wybodaeth a roddir yn adroddiad yr ymddiriedolwyr, sy'n cynnwys adroddiad y cyfarwyddwyr a'r adroddiad strategol a baratowyd at ddibenion cyfraith cwmnïau, ar gyfer y flwyddyn ariannol y paratowyd y datganiadau ariannol ar ei chyfer, yn gyson â'r datganiadau ariannol; ac

– mae'r adroddiad strategol ac adroddiad y cyfarwyddwyr sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad yr ymddiriedolwyr wedi cael eu paratoi yn unol â'r gofynion cyfreithiol perthnasol.

## Materion y mae'n ofynnol i ni roi gwybod amdanynt drwy eithriad

Yng ngoleuni'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth o'r cwmni elusennol a'i amgylchedd a gafwyd yn ystod yr archwiliad, nid ydym wedi nodi camddatganiadau o bwys yn yr adroddiad strategol neu adroddiad y cyfarwyddwyr sydd wedi'u cynnwys yn adroddiad yr ymddiriedolwyr.

Nid oes gennym ddim i'w adrodd yng nghyswllt y materion canlynol lle mae'n ofynnol inni o dan Ddeddf Cwmnïau 2006 roi adroddiad i chi os, yn ein barn ni:

– Nad oes cofnodion cyfrifyddu digonol wedi cael eu cadw; neu

– Nid yw'r datganiadau ariannol yn cyd-fynd â'r ffurflenni a'r cofnodion cyfrifyddu; neu

– Nad yw rhai o daliadau'r ymddiriedolwyr, a nodir yn y gyfraith, wedi cael eu datgelu; neu

– Nad ydym wedi cael yr holl wybodaeth a'r esboniadau sydd eu hangen arnom ar gyfer ein harchwiliad.

## Cyfrifoldebau ymddiriedolwyr

Fel yr esboniwyd yn fanylach yn natganiad cyfrifoldebau'r ymddiriedolwyr ar dudalen 51, mae'r ymddiriedolwyr (sydd hefyd yn gyfarwyddwyr ar y cwmni elusennol at ddibenion y gyfraith cwmnïau) yn gyfrifol am baratoi'r datganiadau ariannol ac am fod yn fodlon eu bod yn rhoi darlun cywir a theg, ac am y rheolaeth fewnol sy'n angenrheidiol ym marn yr ymddiriedolwyr er mwyn gallu paratoi datganiadau ariannol nad ydynt yn cynnwys camddatganiadau o bwys, boed o ganlyniad i dwyll neu gamgymeriad.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol, mae'r ymddiriedolwyr yn gyfrifol am asesu gallu'r cwmni elusennol i barhau fel busnes hyfyw, gan ddatgelu, fel bo'n berthnasol, faterion sy'n gysylltiedig â busnes hyfyw a defnyddio sail cyfrifyddu busnes hyfyw oni fo'r ymddiriedolwyr un ai'n bwriadu diddymu'r cwmni elusennol neu roi'r gorau i weithredu, neu nad oes ganddynt unrhyw opsiwn realistig arall heblaw am hynny.

## Cyfrifoldebau'r Archwilydd dros archwilio'r datganiadau ariannol

Ein hamcanion ni yw cael sicrwydd rhesymol ynghylch a yw'r datganiadau ariannol yn eu cyfanrwydd yn rhydd o gamddatganiadau o bwys, boed y rheini wedi'u gwneud drwy dwyll neu gamgymeriad, a chyhoeddi adroddiad yr archwilydd sy'n cynnwys ein barn ni. Mae sicrwydd rhesymol yn golygu lefel uchel o sicrwydd, ond nid yw'n gwarantu y bydd archwiliad a gynhaliwyd yn unol â Safonau Archwilio Rhyngwladol (y DU) bob amser yn dod o hyd i gamddatganiad o bwys pan fo hynny'n bodoli.

Mae camddatganiadau'n gallu codi o dwyll neu gamgymeriadau ac maen nhw'n cael eu hystyried yn rhai o bwys os, yn unigol neu gyda'i gilydd, y byddai'n rhesymol disgwyl iddyn nhw ddylanwadu ar benderfyniadau economaidd defnyddwyr a wneir ar sail y datganiadau ariannol hyn.

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Rydym yn llunio gweithdrefnau yn unol â'n cyfrifoldebau, a amlinellir uchod, i ddod o hyd i gamddatganiadau o bwys mewn perthynas ag afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll. Nodir isod i ba raddau y mae ein gweithdrefnau'n gallu dod o hyd i afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll:

Mae disgrifiad pellach o'n cyfrifoldebau dros archwilio'r datganiadau ariannol i'w weld ar wefan y Cyngor Adrodd Ariannol yn: frc.org.uk/auditorsresponsibilities. Mae'r disgrifiad hwn yn rhan o'n hadroddiad archwilio.

## I ba raddau yr ystyriwyd bod yr archwiliad yn gallu canfod achosion o afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll

Mae afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, yn achosion o ddiffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau. Fe wnaethom nodi ac asesu risgiau camddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol oherwydd afreoleidd-dra, boed hynny oherwydd twyll neu gamgymeriad, a thrafod y rhain rhwng aelodau ein tîm archwilio. Yna, fe wnaethom ddylunio a chynnal gweithdrefnau archwilio a oedd yn ymateb i'r risgiau hynny, gan gynnwys cael tystiolaeth archwilio a oedd yn ddigonol ac yn briodol i roi sail i'n barn.

Cawsom ddealltwriaeth o'r fframweithiau cyfreithiol a rheoleiddiol y mae'r cwmni elusennol a'r grŵp yn gweithredu oddi mewn iddynt, gan ganolbwyntio ar y cyfreithiau a'r rheoliadau hynny sy'n cael effaith uniongyrchol ar benderfynu ar symiau a datgeliadau o bwys yn y datganiadau ariannol, gan gynnwys deddfwriaeth adrodd ariannol a'r Datganiad o'r Arferion a Argymhellir (SORP) ar gyfer Elusennau (FRS 102), a rheoliadau treth [lleol]. Fe wnaethom asesu'r cydymffurfiad gofynnol â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn fel rhan o'n gweithdrefnau archwilio ar eitemau cysylltiedig y datganiadau ariannol.

Ar ben hynny, roeddem wedi ystyried darpariaethau cyfreithiau a rheoliadau eraill nad ydynt yn cael effaith uniongyrchol ar y datganiadau ariannol ond y gallai fod angen cydymffurfio â nhw er mwyn gallu'r cwmni elusennol a'r grŵp i weithredu neu i osgoi cosb berthnasol. Roeddem hefyd wedi ystyried y cyfleoedd a'r cymhellion a allai fodoli yn y cwmni elusennol a'r grŵp ar gyfer twyll. Y cyfreithiau a'r rheoliadau a ystyriwyd gennym yn y cyd-destun hwn ar gyfer gweithrediadau yn y DU oedd y Rheoliadau Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR), deddfwriaeth Iechyd a Diogelwch a deddfwriaeth cyflogaeth.

Mae safonau archwilio yn cyfyngu ar y gweithdrefnau archwilio gofynnol er mwyn canfod achosion o ddiffyg cydymffurfio â'r cyfreithiau a'r rheoliadau hyn i holi'r Ymddiriedolwyr a rheolwyr eraill ac arolygu gohebiaeth reoleiddiol a chyfreithiol, os oes rhai.

Fe wnaethom nodi bod y risg fwyaf o effaith sylweddol o ganlyniad i afreoleidd-dra, gan gynnwys twyll, ar y datganiadau ariannol yn ymwneud ag amseru cydnabod incwm a rheolwyr yn diystyru rheolaethau. Roedd ein gweithdrefnau archwilio i ymateb i'r risgiau hyn yn cynnwys holi rheolwyr, archwilwyr mewnol, cwnsleriaid cyfreithiol a'r Pwyllgor Archwilio a Risg ynghylch canfod ac asesu risgiau afreoleidd-dra, profi samplau o ran postio cyfnodolion, adolygu amcangyfrifon cyfrifyddu ar gyfer rhagfarnau, adolygu gohebiaeth reoleiddiol gyda'r Comisiwn Elusennau, a darllen cofnodion cyfarfodydd y rhai sy'n gyfrifol am lywodraethu.

Oherwydd cyfyngiadau cynhenid archwiliad, mae risg anochel na fyddwn efallai wedi dod o hyd i rai camddatganiadau o bwys yn y datganiadau ariannol, er ein bod wedi cynllunio a chynnal ein harchwiliad yn briodol yn unol â safonau archwilio. Er enghraifft,po bellaf fo diffyg cydymffurfio â chyfreithiau a rheoliadau (afreoleidd-dra) o'r digwyddiadau a'r trafodion a adlewyrchir yn y datganiadau ariannol, y lleiaf tebygol yw y byddai'r gweithdrefnau cyfyngedig, sy'n ofynnol yn ôl safonau archwilio, yn ei ganfod.

Yn ogystal, fel gydag unrhyw archwiliad, roedd risg uwch o hyd o beidio â chanfod afreoleidd-dra, gan y gallai'r rhain gynnwys cydgynllwynio, ffugio, hepgor bwriadol, camliwio, neu ddiystyru rheolaethau mewnol. Nid ydym yn gyfrifol am atal diffyg cydymffurfio ac ni ellir disgwyl i ni ganfod diffyg cydymffurfio â'r holl gyfreithiau a rheoliadau.

## Defnyddio ein hadroddiad

Caiff yr adroddiad hwn ei wneud ar gyfer aelodau'r cwmni elusennol yn unig, fel corff, yn unol â Phennod 3, Rhan 16 o Ddeddf Cwmnïau 2006. Cyflawnwyd ein gwaith archwilio er mwyn i ni allu datgan wrth aelodau'r cwmni elusennol y materion hynny y mae'n ofynnol i ni eu datgan wrthynt mewn adroddiad archwiliwr ac nid at unrhyw ddiben arall. I'r graddau mwyaf a ganiateir gan y gyfraith, nid ydym yn derbyn nac yn ysgwyddo cyfrifoldeb i unrhyw un, ac eithrio i'r cwmni elusennol ac aelodau'r cwmni elusennol fel corff, am ein gwaith archwilio, ar gyfer yr adroddiad hwn, neu am y farn a luniwyd gennym.



**Naziar Hashemi**
Uwch-archwilydd Statudol

Ar gyfer ac ar ran
**Crowe UK LLP**

Archwilydd Statudol, Llundain

24 Hydref 2025

# **Datganiadau ariannol** am y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

Datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol (yn cynnwys y cyfrif incwm a gwariant)

| | | | | | Cronfeydd cyfyngedig | | | | | | Cronfeydd cyfyngedig | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | Cyffredinol | Dynodedig | Cyfanswm cronfeydd anghyf-yngedig | Diben penodol | Gwaddol | Cyfanswm cronfeydd 2025 | Cyffredinol | Dynodedig | Cyfanswm cronfeydd anghyf-yngedig | Diben penodol | Gwaddol | Cyfanswm cronfeydd 2024 |
| | Nodiadau | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Incwm a gwaddolion | | | | | | | | | | | | | |
| **Incwm o roddion a chymynroddion** | 3 | 12,164 | – | 12,164 | 5,701 | – | 17,865 | 12,411 | – | 12,411 | 4,785 | | 17,196 |
| **Incwm o fuddsoddiad** | | 1,135 | – | 1,135 | – | – | 1,135 | 1,572 | – | 1,572 | – | | 1,572 |
| **Incwm o weithgareddau elusennol** | | | | | | | | | | | | | |
| Cymorth i deuluoedd | | 57,349 | – | 57,349 | 215 | – | 57,564 | 59,667 | – | 59,667 | 184 | – | 59,851 |
| Plant mewn gofal | | 38,816 | – | 38,816 | 1,938 | – | 40,754 | 34,201 | – | 34,201 | – | – | 34,201 |
| Plant a phobl ifanc anabl | | 36,391 | – | 36,391 | 302 | – | 36,693 | 33,416 | – | 33,416 | 71 | – | 33,487 |
| Iechyd meddwl a llesiant | | 8,700 | – | 8,700 | 148 | – | 8,848 | 8,683 | – | 8,683 | 30 | – | 8,713 |
| | | 141,256 | – | 141,256 | 2,603 | – | 143,859 | 135,967 | – | 135,967 | 285 | – | 136,252 |
| **Incwm arall** | | | | | | | | | | | | | |
| Enillion net wrth waredu asedau sefydlog | | 586 | – | 586 | – | – | 586 | 260 | – | 260 | – | – | 260 |
| **Cyfanswm yr incwm a gwaddolion** | | **155,141** | – | **155,141** | **8,304** | – | **163,445** | **150,210** | – | **150,210** | **5,070** | – | **155,280** |
| Gwariant | 4.5 | | | | | | | | | | | | |
| **EGwariant ar godi arian** | | 7,441 | – | 7,441 | – | | 7,441 | 6,752 | – | 6,752 | – | – | 6,752 |
| **Gwariant ar weithgareddau elusennol** | | | | | | | | | | | | | |
| Cymorth i deuluoedd | | 60,486 | – | 60,486 | 619 | – | 61,105 | 65,070 | – | 65,070 | 3,326 | – | 68,396 |
| Plant mewn gofal | | 35,743 | – | 35,743 | 2,777 | – | 38,520 | 35,427 | – | 35,427 | 1,164 | – | 36,591 |
| Plant a phobl ifanc anabl | | 39,024 | – | 39,024 | 1,992 | – | 41,016 | 36,855 | – | 36,855 | 360 | – | 37,215 |
| Iechyd meddwl a llesiant | | 13,799 | – | 13,799 | 460 | – | 14,259 | 9,010 | – | 9,010 | 2,283 | – | 11,293 |
| Ymgyrchu a pholisïau cyhoeddus | | 635 | – | 635 | 50 | – | 685 | 780 | – | 780 | 6 | – | 786 |
| | | 149,687 | – | 149,687 | 5,898 | – | 155,585 | 147,142 | – | 147,142 | 7,139 | – | 154,281 |
| **Cyfanswm gwariant** | | **157,128** | – | **157,128** | **5,898** | – | **163,026** | **153,894** | – | **153,894** | **7,139** | – | **161,033** |
| Enillion/(colled) net ar fuddsoddiadau | 9 | 820 | – | 820 | – | – | 820 | 1,362 | – | 1,362 | – | – | 1,362 |
| **(Colled)/incwm net am y flwyddyn cyn trosglwyddiadau** | | (1,167) | – | (1,167) | 2,406 | – | 1,239 | (2,322) | – | (2,322) | (2,069) | – | (4,391) |
| Trosglwyddiadau rhwng cronfeydd | 14 | 386 | (386) | – | – | – | – | (636) | 11,945 | 11,309 | (286) | (11,023) | – |
| **(Colled)/incwm net am y flwyddyn cyn enillion a cholledion cydnabyddedig eraill** | | **(781)** | **(386)** | **(1,167)** | **2,406** | – | **1,239** | **(2,958)** | **11,945** | **8,987** | **(2,355)** | **(11,023)** | **(4,391)** |
| **Colledion cydnabyddedig eraill** | | | | | | | | | | | | | |
| Colledion actwaraidd ar rwymedigaethau pensiwn | 6 | (570) | – | (570) | – | – | (570) | (807) | – | (807) | – | – | (807) |
| **Symudiadau net mewn cronfeydd** | | **(1,351)** | **(386)** | **(1,737)** | **2,406** | – | **669** | **(3,765)** | **11,945** | **8,180** | **(2,355)** | **(11,023)** | **(5,198)** |
| Cronfeydd a ddygwyd ymlaen | 14 | 16,049 | 54,433 | 70,482 | 5,123 | – | 75,605 | 19,814 | 42,488 | 62,302 | 7,478 | 11,023 | 80,803 |
| **Cronfeydd a ddygwyd ymlaen** | 14 | **14,698** | **54,047** | **68,745** | **7,529** | – | **76,274** | **16,049** | **54,433** | **70,482** | **5,123** | – | **75,605** |

# Datganiadau ariannol Gweithredu dros Blant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025


## Datganiad o'r Sefyllfa Ariannol ar 31 Mawrth 2025

| | | Grŵp | | Elusen | |
|---|---|---|---|---|---|
| | | 2025 | 2024 | 2025 | 2024 |
| | Nodiadau | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Asedau sefydlog** | | | | | |
| Asedau diriaethol | 7 | 24,318 | 26,800 | 24,318 | 26,800 |
| Asedau sefydlog anniriaethol | 8 | 4,661 | 430 | 4,661 | 430 |
| Buddsoddiadau | 9 | 36,791 | 36,245 | 36,791 | 36,245 |
| | | **65,770** | **63,475** | **65,770** | **63,475** |
| **Asedau cyfredol** | | | | | |
| Dyledwyr | 10 | 24,185 | 21,411 | 16,160 | 14,745 |
| Adneuon rhybudd | | 9,783 | 10,528 | 9,783 | 10,528 |
| Arian parod | | 1,320 | 2,351 | 993 | 1,847 |
| | | **35,288** | **34,290** | **26,936** | **27,120** |
| **Credydwyr: symiau a ddaw'n ddyledus o fewn blwyddyn** | 11 | **(22,974)** | **(19,207)** | **(14,622)** | **(11,931)** |
| **Asedau cyfredol net** | | **12,314** | **15,083** | **12,314** | **15,189** |
| **Cyfanswm asedau llai'r rhwymedigaethau cyfredol** | | **78,084** | **78,558** | **78,084** | **78,664** |
| Darpariaethau ar gyfer rhwymedigaethau | 12 | (1,810) | (2,402) | (1,810) | (2,402) |
| **Asedau net ac eithrio rhwymedigaethau pensiwn** | | **76,274** | **76,156** | **76,274** | **76,262** |
| **Asedau net ac eithrio cronfa bensiwn** | | **76,274** | **76,156** | **76,274** | **76,262** |
| Cronfa bensiwn | | – | (551) | – | (551) |
| **Asedau net gan gynnwys cronfa bensiwn** | | **76,274** | **75,605** | **76,274** | **75,711** |
| **Cronfeydd** | 14 | | | | |
| **Cronfeydd cyfyngedig** | | | | | |
| Gwaddolion | | 6,181 | 5,123 | 6,181 | 5,123 |
| Diben penodol | | 1,348 | – | 1,348 | – |
| **Cyfanswm cronfeydd cyfyngedig** | | **7,529** | **5,123** | **7,529** | **5,123** |
| Cronfeydd anghyfyngedig heb gynnwys cronfa bensiwn | | 68,745 | 71,033 | 68,745 | 71,139 |
| Cronfa bensiwn | 6 | – | (551) | – | (551) |
| Cyfanswm cronfeydd anghyfyngedig gan gynnwys cronfa bensiwn: | | 68,745 | 70,482 | 68,745 | 70,588 |
| **Cyfanswm cronfeydd** | 14,15 | **76,274** | **75,605** | **76,274** | **75,711** |

Cafodd y cyfrifon hyn eu cymeradwyo gan Fwrdd yr Ymddiriedolwyr ar 17 Medi 2025 a'u llofnodi ar ei ran.



Sarika Patel
Cadeirydd



Peter Curran
Ymddiriedolwr

Rhif y cwmni 04764232

# Datganiadau ariannol Gweithredu dros Blant ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025

## Datganiad llif arian cyfunol

| | Grŵp | |
|---|---|---|
| | 2025 | 2024 |
| | £'000 | £'000 |
| **All-lif arian net o weithgareddau gweithredu (isod)** | (398) | (8,702) |
| **Llif arian o weithgareddau buddsoddi** | | |
| Llog a dderbyniwyd | 495 | 534 |
| Difidendau a dderbyniwyd | 174 | 455 |
| Incwm rhent o eiddo buddsoddi | 466 | 583 |
| Enillion o werthu asedau sefydlog diriaethol | 643 | 260 |
| Enillion wrth werthu eiddo buddsoddi | – | 120 |
| Prynu asedau sefydlog diriaethol | (3,460) | (5,379) |
| Enillion wrth werthu buddsoddiadau | 1,982 | 17,721 |
| Prynu buddsoddiadau | (1,678) | (13,079) |
| **Arian parod net a ddarparwyd gan weithgareddau buddsoddi** | **(1,377)** | **1,215** |
| **Newid mewn arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod yn ystod y flwyddyn** | **(1,776)** | **(7,487)** |
| Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod a ddygwyd ymlaen ar 1 Ebrill | 12,879 | 20,366 |
| **Arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod a ddygwyd ymlaen ar 31 Mawrth** | **11,103** | **12,879** |

## Cysoni gwariant net â'r all-lif arian parod net o weithgareddau gweithredu

| | Grŵp | |
|---|---|---|
| | 2025 | 2024 |
| | £'000 | £'000 |
| (Gwariant)/incwm net am y flwyddyn (yn unol â'r datganiad gweithgareddau ariannol) | 1,239 | (4,391) |
| **Addasiadau ar gyfer:** | | |
| Taliadau dibrisiant ac amorteiddio | 1,625 | 1,003 |
| (Enillion)/colledion net ar asedau buddsoddi | (820) | (1,362) |
| Incwm o fuddsoddiad | (1,135) | (1,572) |
| (Enillion)/colledion net ar waredu asedau sefydlog diriaethol | (586) | (260) |
| Cost gwasanaeth a gweinyddu cyfredol pensiwn | 1,504 | 1,294 |
| Pensiwn – cyfraniadau cyflogwr | (2,625) | (1,531) |
| (Cynnydd) mewn dyledwyr | (2,774) | (928) |
| Cynnydd / (gostyngiad) mewn credydwyr | 3,767 | (1,099) |
| Cynnydd/(gostyngiad) yn y ddarpariaeth ar gyfer rhwymedigaethau | (592) | 144 |
| **Arian parod net (all-lif)** | **(398)** | **(8,702)** |

## Dadansoddiad o arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Arian mewn llaw | 1,320 | 2,351 |
| Adneuon rhybudd (llai na 3 mis) | 9,783 | 10,528 |
| **Cyfanswm arian a'r hyn sy'n cyfateb i arian** | **11,103** | **12,879** |

## Dadansoddiad o newidiadau mewn dyled net

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cyfanswm yr arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod a ddygwyd ymlaen | 12,879 | 20,366 |
| Llif arian | (1,776) | (7,487) |
| **Cyfanswm yr arian parod a'r hyn sy'n cyfateb i arian parod a ddygwyd ymlaen** | **11,103** | **12,879** |

# Nodiadau ar y datganiadau ariannol

## 1. Sail paratoi

Mae'r elusen yn endid budd cyhoeddus fel y'i diffinnir gan FRS 102.

Paratowyd datganiadau ariannol y grŵp a'r elusen yn unol â'r Datganiad o'r Arferion a Argymhellir: *Cyfrifyddu ac Adrodd gan Elusennau sy'n paratoi eu cyfrifon yn unol â'r Safonau Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102) (Datganiad o'r Arfer a Argymhellir ar gyfer Elusennau (FRS 102)) a gyhoeddwyd ar 2 Hydref 2019 a'r Safon Adrodd Ariannol sy'n berthnasol yn y DU a Gweriniaeth Iwerddon (FRS 102).* Maen nhw hefyd yn cydymffurfio â gofynion adrodd Deddf Cwmnïau 2006, Deddf Elusennau a Buddsoddi gan Ymddiriedolwyr (yr Alban) 2005, Rheoliadau Cyfrifon Elusennau (Yr Alban) 2006 a Deddf Elusennau 2011.

Mae datganiadau ariannol y grŵp a'r elusen wedi cael eu paratoi ar sail busnes hyfyw (gweler isod), o dan y confensiwn cost hanesyddol, fel y'i haddaswyd

drwy ailbrisio buddsoddiadau rhestredig ac eiddo buddsoddi.

Wrth baratoi'r datganiadau ariannol hyn, mae'r elusen wedi manteisio ar yr eithriadau a ganiateir o dan adran 408 Deddf Cwmnïau 2006 ac nid yw wedi cyflwyno ei datganiad heb ei gyfuno o weithgareddau ariannol.

### Busnes hyfyw

Paratowyd y cyfrifon ar sail busnes hyfyw. Mae hyn yn cael ei ystyried yn sail briodol gan yr ymddiriedolwyr yn seiliedig ar asesiad o'r rhagolygon ariannol, cronfeydd wrth gefn ac amcanestyniadau llif arian yr elusen am o leiaf 12 mis. Mae'r ymddiriedolwyr hefyd wedi ystyried y risgiau ariannol posibl y gallai'r elusen eu hwynebu, a'r camau a fyddai'n cael eu cymryd i liniaru'r risgiau hyn pe baent yn codi.

Mae'r ymddiriedolwyr wedi cymeradwyo cyllideb weithredu gytbwys ar gyfer blwyddyn ariannol 2025/26 (cyn buddsoddi mewn cynlluniau twf a phrosiectau seilwaith), ac wedi adolygu rhagolygon dangosol ar gyfer y flwyddyn ariannol 2026/27. Mae gwaith modelu senarios wedi cael ei wneud i asesu risgiau i'r gyllideb a'r rhagolygon, gan gynnwys effeithiau sefyllfaoedd arian parod a chronfeydd wrth gefn. Mae gan y grŵp fantolen gref gyda chronfeydd anghyfyngedig ar 31 Mawrth 2025 o £68.7 miliwn (2024: £70.5 miliwn) gyda balansau arian sylweddol disgwyliedig yn ystod y cyfnod. Mae'r ymddiriedolwyr yn fodlon y bydd cryfder ariannol cyfredol y balansau arian parod a'r cronfeydd wrth gefn yn caniatáu i gamau cywiro amserol gael eu cymryd yn ôl yr angen er mwyn lleihau'r effaith.

Mae'r ymddiriedolwyr felly yn dal o'r farn bod gan y grŵp a'r rhiant-gwmni elusennol adnoddau digonol i barhau mewn bodolaeth weithredol am y dyfodol agos, sef o leiaf 12 mis o'r dyddiad y llofnodir y cyfrifon hyn. Felly, mae'r datganiadau ariannol wedi cael eu paratoi ar sail busnes hyfyw.

## 2. Polisïau cyfrifyddu

Mae'r prif bolisïau cyfrifyddu a ddefnyddiwyd wrth baratoi datganiadau ariannol y grŵp a'r elusen wedi'u nodi isod.

### Sail y cyfuno

Mae canlyniadau is-gwmnïau'n cael eu cyfuno fesul llinell, ac mae caffaeliadau yn cael eu cynnwys ar sail gwerth teg ar y dyddiad caffael. Mae'r datganiad gweithgareddau ariannol (SOFA) a'r fantolen yn cyfuno datganiadau ariannol yr elusen a'r is-gwmnïau sy'n eiddo'n llwyr iddi – Action for Children Services Limited, Action for Children Developments Limited ac Out of School Scotland Limited.

### Amcangyfrifon a dyfarniadau cyfrifo

Wrth gymhwyso polisïau cyfrifyddu'r elusen, mae'n ofynnol i'r rheolwyr wneud penderfyniadau, amcangyfrifon a thybiaethau am gario symiau o asedau a rhwymedigaethau.

Mae'r amcangyfrifon a'r tybiaethau cysylltiedig yn seiliedig ar brofiad hanesyddol a ffactorau eraill yr ystyrir eu bod yn berthnasol. Gall y gwir ganlyniadau fod yn wahanol i'r amcangyfrifon hynny ac mae'r amcangyfrifon, ynghyd â'u tybiaethau sylfaenol, yn cael eu hadolygu'n barhaus. Mae'r prif amcangyfrifon a'r dyfarniadau a ddefnyddir wrth baratoi'r cyfrifon hyn yn cynnwys defnyddio adroddiadau prisio allanol ar gyfer:

- Gwerth cario eiddo buddsoddi, a bennir gan ddefnyddio adroddiadau prisio allanol.
- Cydnabod unrhyw atebolrwydd neu ased pensiwn dan FRS 102.

Mae'r dyfarniadau canlynol wedi cael eu gwneud yn y broses o gymhwyso polisïau cyfrifo'r elusen ac sy'n cael yr effaith fwyaf arwyddocaol ar y symiau a gydnabyddir yn y datganiadau ariannol:

- Cydnabod incwm yng nghyswllt contractau.
- Rhagdybiaethau actwaraidd pensiynau (gweler nodyn 6).
- Prisiadau eiddo buddsoddi (gweler nodyn 9).
- Darpariaeth dadfeiliadau (gweler nodyn 12).
- Darpariaeth dileu swyddi (nodyn 12).

### Incwm

Mae'r holl adnoddau sy'n dod i mewn wedi cael eu cynnwys yn y datganiad gweithgareddau ariannol (SOFA) pan fo gan yr elusen hawl gyfreithiol i'r incwm, pan fo'n debygol iawn y bydd yr incwm yn cael ei dderbyn, a phan fo'n bosib mesur y swm gyda chywirdeb rhesymol. Mae'r hawl o ran cymynroddion, pan fydd yr Elusen yn cael gwybod ei bod ar fin derbyn arian, nen pan fydd yn derbyn y gymynrodd – pa bynnag un yw'r cynharaf.

Mae adnoddau sy'n dod i mewn yn sgil gweithgareddau elusennol, gan gynnwys grantiau cyfalaf, yn cael eu cynnwys yn y datganiad gweithgareddau ariannol pan fyddant yn dderbyniadwy. Mae swm llawn y grantiau cyfalaf yn cael ei nodi ar y datganiad gweithgareddau ariannol pan fydd yn dderbyniadwy. Pan fydd arian yn cael ei dderbyn ar gyfer gwaith o dan gontract a fydd yn cael ei wneud yn ystod y flwyddyn ariannol nesaf, bydd yr arian yn cael ei drin fel incwm gohiriedig os bydd y corff cyllido'n cytuno. Pan nad oes cytundeb o'r fath, bydd yr arian yn cael ei gynnwys yn yr adran credydwyr eraill.

Mae rhoddion ac anrhegion a dderbynnir mewn swyddfeydd a phrosiectau yn ystod y flwyddyn yn cael eu cofnodi ar eu gwerth gros, neu ar sail amcangyfrif o'u gwerth. Ond mae'r enillion o werthu anrhegion, a gafwyd fel rhodd i gael eu hailwerthu, yn cael eu cynnwys ar y pris gwerthu, pan werthir hwy. Mae'r holl adnoddau eraill sy'n dod i mewn yn cael eu cofnodi fel gros o ffioedd a gwariant p'un ai a ydynt yn cael eu codi gan yr elusen neu ei hasiantau, ac eithrio ar gyfer digwyddiadau bach i godi arian, nad ydynt dan reolaeth uniongyrchol Gweithredu dros Blant, lle mae arian yn cael ei ad-dalu a'i gofnodi heb gynnwys treuliau uniongyrchol.

Nid oes unrhyw symiau wedi'u cynnwys yn y datganiadau ariannol ar gyfer gwasanaethau a roddir gan wirfoddolwyr.

### Gwariant

Mae gwariant yn cael ei gofnodi ar sail gronnus, ac yn cael ei gategoreiddio o dan benawdau sy'n cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r categori. Pan na ellir priodoli costau'n uniongyrchol i benawdau penodol, maent yn cael eu neilltuo i weithgareddau ar sail sy'n gyson â'r defnydd o'r adnoddau.

Mae costau cynhyrchu arian yn cynnwys costau codi arian a chyhoeddusrwydd, costau masnachu a chostau rheoli buddsoddiadau. Mae costau codi arian a chyhoeddusrwydd yn cynnwys cyflogau staff a chostau uniongyrchol ac uniongyrchol eraill, sy'n cynnwys neilltuo'n briodol gostau cefnogi canolog.

Mae gwariant ar weithgareddau elusennol, gan gynnwys treuliau sy'n ymwneud ag ymgyrchu ac eiriolaeth, ynghyd â chostau hysbysu ac addysgu'r cyhoedd am y gwaith, a chostau gwasanaethau gweinyddu, rheoli a chefnogi eraill sy'n hanfodol er mwyn cyflawni'r gwaith yn broffesiynol ac yn gymwys. Pan fydd trefniadau'n bodoli i sefydliadau partner gyflawni gwaith, mae cost hyn yn cael ei chynnwys yn y gweithgaredd perthnasol. Pan fydd gwasanaethau canolog yn cefnogi gwaith elusennol uniongyrchol a chodi arian, caiff eu costau eu dyrannu ar sail cyfrif pennau, sy'n adlewyrchu'r defnydd a wneir o'r gwasanaethau hynny.

### Costau llywodraethu

Mae costau llywodraethu yn cynrychioli cyflogau, gwariant uniongyrchol a chostau gorbenion yr adran adnoddau corfforaethol, yn ogystal â chostau archwilio mewnol ac allanol. Mae'r adran adnoddau corfforaethol yn ymwneud â'r broses o gydymffurfio â'r gofynion cyfansoddiadol a statudol wrth weithredu cwmni elusennol.

### Buddion ymddeol

Mae Gweithredu dros Blant yn cyfrannu at amrywiaeth o drefniadau pensiwn ar ran ei staff. Daw'r rhan fwyaf o'r buddion o Gronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant, sy'n cynnwys nifer o adrannau, gan gynnwys elfennau buddion wedi'u diffinio a chyfraniadau wedi'u diffinio.

Mae costau darparu pensiynau â buddion wedi'u diffinio yn cael eu trin yn unol ag FRS 102. Mae'r elfennau canlynol yn cael eu nodi yn y datganiad gweithgareddau ariannol: cost gwasanaeth darpariaeth bensiwn sy'n ymwneud â'r cyfnod, ynghyd â chostau unrhyw fuddion sy'n gysylltiedig â gwasanaeth blaenorol (yn cael eu neilltuo i gostau staff); cost cyllido'r pensiwn, sydd yr un fath â'r cynnydd yng ngwerth presennol rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn ar ddiwedd y flwyddyn flaenorol, llai credyd sy'n gyfystyr ag enillion disgwyliedig hirdymor y gronfa bensiwn ar asedau; a'r enillion neu'r colledion actwaraidd ar asedau a rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn (yn cael eu neilltuo i enillion a cholledion cydnabyddedig eraill). Mae'r gwahaniaeth rhwng gwerth marchnadol asedau'r Gronfa Bensiwn a gwerth presennol rhwymedigaethau cronedig y pensiwn yn ymddangos fel ased neu rwymedigaeth ar y fantolen, ac eithrio nad yw ased yn cael ei gydnabod ond pan mai dim ond yr Elusen sydd â'r hawl i bennu'r defnydd o'r gwarged o asedau dros rwymedigaethau.

Mae costau pensiwn ar gyfer rhan cyfraniadau wedi'u diffinio y Gronfa yn cael eu harwystlo i'r cyfrifon ar sail gronnus yn y cyfnod pan fyddant yn codi.

Mae Gweithredu dros Blant hefyd yn cyfrannu at gynlluniau pensiwn athrawon, llywodraeth leol a'r GIG mewn perthynas â nifer o'i weithwyr. Mae pob cost o'r fath wedi'u cynnwys yn y datganiad gweithgareddau ariannol ar sail gronnus wrth iddynt godi.

### Prydlesi

Mae rhenti dan brydlesi gweithredol yn cael eu harwystlo i'r datganiad gweithgareddau ariannol dros gyfnod y brydles ar sail llinell syth.

### Treth Ar Werth (TAW)

Gan fod rhai o weithgareddau Gweithredu dros Blant yn cael eu categoreiddio'n weithgareddau sydd ddim yn ymwneud â busnes neu'n weithgareddau wedi'u heithrio at ddibenion TAW, ni all Gweithredu dros Blant hawlio'n ôl yr holl Dreth ar Werth mae'n ei thalu ar gostau gweithredu. Felly mae'r gwariant a nodir yn y datganiadau ariannol hyn yn cynnwys y Dreth ar Werth a dalwyd ac nad oes modd ei hawlio'n ôl.

### Cronfeydd

Mae cronfeydd anghyfyngedig ar gael i'w defnyddio fel y gwêl y Bwrdd yn dda er mwyn hyrwyddo amcanion cyffredinol yr elusen.

Mae rhan o'r cronfeydd anghyfyngedig wedi cael eu dynodi at ddibenion penodol gan y Bwrdd fel y disgrifir yn yr Adroddiad Blynyddol yn y nodiadau i'r datganiadau ariannol. Mae'r Bwrdd yn adolygu lefelau'r cronfeydd dynodedig yn achlysurol er mwyn sicrhau eu bod yn ddigonol i gyflawni'r dibenion y cawsant eu sefydlu ar eu cyfer, a bod unrhyw warged neu ddiffyg yn cael ei drosglwyddo i neu o gronfeydd cyffredinol.

Y gronfa gwerth teg wrth gefn yw'r swm y mae gwerth teg buddsoddiadau yn fwy na'u cost hanesyddol (ac eithrio'r cronfeydd gwaddol).

Mae cronfeydd cyfyngedig yn cynnwys arian y dylid ei ddefnyddio yn unol â chyfyngiadau penodol a bennwyd gan roddwyr, neu sydd wedi cael ei godi gan yr elusen at ddibenion penodol. Mae'r gost o weinyddu'r cronfeydd hynny'n cael ei harwystlo yn erbyn y gronfa benodol.

Mae cronfeydd gwaddol bellach wedi'u dynodi i'w defnyddio ar gyfer rhaglen twf preswyl yr elusen.

### Asedau sefydlog diriaethol

Mae asedau diriaethol yn cael eu cofnodi ar sail eu cost neu, mewn achosion pan fydd Gweithredu dros Blant wedi cael asedau diriaethol yn rhodd neu drwy broses uno, ar sail prisiad y farchnad agored pan wnaed y rhodd neu'r broses uno. Mae asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cael eu trosglwyddo i'r categori asedau perthnasol, a'u dibrisio ar ôl i'r gwaith ymarferol gael ei gwblhau. Y trothwy ar gyfer cyfalafu yw £1,000.

Caiff dibrisiant ei nodi ar y sail ganlynol: Yn achos adeiladau rhydd-ddaliadol mae costau caffael adeiladau, ynghyd ag unrhyw gostau addasu sy'n ychwanegu gwerth at yr eiddo, yn cael eu cyfalafu a'u dibrisio dros yr oes ddefnyddiol a amcangyfrifir ar gyfer yr eiddo. Ni ddarperir dibrisiant ar gyfer tir rhydd-ddaliadol.

At ddibenion dibrisiant, mae adeiladau â lesddaliad o 999 o flynyddoedd yn cael eu trin fel petaent yn adeiladau rhydd-ddaliadol. Fel arfer, bydd gwariant cyfalaf ar adeiladau lesddaliadol eraill yn cael ei ystyried yn gost dibrisiant, ac felly'n cael ei ddiddymu dros yr oes ddefnyddiol a amcangyfrifir (gweler isod).

Mae asedau diriaethol eraill yn cael eu dibrisio ar sail llinell syth dros eu hoes ddefnyddiol, a amcangyfrifir fel a ganlyn:

| | |
|---|---|
| **Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu** | Dim dibrisiant |
| **Adeiladau rhydd-ddaliadol** | 50 mlynedd |
| **Tir ac adeiladau ar brydles** | 10 mlynedd neu gyfnod y brydles os yw'n llai |
| **Offer** | 4 blynedd |
| **Meddalwedd cyfrifiadurol** | 4 blynedd |
| **Meddalwedd cyfrifiadurol (mawr)** | 5 mlynedd |
| **Dodrefn a ffitiadau** | 5 mlynedd |
| **Cerbydau modur** | 4-6 blynedd |

Pan ystyrir bod oes ddefnyddiol ddisgwyliedig asedau unigol yn llai na'r cyfnodau hyn, defnyddir cyfnodau byrrach.

Os oes ffactorau sy'n dangos bod amhariad i werth cario asedau sefydlog yn bosibl, cynhelir adolygiad o amhariad ac os gwelir bod gwerth cario asedau sefydlog yn sylweddol uwch na'u swm adferadwy, cânt eu hysgrifennu i lawr yn unol â hynny. Byddai'r swm adferadwy fel arfer yn cael ei bennu drwy gyfeirio at adroddiad prisio allanol, a byddai unrhyw golled yn cael ei chydnabod yn y datganiad o weithgareddau ariannol ar gyfer y flwyddyn.

## Asedau sefydlog anniriaethol

Mae asedau sefydlog anniriaethol yn cael eu nodi ar y fantolen ar sail eu cost, llai dibrisiant sydd wedi cronni ac unrhyw golledion yn sgil amhariadau.

Mae cost prynu brandiau yn cael ei chyfalafu fel ased sefydlog anniriaethol, a'i hamorteiddio ar sail llinell syth dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig o saith mlynedd.

Mae ewyllys da wrth gaffael busnes yn cael ei gyfalafu fel ased sefydlog anniriaethol, a'i amorteiddio ar sail llinell syth dros oes ddefnyddiol ddisgwyliedig o saith mlynedd.

Gwneir adolygiadau amhariad pan fydd digwyddiadau a newidiadau mewn amgylchiadau'n awgrymu achos posib o amhariad. Os gwelir bod gwerth cario unrhyw ased yn uwch o lawer na'i fudd i gynhyrchu refeniw yn y dyfodol, caiff ei ysgrifennu i lawr yn unol â hynny.

## Buddsoddiadau

Mae gan Gweithredu dros Blant fuddsoddiadau er mwyn cynhyrchu incwm i gefnogi gweithgareddau elusennol dros gyfnod hir, a darparu asedau i fodloni anghenion cronfeydd wrth gefn a nodwyd yn y polisi cronfeydd wrth gefn. Mae buddsoddiadau'n cael eu datgan ar sail prisiau diweddaraf y farchnad ar ddyddiad y fantolen, oni bai fod tystiolaeth o werth teg gwahanol.

Caiff eiddo buddsoddi ei gofnodi'n wreiddiol ar swm y gost ac wedyn ei ailbrisio ar ddiwedd pob blwyddyn ar sail ei werth teg.

Mae enillion neu golledion yn ystod y flwyddyn yn cael eu datgelu yn y datganiad cyfunol o weithgareddau ariannol yn yr adran enillion a cholledion cydnabyddedig eraill yn ystod y flwyddyn, ac yn nodyn 9.

## Arian parod cyfatebol

Mae arian parod cyfatebol yn cael ei gynrychioli gan falansau arian a gedwir am gyfnod byr.

## Dyledwyr

Mae dyledwyr masnach a dyledwyr eraill yn cael eu cydnabod yn swm y setliad. Mae rhagdaliadau'n cael eu prisio ar y swm a dalwyd ymlaen llaw heb gynnwys unrhyw ddisgowntiau masnach sy'n ddyledus yma.

## Credydwyr a darpariaethau

Mae credydwyr a darpariaethau'n cael eu cydnabod pan fydd gan yr elusen rwymedigaeth sy'n deillio o ddigwyddiad blaenorol a fydd yn debygol o arwain at drosglwyddo arian i drydydd parti, a phan fydd modd mesur neu amcangyfrifo'n ddibynadwy y swm sy'n ddyledus er mwyn setlo'r rhwymedigaeth. Fel arfer, mae credydwyr a darpariaethau'n cael eu cydnabod yn symiau'r setliad, ar ôl ystyried unrhyw ddisgowntiau masnach sy'n ddyledus.

## Llif arian parod

Mae'r elusen yn bodloni'r diffiniad o endid cymwys dan FRS 102 ac felly mae wedi manteisio ar yr eithriad datgelu yng nghyswllt cyflwyno datganiad llif arian mewn perthynas â'i ddatganiadau ariannol ar wahân, a gyflwynir ochr yn ochr â'r datganiadau ariannol cyfunol.

## Grantiau'r Llywodraeth

Caiff grantiau'r Llywodraeth eu cydnabod ar sail croniadau, pan fo sicrwydd rhesymol y bydd yr elusen yn cydymffurfio â'r amodau sy'n gysylltiedig â'r grant ac y bydd y grant yn cael ei dderbyn. Mae'r grant mewn cysylltiad â'r cynllun cadw swyddi wedi cael ei gydnabod yn y cyfnod y mae'r costau staff ar ffyrlo sylfaenol yn berthnasol iddo.

## Cydnabod incwm a gwariant o feithrinfeydd a chlybiau y tu allan i oriau ysgol

Mae incwm o'r gweithgareddau hyn yn cael ei wneud yn bennaf drwy endidau Action for Children Developments Limited a Out of School Scotland Limited. Mae'r gweithgareddau hyn yn cyd-fynd ag amcanion elusennol yr endid rhiant ac mae'r incwm a'r gwariant o'r gweithgareddau hyn yn cael eu neilltuo o dan 'gweithgareddau elusennol' yn yr is-gategori 'cymorth i deuluoedd'.

## 3. Incwm a gwaddolion

Mae adnoddau sy'n dod i mewn o weithgareddau elusennol yn cael eu dadansoddi ar draws prif weithgareddau Gweithredu dros Blant ar wyneb y datganiad o weithgareddau ariannol. Mae'r incwm hwn yn deillio'n bennaf o waith gydag awdurdodau lleol, ymddiriedolaethau iechyd a ffynonellau llywodraeth ganolog, gan ddarparu gwasanaethau i blant, pobl ifanc a'u teuluoedd.

| Rhoddion a chymynroddion | Grŵp 2025 | Grŵp 2024 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Rhoddion | 14,806 | 12,957 |
| Cymynroddion | 3,059 | 4,239 |
| | **17,865** | **17,196** |

Dyma'r derbyniadau pwrpas penodol sydd wedi'u cynnwys uchod: £5,701,000 o roddion (2024: £4,785,000)

Roedd rhoddion gan ymddiriedolwyr yn ystod y flwyddyn yn £550 (2024: £3,900).

Amcangyfrifwyd bod cymynroddion y rhoddwyd gwybod amdanynt ond na chawsant eu cronni ar 31 Mawrth 2025, oherwydd tebygolrwydd neu nad oedd meini prawf mesuradwy yn cael eu bodloni, yn £1.23 miliwn (2023: £0.86 miliwn).

### Incwm elusennol

Cyfanswm yr adnoddau a ddaeth i mewn i'r elusen oedd £142,669,000 (2024: £139,004,000). Y diffyg net ar gyfer yr elusen oedd (£563,000) (2024: diffyg £5,130,000).

Mae taliadau Rhodd Cymorth a dderbyniwyd wedi'u cynnwys dan Rhoddion. Mae'r ffioedd rheoli a ddaeth i law wedi'u cynnwys o dan incwm o weithgareddau elusennol yn natganiad yr elusen o weithgareddau ariannol.

### Is-gwmnïau ac elusennau cysylltiedig

Mae Action for Children Services Limited ac Action for Children Developments yn is-gwmnïau masnachu sydd ym mherchnogaeth lwyr Gweithredu dros Blant, yr elusen. Maen nhw'n ymwneud â darparu gwasanaethau lles ac addysgol ar ran yr elusen, codi arian a gweithgareddau masnachol yn y drefn honno. Mae Out of School Scotland Limited yn is-gwmni arall sydd o dan berchnogaeth lwyr Gweithredu dros Blant ac mae'n darparu gwasanaethau sy'n ymwneud â chlybiau ar ôl ysgol, clybiau brecwast a chlybiau gwyliau. Mae holl elw'r is-gwmnïau yn cael ei roi fel cymorth rhodd i'r elusen.

Mae crynodeb o ganlyniadau'r flwyddyn a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2025 i'w weld isod:

| | Is-gwmnïau: Gwasanaethau | Is-gwmnïau: OSCARS | Is-gwmnïau: Datblygu | Cyfanswm 2025 | Cyfanswm 2024 |
|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Trosiant | 73,353 | 1,899 | 13,802 | 89,054 | 86,256 |
| Cost gwerthiannau | (71,120) | (1,596) | (10,756) | (83,472) | (81,864) |
| Elw gros | 2,232 | 304 | 3,046 | 5,581 | 4,392 |
| Gweithgareddau elusennol | – | – | – | – | – |
| Costau gweinyddu | (21) | (150) | (2,208) | (2,379) | (2,669) |
| **Gwarged/(diffyg) ar weithgareddau arferol cyn treth** | **2,211** | **154** | **837** | **3,202** | **1,722** |
| Treth ar weithgareddau arferol | – | – | – | - | - |
| Enillion wrth gefn wedi'u dwyn ymlaen | - | - | (106) | (106) | (37) |
| Rhoddion dan Rodd Cymorth | (2,211) | (154) | (731) | (3,096) | (1,791) |
| **Enillion wrth gefn wedi'u cario ymlaen** | – | – | – | – | **(1,828)** |

## 3. Incwm a gwaddolion (parhad)

Mae asedau net yr is-gwmnïau a'r elusennau cysylltiedig wedi'u nodi isod:

| | Is-gwmnïau | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| | Gwasanaethau | OSCARS | Datblygu | Cyfanswm 2025 | Cyfanswm 2024 |
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| Asedau sefydlog | – | – | – | – | – |
| Asedau cyfredol | 11,235 | 516 | 1,732 | 13,483 | 11,252 |
| Credydwyr | (11,235) | (516) | (1,732) | (13,483) | (11,358) |

### Incwm o fuddsoddi

| | Grŵp | |
|---|---|---|
| | 2025 | 2024 |
| | £'000 | £'000 |
| Ecwiti heb ei restru | – | – |
| Cronfeydd y Bwrdd Cyllid Canolog (CBF) - y DU | 174 | 395 |
| Cronfeydd CBF – tramor | – | 60 |
| Incwm llog | 495 | 534 |
| Incwm o warannau | 669 | 989 |
| Incwm rhent o eiddo buddsoddi | 466 | 583 |
| | **1,135** | **1,572** |

## 4. Gwariant

| | 2025 | | | 2024 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Costau uniongyrchol | Cymorth cefnogi | Cyfanswm | Costau uniongyrchol | Cymorth cefnogi | Cyfanswm |
| **Grŵp** | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Gwariant ar godi arian** | | | | | | |
| Rhoddion | 6,567 | 413 | 6,980 | 5,917 | 400 | 6,317 |
| Cymynroddion | 342 | 13 | 355 | 334 | 12 | 346 |
| | 6,909 | 426 | 7,335 | 6,251 | 412 | 6,663 |
| Costau rheoli buddsoddiadau | 106 | – | 106 | 89 | – | 89 |
| | **7,015** | **426** | **7,441** | **6,340** | **412** | **6,752** |
| **Gwariant ar weithgareddau elusennol** | | | | | | |
| Cymorth i deuluoedd | 52,228 | 8,877 | 61,105 | 59,831 | 8,565 | 68,396 |
| Plant mewn gofal | 35,520 | 3,000 | 38,520 | 33,696 | 2,895 | 36,591 |
| Plant a phobl ifanc anabl | 35,373 | 5,643 | 41,016 | 31,771 | 5,444 | 37,215 |
| Iechyd meddwl a llesiant | 13,063 | 1,196 | 14,259 | 10,139 | 1,154 | 11,293 |
| Ymgyrchu a pholisïau cyhoeddus | 636 | 49 | 685 | 739 | 47 | 786 |
| | **136,820** | **18,765** | **155,585** | **136,176** | **18,105** | **154,281** |
| **Cyfanswm gwariant** | **143,835** | **19,191** | **163,026** | **142,516** | **18,517** | **161,033** |

Polisi'r elusen yw dyrannu costau cefnogi gwahanol swyddogaethau i'r gweithgareddau uchod ar sail costau'r gweithgareddau hynny. Mae costau cymorth fesul categori yn cynnwys technoleg £9.0 miliwn (2024: £8.6 miliwn), eiddo £2.5m (2024: £3.2 miliwn), cyllid £3.2 miliwn (2024: 2.7 miliwn), strategaeth £0.6 miliwn (2024: £0.7 miliwn) – Adnoddau Dynol £2.0 miliwn (2024: £3.2 miliwn), arall £1.8 miliwn (2024: £2.4 miliwn). Mae manylion y costau llywodraethu ar y dde.

### Costau ymddiriedolwyr

Cafodd treuliau teithio eu had-dalu i chwe ymddiriedolwr, cyfanswm o £2,378 (2024: saith yn derbyn £1,194).

Prynodd yr elusen yswiriant ar gyfer ymddiriedolwyr a swyddogion yn ystod y flwyddyn i'w hindemnio rhag rhwymedigaethau posibl a wynebwyd ganddynt mewn perthynas â'u dyletswyddau.

Nid oes gan ymddiriedolwyr hawl i gael taliadau cydnabyddiaeth, ac ni chawsant daliadau o'r fath.

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Ffioedd taladwy i archwilwyr Gweithredu dros Blant** | | |
| Ar gyfer archwiliad o'r elusen | 109 | 116 |
| Ar gyfer archwiliadau o ymddiriedolaethau cysylltiedig ac is-gwmnïau | 30 | 29 |
| | 139 | 145 |
| Ar gyfer tystysgrifau i bartneriaid prosiectau | – | – |
| Ar gyfer cyngor ar dreth a materion eraill | – | – |
| | 139 | 145 |
| **Treth Ar Werth (TAW)** | | |
| Fel y nodir yn y polisi cyfrifyddu, ni all Gweithredu dros Blant hawlio'n ôl yr holl Dreth ar Werth mae'n ei thalu wrth brynu nwyddau a gwasanaethau. Yn ystod y flwyddyn, roedd cost Treth ar Werth na ellir ei hadennill yn: | 2,230 | 2,222 |
| **Rhentu o dan brydlesi gweithredol** | | |
| Cyfarpar a pheirianwaith | 11 | 7 |
| Tir ac adeiladau | 2,238 | 1,996 |
| | 2,249 | 2,003 |
| **Dibrisiant** | 1,625 | 1,003 |
| **Costau llywodraethu** | | |
| Costau staff | 588 | 553 |
| Ffioedd archwilio mewnol ac allanol | 236 | 247 |
| Ffioedd cyfreithiol | 288 | 151 |
| Costau eraill | 91 | 35 |
| | 1,203 | 986 |

Mae costau llywodraethu'n cael eu cynnwys yn y costau cefnogi.

## 5. Enillion gweithwyr

| Roedd costau staff yn cynnwys: | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Cyflogau | 95,602 | 95,342 |
| Costau dileu swyddi | 828 | 640 |
| Costau staff dros dro | 5,325 | 3,992 |
| Costau nawdd cymdeithasol | 8,496 | 8,412 |
| Ardoll prentisiaethau | 451 | 450 |
| Cronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant – cost cyfraniadau wedi'u diffinio | 4,433 | 4,331 |
| Cyfraniadau cynlluniau pensiwn athrawon, llywodraeth leol a Chronfa Bensiwn y GIG | 624 | 510 |
| | **115,759** | **113,677** |

Wedi'u cynnwys yn y costau dileu swyddi mae £173,417 (2024: £249,577) o daliadau dileu swydd ex gratia a wnaed yn unol â pholisi dileu swyddi Gweithredu dros Blant. Gwneir taliadau o'r fath yn ôl disgresiwn yr uwch reolwyr, ac nid ydynt yn rhan o gontractau.

Ar wahân i Gronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant, mae'r elusen yn cymryd rhan mewn nifer o gynlluniau â buddion wedi'u diffinio – o ran cyfrifyddu, mae'r rheini'n cael eu trin yr un fath â chynlluniau â chyfraniadau wedi'u diffinio.

Mae'r Cynllun Pensiwn Athrawon a Chronfa Bensiwn y GIG yn gynlluniau heb eu hariannu. Mae rhwymedigaethau yn ogystal â chyfraniadau parhaus yn gallu codi gydag achosion o ddileu swydd neu ymddeol yn gynnar. Ond mae'r risg honno'n cael ei rheoli gan yr elusen, a gwneir darpariaeth ar gyfer y rhwymedigaeth lawn os bydd hynny'n digwydd.

Mae gan yr elusen hefyd statws corff derbyniedig mewn amrywiol gynlluniau pensiwn llywodraeth leol (LGPS), a allai fod â risg i'r elusen. Mae Gweithredu dros Blant yn sicrhau bod risgiau posib sydd y tu hwnt i reolaeth yr elusen yn cael eu trosglwyddo'n ôl i'r awdurdod lleol perthnasol yn unol â chanllawiau'r Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol a gyhoeddwyd ym mis Rhagfyr 2009 – *Admitted body status provisions in the Local Government Pension Scheme when services are transferred from a local authority or other scheme employer* – a'r awdurdod lleol sy'n ysgwyddo'r risgiau o ran enillion ar fuddsoddiad, cyfradd ddisgownt, newidiadau rheoleiddio, chwyddiant, marwolaeth a risiau actwaraidd.

| Dyma oedd nifer cyfartalog y gweithwyr yn ystod y flwyddyn: | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | No. | No. |
| Codi arian | 158 | 157 |
| Gweithgareddau elusennol | 3,996 | 4,044 |
| Gwasanaethau cymorth | 241 | 231 |
| | 4,395 | 4,432 |
| **Nifer y gweithwyr cyfwerth ag amser llawn ar ddiwedd y flwyddyn** | **2,940** | **3,407** |

| Dyma nifer y staff yr oedd eu henillion yn perthyn i bob un o'r bandiau canlynol: | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| £60,001 i £70,000 | 27 | 35 |
| £70,001 i £80,000 | 19 | 24 |
| £80,001 i £90,000 | 11 | 8 |
| £90,001 i £100,000 | 6 | 5 |
| £100,001 i £110,000 | 1 | 2 |
| £110,001 i £120,000 | 1 | 3 |
| £120,001 i £130,000 | 3 | 1 |
| £160,001 i £170,000 | 1 | 1 |

O blith y staff sydd wedi'u rhestru uchod, roedd 66 yn cronni buddion o dan adran cyfraniadau wedi'u diffinio Cronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant (76 yn 2024). Swm y cyfraniadau a dalwyd i'r cynllun mewn perthynas â'r staff hyn oedd £330,190 (2024: £351,150).

Uchod dangosir cyfanswm yr enillion a dalwyd yn 2024/25 sy'n cynnwys cyflogau blynyddol presennol y staff rheoli allweddol presennol. Yn y bandiau uchod – ac mae'r staff hyn wedi'u cynnwys yn y fan honno hefyd – y diffiniad gofynnol o enillion yw cyfanswm cyflog gros yn ogystal ag unrhyw fuddion o fath arall. Mae'r dadansoddiad isod hefyd yn cynnwys taliadau terfynu cyflogaeth ynghyd â chyfraniadau yswiriant gwladol a phensiwn cyflogwr.

Cyfanswm cost staff rheoli allweddol oedd £1,019,565 (£1,091,168 yn 2024).

## 6. Pensiynau

Mae Gweithredu dros Blant yn darparu buddion pensiwn yn bennaf drwy Gronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant. Cedwir asedau'r gronfa bensiwn mewn cronfa ar wahân a weinyddir gan ymddiriedolwyr.

Mae'r staff presennol yn aelodau o elfen cyfraniadau diffiniedig y gronfa bensiwn, lle mae gweithwyr newydd yn cael eu cofrestru'n awtomatig.

Hyd at 30 Ebrill 2010, roedd gweithwyr yn cael buddion drwy nifer o adrannau buddion wedi'u diffinio, a chynllun hybrid a oedd yn cyfuno cyfartaledd enillion dros oes gyrfa wedi'u hailbrisio a threfniadau cyfraniadau diffiniedig. Ar 1 Mai 2010, yn dilyn adolygiad fuddion ac ymgynghori ag aelodau o'r gronfa bensiwn, staff Gweithredu dros Blant ac undebau, caewyd pob rhan o'r gronfa bensiwn, gydag un eithriad, ar gyfer aelodau newydd a phresennol. Mae staff sy'n trosglwyddo i Gweithredu dros Blant dan drefniadau TUPE Bargen Deg yn gymwys i ymuno ag elfen buddion diffiniedig y gronfa bensiwn, sy'n debyg i gynllun pensiwn llywodraeth leol. Cafodd adran newydd ar gyfer cyfraniadau wedi'u diffinio ei chreu ar gyfer yr holl staff eraill.

| Dyma oedd aelodaeth y Gronfa Bensiwn ar 31 Mawrth 2025: | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| Aelodau gweithredol – adran buddion wedi'u diffinio | – | – |
| Aelodau gweithredol – adran cyfraniadau wedi'u diffinio | 2,908 | 3,003 |
| | 2,908 | 3,003 |
| Aelodau gohiriedig | 10,115 | 9,781 |
| Aelodau sy'n bensiynwyr | 3,155 | 3,080 |
| | **16,178** | **15,864** |

Ar 31 Mawrth 2025, nid oedd unrhyw aelodau gweithredol yn dal i gronni buddion o dan yr adran buddion diffiniedig.

**Mae'r cyfraniadau ar gyfer yr adran cyfraniadau diffiniedig yn amrywio yn unol â'r cyfraddau cyfatebol canlynol:**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gweithiwr | 3% | 4% | 5% | 6% | 7% | uwch na 7% |
| Cyflogwr | 5% | 5% | 5% | 6% | 7% | 7% |

At hynny, mae Gweithredu dros Blant yn talu cyfraniad o 2% i'r adran buddion diffiniedig dros yr holl aelodau gweithredol ar gyfer achosion o farwolaeth yn y swydd, ac er mwyn talu costau gweinyddu'r Gronfa Bensiwn.

Cyfanswm cyfraniadau'r cyflogwr at adran buddion diffiniedig Cronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant am y flwyddyn oedd £2,625,000 (2024: £1,531,000).

Mae deddfwriaeth y DU yn ei gwneud yn ofynnol i gynlluniau pensiwn gael eu hariannu'n ddarbodus. Cynhaliwyd y prisiad diwethaf o gyllid y Gronfa gan actiwari cymwys ar

31 Mawrth 2024 a dangosodd warged o £3.9 miliwn ar sail darpariaethau technegol sy'n amcan cyllido statudol. Mae Gweithredu dros Blant yn defnyddio dull mwy darbodus gan dargedu cynaliadwyedd, a oedd yn dangos diffyg o £23.9 miliwn ar 31 Mawrth 2024. Talodd yr elusen gyfraniadau diffyg o £1.33 miliwn y flwyddyn am y flwyddyn hyd at 31 Mawrth 2025 ac mae'n talu £0.5 miliwn y flwyddyn o 1 Ebrill 2025, £0.5 miliwn y flwyddyn o 1 Ebrill 2026, £1.0 miliwn y flwyddyn o 1 Ebrill 2027 a £1.0 miliwn y flwyddyn o 1 Ebrill 2028, y disgwylir iddynt, ynghyd ag enillion buddsoddi o asedau sy'n ceisio enillion, wneud iawn am y diffyg yn erbyn y targed cynaliadwyedd erbyn 31 Mawrth 2029. Disgwylir y prisiad cyllid nesaf erbyn 31 Mawrth 2027 fan bellaf, lle bydd y cynnydd tuag at gyllid llawn yn cael ei adolygu.

Mae'r cyfraniadau lleihau'r diffyg yn cael eu hadlewyrchu yng nghynlluniau busnes yr elusen, ac yn yr asesiad o bolisi cronfeydd wrth gefn yr elusen.

Ar ben hynny, mae arwystl er budd y Gronfa Bensiwn dros asedau penodol sy'n eiddo i Gweithredu dros Blant petai'n methu talu.

Mae'r Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth yn cynnwys cytundeb y bydd hyd at 50% o'r elw o werthu'r eiddo sy'n eiddo i'r elusen yn cael ei dalu i'r Gronfa Bensiwn os na chaiff yr arian ei fuddsoddi gan yr elusen o fewn cyfnod y cytunir arno.

Er bod y broses o setlo rhwymedigaethau pensiwn yn un hirdymor, wrth ledaenu'r costau dros nifer o flynyddoedd, mae lefel y cyllid yn gyfnewidiol. Ciplun ar un diwrnod yw prisiadau, ac maent yn sensitif i newidiadau o ran ffactorau'r farchnad ariannol. Mae'r actiwari AON yn darparu adroddiad rheolaidd ar sefyllfa ariannu'r gronfa bensiwn ac mae hyn yn cael ei fonitro'n agos gan y gronfa bensiwn a'r elusen.

Mae cronfeydd pensiwn yn cael eu prisio mewn gwahanol ffyrdd at wahanol ddibenion. Mae'r prisiad tair blynedd a nodir uchod yn cael ei wneud gan actiwari AON y cynllun i sefydlu lefel ariannu briodo. Mae'n defnyddio rhagdybiaethau ariannol penodol sy'n wahanol i'r rhagdybiaethau y mae'n rhaid eu defnyddio o dan brisiad y Safon Adrodd Ariannol, FRS 102 a nodwyd isod, a gynhelir er mwyn gwneud datgeliadau cyfrifyddu. Mae'r prisiad FRS yn defnyddio rhagdybiaethau cyfradd ddisgownt/llog uwch a chwyddiant is na'r prisiad a gynhelir bob tair blynedd, ac mae'r ddau wahaniaeth hyn yn arwain at gyfrifiad is o ran rhwymedigaethau pensiwn.

Mae'r sefyllfa FRS 102 a ddangosir isod yn warged o £1.7 miliwn, lefel ariannu sydd ychydig dros 100%. Defnyddir y prisiad parhaus wrth gytuno ar lefelau cyfraniadau a'r cynllun adfer. Er bod symudiadau ym mhrisiad FRS102 yn ymddangos yn y datganiad gweithgareddau ariannol, ac yn bwydo drwodd i gyfanswm y fantolen, nid ydynt yn newid lefel y gronfa gyffredinol.

Y gronfa gyffredinol sy'n cael ei chysylltu'n uniongyrchol â'r polisi cronfeydd wrth gefn, a'r gronfa honno sy'n bwysig wrth asesu gallu'r elusen i reoli ei gweithrediadau yn y dyfodol. Mae'r cyfraniadau at y diffyg yn cael eu hadlewyrchu yng nghynlluniau busnes yr elusen, ac yn yr asesiad o bolisi cronfeydd wrth gefn yr elusen.

### Prisiad FRS 102

O dan FRS 102 dylid cyfyngu ar swm unrhyw warged fel nad yw'n fwy na'r buddion economaidd y gallai'r elusen eu gwireddu, naill ai ar ffurf ad-daliadau yn y dyfodol neu ostyngiadau mewn cyfraniadau yn y dyfodol. Gan nad oes gan yr elusen hawl diamod i'r gwarged sy'n codi ym mhrisiad FRS102 o'r Gronfa Bensiwn, nid yw unrhyw warged yn cael ei gydnabod yn y datganiadau ariannol.

Mae'r datganiadau ariannol hyn wedi cael eu paratoi yn unol â gofynion FRS 102. Nid yw prisiad FRS 102 ond yn ymwneud ag adrannau buddion wedi'u diffinio Cronfa Bensiwn Gweithredu dros Blant, a dim ond yr elfen honno o'r Gronfa Bensiwn sy'n cael sylw yn y dadansoddiad canlynol. Mae prif ragdybiaethau actwaraidd FRS 102, a bennwyd gan amodau demograffig a marchnadoedd ariannol, wedi'u nodi isod. Mae tabl yn nes ymlaen yn dangos sensitifrwydd y rhwymedigaeth i'r rhagdybiaethau hyn.

| Rhagdybiaethau ariannol % y flwyddyn | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| Chwyddiant – RPI | 3.00 | 3.10 |
| Chwyddiant – CPI | 2.40 | 2.40 |
| Cyfradd y cynnydd mewn cyflogau | 2.00 | 2.00 |
| Isafswm RPI 0% | 3.05 | 3.15 |
| Isafswm RPI 0% uchafswm o 2.5% | 2.00 | 2.00 |
| Isafswm CPI 0% uchafswm o 3% | 1.95 | 1.95 |
| Cyfradd ddisgownt | 5.75 | 4.80 |

Mae'r gronfa yn para tua 16 mlynedd ar sail canlyniadau cychwynnol prisiad cyllid 31 Mawrth 2021.

| Rhagdybiaethau demograffig | Gwerth yn 2025 | Gwerth yn 2024 |
|---|---|---|
| Y tabl sylfaen marwolaethau a fabwysiadwyd | Tablau S4 (S4PMA ar gyfer dynion, S4PFA_M ar gyfer menywod) a ffactorau graddio o 110% ar gyfer rhai nad ydynt yn bensiynwyr a 100% ar gyfer pensiynwyr. | Tablau S3 (S3PMA ar gyfer dynion, S3PFA_M ar gyfer menywod) a ffactorau graddio o 110% ar gyfer dynion nad ydynt yn bensiynwyr, 105% ar gyfer menywod nad ydynt yn bensiynwyr a 100% ar gyfer pensiynwyr. |
| Y gwelliannau o ran marwolaethau yn y dyfodol a fabwysiadwyd | Gwelliannau yn unol â CMI 2023, gyda pharamedr llyfnhau o 7.0, paramedr gwelliannau cychwynnol o 0.5 ar gyfer dynion a menywod, a chyfradd gwelliant hirdymor o 1.5%. | Gwelliannau yn unol â CMI 2022, gyda pharamedr llyfnhau o 7.0, paramedr gwelliannau cychwynnol o 0.5 ar gyfer dynion a menywod, a chyfradd gwelliant hirdymor o 1.5% y flwyddyn. |
| Disgwyliad oes yn 60 i ddynion sy'n 60 ar hyn o bryd | 26.3 | 26.8 |
| Disgwyliad oes yn 60 i fenywod sy'n 60 ar hyn o bryd | 28.7 | 29.0 |
| Disgwyliad oes yn 60 i ddynion sy'n 40 ar hyn o bryd | 27.2 | 28.0 |
| Disgwyliad oes yn 60 i fenywod sy'n 40 ar hyn o bryd | 29.5 | 30.4 |
| Trosglwyddo'r nifer sy'n manteisio | Dim | Dim |
| Cydraddoli GMP | Mae lwfans 0.8% wedi'i gynnwys yn y Rhwymedigaeth Buddion wedi'u Diffinio (DBO) sy'n adlewyrchu amcangyfrif gorau AON o ran cost cydraddoli GMP (ni waeth a yw'r dull gwirioneddol yn cael ei roi ar waith ai peidio). | Mae lwfans 0.8% wedi'i gynnwys yn y Rhwymedigaeth Buddion wedi'u Diffinio (DBO) sy'n adlewyrchu amcangyfrif gorau AON o ran cost cydraddoli GMP (ni waeth a yw'r dull gwirioneddol yn cael ei roi ar waith ai peidio). |
| Cyfnewid am arian | Aelodau Cyn -2002/Ar ôl -2002 y tybir eu bod yn cyfnewid 20%/5% o'u pensiwn am lwmp swm arian parod ar ôl ymddeol. | Aelodau Cyn -2002/Ar ôl -2002 y tybir eu bod yn cyfnewid 20%/5% o'u pensiwn am lwmp swm arian parod ar ôl ymddeol. |

Mae'r tybiaethau ynghylch y gyfradd marwolaethau'n seiliedig ar y marwolaethau a brofwyd yn ddiweddar ymysg aelodau'r gronfa ac yn caniatáu ar gyfer gwelliannau a ddisgwylir yn y dyfodol yn y gyfradd marwolaethau.

### Sefyllfa'r fantolen

| | 2025 | | 2024 | |
|---|---|---|---|---|
| | Gwerth | Dyraniad Asedau | Gwerth | Dyraniad Asedau |
| | £'000 | % | £'000 | % |
| Dewisiadau gwahanol | 132,420 | 32.7 | 135,600 | 29.7 |
| Benthyciadau | 266,290 | 65.9 | 316,800 | 69.5 |
| Arian parod | 5,768 | 1.4 | 3,406 | 0.7 |
| Gwarantau ecwiti | – | – | – | - |
| Arall | – | – | – | - |
| Cyfanswm gwerth teg asedau | **404,478** | **100.0** | **455,806** | **100.0** |
| Gwerth actwaraidd rhwymedigaethau | (402,732) | – | (456,357) | – |
| (Rhwymedigaeth)/ Gwarged at ddibenion FRS 102 | **1,746** | – | **(551)** | – |
| Datgydnabod gwarged | (1,746) | – | – | – |
| **Atebolrwydd Net wedi'i ad-drefnu yn y fantolen** | – | – | **(551)** | – |

Nid oes dim o asedau'r gronfa wedi'u buddsoddi yn offerynnau ariannol yr elusen nac mewn eiddo sy'n cael ei feddiannu gan yr elusen neu asedau eraill a ddefnyddir gan yr elusen.

### Dadansoddiad o'r symiau sydd wedi'u nodi yn y Datganiad o Weithgareddau Ariannol

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| **Cost gwasanaeth** | – | – |
| Cost gwasanaeth cyfredol | – | – |
| Cost gwasanaeth yn y gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau) | – | – |
| Cost Setliad | 1,504 | 1,275 |
| Treuliau gweinyddu | 28 | – |
| Llog ar rwymedigaeth/(asedau) buddion net diffiniedig | – | – |
| **Cost cyllido** | – | – |
| Costau pensiwn wedi'u nodi yn yr elw a'r colledion | 1,532 | 1,275 |
| Enillion asedau cronfa (yn fwy na)/ yn llai na'r hyn a nodir yn y llog net | 50,907 | 43,611 |
| Enillion/(colledion) o ran rhwymedigaethau yn ystod y flwyddyn | (52,083) | (3,945) |
| Newid yn effaith y terfyn asedau | 1,746 | (38,859) |
| **Cyfanswm y (golled) actwaraidd gydnabyddedig** | **570** | **807** |

## Cysoni gwerth teg asedau a rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn

| | 2025 | | | 2024 | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Asedau | Rhwymedigaethau | Cronfa | Asedau | Rhwymedigaethau | Cronfa |
| | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** | **£'000** |
| Asedau/(rhwymedigaethau) ar ddechrau'r flwyddyn | 455,806 | (456,357) | (551) | 497,487 | (460,396) | 37,091 |
| Incwm (traul) o log | 21,362 | (21,362) | – | 23,162 | (21,394) | 1,768 |
| Cost gwasanaeth cyfredol | – | – | – | – | – | – |
| Costau gweinyddu | – | (1,504) | (1,504) | – | (1,275) | (1,275) |
| Cost gwasanaeth yn y gorffennol (gan gynnwys cwtogiadau) | – | – | – | – | – | – |
| Cyfraniadau gan gyfranogwyr y gronfa | – | – | – | – | – | – |
| Cyfraniadau gan y cyflogwr | 2,625 | – | 2,625 | 1,531 | – | 1,531 |
| Enillion/(colledion) actwaraidd | (50,907) | 52,083 | 1,176 | (43,611) | 3,945 | (39,666) |
| Buddion net a dalwyd | (24,408) | 24,408 | – | (22,763) | 22,763 | – |
| **Asedau/(rhwymedigaethau) ar ddiwedd y flwyddyn** | **404,478** | **(402,732)** | **1,746** | **455,806** | **(456,357)** | **(551)** |

## Enillion gwirioneddol ar asedau'r gronfa

| | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Incwm llog ar asedau'r gronfa | 21,362 | 23,162 |
| Enillion/(colledion) ail-fesur ar asedau'r gronfa | (50,907) | (43,611) |
| **Enillion gwirioneddol ar asedau'r gronfa** | **(29,545)** | **(20,449)** |

## Sensitifrwydd rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn

Dangosir sensitifrwydd y rhwymedigaethau i newidiadau yn y rhagdybiaethau allweddol a ddefnyddir i fesur rhwymedigaethau'r gronfa bensiwn yn y tabl isod.

Mae'r sensitifrwydd a ddangosir yn fras ac fe'i pennwyd drwy ystyried hyd y rhwymedigaethau a phroffil cyffredinol aelodaeth y gronfa. Dyma'r un dull a ddefnyddiwyd mewn cyfnodau cyfrifyddu blaenorol.

Mae'r ffigurau gwarged/diffyg a ddangosir isod cyn defnyddio'r terfyn asedau.

| Sensitifrwydd rhwymedigaethau'r Gronfa Bensiwn | Newid | Gwerth newydd |
|---|---|---|
| | £'000s | £'000s |
| **Yn dilyn gostyngiad o 0.5% y flwyddyn yn y gyfradd ddisgownt** | | |
| Asedau'r gronfa ar 31 Mawrth 2025 | – | 404,478 |
| DBO ar 31 Mawrth 2025 | (22,540) | (425,272) |
| Gwarged/(diffyg) ar 31 Mawrth 2025 | (22,540) | (20,794) |
| **Yn dilyn gostyngiad o 0.5% y flwyddyn yn rhagdybiaeth chwyddiant** | | |
| Asedau'r gronfa ar 31 Mawrth 2025 | – | 404,478 |
| DBO ar 31 Mawrth 2025 | (20,370) | (423,102) |
| Gwarged/(diffyg) ar 31 Mawrth 2025 | (20,370) | (18,624) |
| **Yn dilyn cynnydd o flwyddyn mewn disgwyliad oes** | | |
| Asedau'r gronfa ar 31 Mawrth 2025 | – | 404,478 |
| DBO ar 31 Mawrth 2025 | (12,667) | (415,399) |
| Gwarged/(diffyg) ar 31 Mawrth 2025 | (12,667) | (10,921) |

## 7. Asedau sefydlog diriaethol

| Grŵp ac Elusen | Asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu | Tir ac adeiladau rhydd-ddaliadol | Tir ac adeiladau ar brydles | Cyfrifiaduron a chyfarpar | Dodrefn a ffitiadau | Cerbydau modur | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 | £'000 |
| **Cost** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | 6,433 | 30,012 | 3,816 | 14,121 | 3,841 | 1,707 | 59,930 |
| Ychwanegiadau | 3,367 | 86 | – | 7 | – | – | 3,460 |
| Trosglwyddiadau | (6,379) | 815 | – | 5,398 | 166 | – | – |
| Ailddosbarthiad | – | – | – | (5,041) | – | – | (5,041) |
| Gwarediadau | – | (86) | – | – | – | – | (88) |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **3,421** | **30,827** | **3,816** | **14,485** | **4,007** | **1,707** | **58,263** |
| **Dibrisiant** | | | | | | | |
| Ar 1 Ebrill 2024 | – | 10,649 | 3,320 | 13,977 | 3,513 | 1,671 | 33,130 |
| Taliadau am y flwyddyn | – | 254 | 363 | 93 | 92 | 13 | 815 |
| Gwarediadau | – | – | – | – | – | – | – |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | – | **10,903** | **3,683** | **14,070** | **3,605** | **1,684** | **33,945** |
| **Gwerth net ar bapur** | | | | | | | |
| **Ar 31 Mawrth 2025** | **3,421** | **19,925** | **133** | **415** | **401** | **23** | **24,318** |
| Ar 31 Mawrth 2024 | 6,433 | 19,363 | 496 | 144 | 328 | 36 | 26,800 |

Mae asedau sydd wrthi'n cael eu hadeiladu yn cynnwys adeiladau anghyflawn, gwaith adnewyddu mawr a phrosiectau cyfalaf, a dydy'r rhain ddim yn cael eu dibrisio.

Cost y tir, sydd ddim yn cael ei ddibrisio, oedd £4,243,338 (2024: £4,317,663).

O gyfanswm cost neu brisiad tir ac adeiladau lesddaliadol mae £2,415,000 (2024: £2,415,000) yn ymwneud â phrydlesi sydd i ddod i ben o fewn 50 mlynedd neu lai.

Ni ystyrir bod unrhyw asedau wedi dioddef amhariad parhaol i'w gwerth.

Roedd yr ymrwymiadau cyfalaf ar gyfer contractau a bennwyd yng nghyswllt gwariant cyfalaf, llai symiau a oedd wedi codi hyd at 31 Mawrth 2025, yn £dim (2024: £568,645).

Dyma oedd yr ymrwymiadau i daliadau prydlesi gweithredol:

| | 2025 Tir ac adeiladau | 2024 Tir ac adeiladau |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| O fewn blwyddyn | 167 | 578 |
| Rhwng blwyddyn a phum mlynedd | 586 | 628 |
| Ar ôl pum mlynedd | 1,328 | 126 |
| | **2,081** | **1,332** |

## 8. Asedau sefydlog anniriaethol

| Grŵp ac Elusen | 2025 | 2024 |
|---|---|---|
| | £'000 | £'000 |
| Ar 1 Ebrill | 430 | 644 |
| Ychwanegiadau | 5,041 | – |
| Amorteiddiad a godwyd am y flwyddyn | (809) | (214) |
